# Dadansoddiad o'r Adborth am Gwricwlwm i Gymru 2022

Hydref 2019

wavehill
social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

four Cymru

Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 12 Orchard Street, Bryste, BS1 5EH
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LE
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, Llundain, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711
E-bost: wavehill@wavehill.com
Twitter: @wavehilltweets

Rhagor o wybodaeth:

www.wavehill.com
https://twitter.com/wavehilltweets

Awduron yr adroddiad:

Llorenç O'Prey
Dyfan Powell
Tony Jones
Anna Burgess
Chloé Maughan
Sarah Usher
Liam Kennedy
Endaf Griffiths

Dyddiad y ddogfen: Hydref 2019

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........ i

1 Cyflwyniad ........ 1
- 1.1 Cefndir ........ 1
- 1.2 Ymgysylltu ........ 2
- 1.3 Dull Dadansoddi ........ 3
- 1.4 Ymatebion ........ 4
- 1.5 Cyfyngiadau ........ 6

2 Persbectifau Plant a Phobl Ifanc ........ 7

3 Prif Argraffiadau ........ 11
- 3.1 Y Cwricwlwm a'r Pedwar Diben ........ 11
- 3.2 Y Pedwar Diben a Datganiadau Beth sy'n Bwysig ........ 13
- 3.3 Prif Faterion ........ 15
- 3.4 Casgliadau ........ 18

4 Deunydd Cyfarwyddyd ........ 20
- 4.1 Gwella'r Deunydd Cyfarwyddyd ........ 20
- 4.2 Iaith ........ 21
- 4.3 Llywio ........ 22
- 4.4 Ehangder a Dyfnder ........ 23
- 4.5 Strwythur a Chydlyniaeth ........ 24
- 4.6 Hygyrchedd ........ 25
- 4.7 Cynorthwyo'r Darparu ........ 26
- 4.8 Casgliadau ........ 29

5 Y Celfyddydau Mynegiannol ........ 30
- 5.1 Cynnydd ........ 31

6 Iechyd a Lles ........ 32
- 6.1 Cynnydd ........ 34

7 Y Dyniaethau ........ 35
- 7.1 Cynnydd ........ 38

8 Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ........ 39
8.1 Y Gymraeg a'r Saesneg fel Ieithoedd Ychwanegol ........ 40
8.2 Ieithoedd Tramor Modern ........ 42
8.3 Cynnydd ........ 42

9 Mathemateg a Rhifedd ........ 44
9.1 Cynnydd ........ 45

10 Gwyddoniaeth a Thechnoleg ........ 47
10.1 Cynnydd ........ 50

11 Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd ........ 52
11.1 Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ........ 55
11.2 Diwylliant Dysgu ........ 56
11.3 Addysg Hawliau Dynol ........ 57

12 Asesu ........ 59
12.1 Asesu Ffurfiannol ........ 61
12.2 Safoni ........ 62
12.3 E-Bortffolios ........ 64
12.4 Adrodd a Rhieni a Gofalwyr ........ 65

13 Cynnydd ........ 67
13.1 Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith ........ 72

14 Dysgu Proffesiynol ........ 74

15 Gweithredu ........ 76
15.1 Cymorth ........ 76
15.2 Amser ac Adnoddau ........ 78
15.3 Cyfle Cyfartal a Deilliannau ........ 78

16 Casgliadau ........ 80

Atodiad 1: Methodoleg ........ 81
Atodiad 2: Holiadur ........ 82
Ydych chi'n gweithio ym myd addysg neu'n cefnogi cyflwyno addysg? ........ 84

# Tabl o ffigyrau

Ffigwr 4.1: C7.1. A1: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno y bydd cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn helpu plant a phobl ifanc i fod yn: ddysgwyr uchelgeisiol a galluog; unigolion iach a hyderus; dinasyddion egwyddorol a gwybodus; cyfranwyr mentrus a chreadigol? .. 12

Ffigwr 4.2: C8.1. A2: Gan ystyried datganiadau Beth sy'n Bwysig, i ba raddau yr ydych chi'n cytuno bod y rhain yn rhoi crynodeb o'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu plant a phobl ifanc? ........ 13

Ffigwr 5.1: C9. A3: Yn eich barn chi, a fyddai modd gwella cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022? ........ 20

Ffigwr 5.2: C13.1. B1: Pa mor ddefnyddiol fyddai cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 i chi wrth i chi ddatblygu cwricwlwm ar gyfer eich dysgwyr? Pa mor ddefnyddiol? .... 26

Ffigwr 5.3: C14.1. B2: Yn eich barn chi, pa mor dda y mae cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn caniatáu i bob plentyn a pherson ifanc gael amrediad eang o brofiadau dysgu? Efallai yr hoffech ystyried dysgu ar draws y gwahanol ddisgyblaethau a phynciau sy'n creu rhan o faes dysgu a phrofiad. Pa mor dda? ........ 28

Ffigwr 7.1: C32.1. C5: Pa mor dda y mae cyfarwyddyd Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn cynorthwyo dull gweithredu ysgol gyfan tuag at gynorthwyo iechyd a lles? Pa mor dda? ........ 32

Ffigwr 9.1: C31.1. C4: Pa mor dda y mae'r cyfarwyddyd o fewn Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn darparu ar gyfer datblygiad dysgu a chaffael iaith? Pa mor dda? ........ 39

Ffigwr 9.2: C30.1. C3: Pa mor dda y mae'r adrannau dysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn darparu ar gyfer dysgwyr yn meithrin sgiliau trawsieithu? Pa mor dda? ........ 41

Ffigwr 10.1: C29.1. C2: Pa mor dda y mae'r camau cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd yn cyfleu'r medrusrwydd a ddangosir yn yr egwyddorion cynnydd? Pa mor dda? ........ 45

Ffigwr 12.1: C17.1. B5: Yn eich barn chi, pa mor dda y mae cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cynorthwyo dysgwyr i feithrin sgiliau yn y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol) ac mewn themâu trawsbynciol eraill (e.e. dimensiwn Cymreig a phersbectif rhyngwladol, sgiliau ehangach, gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith, addysg cydberthynas a rhywioldeb)? Pa mor dda? ........ 53

Ffigwr 13.1: C10.1. A4: I ba raddau y mae'r cynigion ynghylch asesu yn cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i nodi cryfderau dysgwr, eu cyflawniadau a'r meysydd y mae gofyn iddynt sicrhau gwelliant ynddynt, er mwyn iddynt allu cynorthwyo cynnydd dysgwr trwy nodi camau nesaf? Pa mor gynorthwyol? ........ 59

Ffigwr 13.2: C22.1. B10: Dylid rhoi blaenoriaeth i asesu ffurfiannol yn y cwricwlwm newydd. Pa mor dda y mae'r cynigion ynghylch asesu yn hyrwyddo'r egwyddor hon? Pa mor dda? . 62

Ffigwr 14.1 C19.1. B7: Yn eich barn chi, pa mor dda y bydd y cyfarwyddyd ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad yn cynorthwyo plant yn ystod blynyddoedd y Cyfnod Sylfaen? Pa mor dda? ........ 67

Ffigwr 14.2: C15.1. B3: Yn eich barn chi, pa mor dda y mae cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn caniatáu i bob plentyn a pherson ifanc arbenigo mewn disgyblaeth neu bwnc arbennig ar ôl 14 oed? Pa mor dda? ........ 69

Ffigwr 14.3: C21.1. B9: Yn eich barn chi, pa mor dda y bydd cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cynnig sylfaen er mwyn helpu pobl ifanc i sicrhau cynnydd ar ôl 16 oed? Pa mor dda? ........ 70

Ffigwr 14.4: C21.1. B9: Ymatebwyr o ysgolion uwchradd: Yn eich barn chi, pa mor dda y bydd cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cynnig sylfaen er mwyn helpu pobl ifanc i sicrhau cynnydd ar ôl 16 oed? Pa mor dda?........ 71

Ffigwr 16.1: C16.1. B4: Bwriad cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yw cynorthwyo ymarferwyr ac athrawon i gynllunio cwricwlwm sy'n benodol i blant a phobl ifanc. I ba raddau y bydd gan ymarferwyr ac athrawon yr hyblygrwydd a'r cymorth i wneud hyn? Mae gan ymarferwyr ac athrawon hyblygrwydd a chymorth. ........ 76

Ffigwr 16.2: C16.1. B4: Ymatebwyr a oedd yn adrodd eu bod yn anghytuno'n gryf fesul canran: Bwriad cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yw cynorthwyo ymarferwyr ac athrawon i gynllunio cwricwlwm sy'n benodol i blant a phobl ifanc. I ba raddau y bydd gan ymarferwyr ac athrawon yr hyblygrwydd a'r cymorth i wneud hyn? Mae gan ymarferwyr ac athrawon hyblygrwydd a chymorth. ........ 77

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ddadansoddiad annibynnol o ymatebion a fu'n rhoi adborth am fersiwn drafft Cwricwlwm i Gymru 2022. Bwriedir iddo gynorthwyo a chyfrannu at yr ymdrechion sy'n parhau i fireinio a gwella'r cwricwlwm cyn ei gyflwyno mewn ystafelloedd dosbarth ar draws Cymru.

## Cefndir

Cyhoeddwyd fersiwn drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn 2019, ac mae'n ceisio ehangu dysgu, gan gynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i fod yn fwy hyblyg o ran eu dulliau, ac mae'n cynnig mwy o allu i arweinwyr ac ymarferwyr addysgol weithredu ac yn eu galluogi i fod yn fwy arloesol a chreadigol. Roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i ystyried safbwyntiau a phersbectifau'r gymuned addysgol ynghylch y cwricwlwm drafft. Estynnwyd gwahoddiad i bobl ifanc, rhieni, athrawon ac arweinwyr ysgol, yn ogystal â'r gymuned ehangach, i gyfrannu eu safbwyntiau rhwng mis Mai a Gorffennaf 2019. Cafwyd ymatebion ar-lein, mewn negeseuon e-bost, trwy'r post ac yn bersonol yn ystod grwpiau ffocws, gweithdai a digwyddiadau rhanbarthol.

## Dull Dadansoddi

Er mwyn deall y materion a'r themâu a godwyd gan ymatebwyr, ym mis Mehefin 2019, comisiynwyd Wavehill, sefydliad ymchwil annibynnol, gan Lywodraeth Cymru i gynnal dadansoddiad a fyddai'n ceisio:

- Deall a mapio **amrediad y safbwyntiau a'r persbectifau** sydd gan ymatebwyr am Gwricwlwm i Gymru 2022.
- Asesu pa mor **gyffredin yw safbwyntiau a phersbectifau penodol** ar draws gwahanol grwpiau o randdeiliaid ac yn gyffredinol.

## Ymatebion

Cafwyd ymatebion gan ystod eang o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn addysg, gan gynnwys ymarferwyr, arweinwyr ysgolion, rhieni, grwpiau diddordeb arbennig, a sefydliadau o'r sector cyhoeddus. Law yn llaw â'r cyfraniadau a gafwyd trwy gymryd rhan mewn gweithdai a grwpiau ffocws, cafodd Llywodraeth Cymru 1,680 o gyfraniadau ar-lein ac mewn negeseuon e-bost.

## Persbectifau Plant a Phobl Ifanc

Yn ogystal, gofynnwyd i blant a phobl ifanc am eu safbwyntiau am y cwricwlwm newydd. Gwelwyd themâu clir ar draws ymatebion ynghylch yr hyn y mae angen iddo newid er mwyn gwella'r dysgu a'r profiad dysgu. Byddai cael llais cryfach fel dysgwyr, er enghraifft, a mwy o hyblygrwydd o ran cynnwys gwersi yn gwella'r profiad dysgu. Roedd hi'n amlwg y byddai rhan fwyaf y plant a'r bobl ifanc yn dymuno bod yn rhan o'r gwaith o siapio'r cwricwlwm yn eu hysgol, oherwydd y teimlwyd y dylid clywed eu llais nhw oherwydd mai nhw fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon ynghylch y ffaith mai oedolion yw'r arbenigwyr ac y dylid gadael cyfrifoldeb o'r fath iddyn nhw.

## Prif Argraffiadau

Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr yn gefnogol o strwythur a theimlad y cwricwlwm newydd ar y cyfan. Croesawyd y cynigion gan nifer o ymatebwyr, gan gynnwys ymarferwyr. Gwelwyd cefnogaeth gyffredinol i agweddau megis y pwyslais ar y pedwar diben, y gallu ychwanegol a gynigir i athrawon o fewn y cwricwlwm, ynghyd â'r ffaith y rhoddir mwy o bwys ar asesu ffurfiannol.

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn gefnogol o'r cwricwlwm a'r pedwar diben, roedd nifer o ymatebwyr yn cyflwyno rhybuddion. Roedd y rhain yn aml yn codi pryderon ehangach gan gynnwys materion ymarferol megis yr amser, yr adnoddau a'r cymorth y bydd athrawon yn ei gael er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus. Roedd hyn yn awgrymu bod ymatebwyr yn darllen ac yn dehongli'r cwricwlwm drafft o bersbectif yr hyn y byddai yn ei olygu iddyn nhw a'u hysgolion yn ymarferol.

## Deunyddiau Cyfarwyddyd

Er y gwelwyd cefnogaeth eang ar gyfer y cwricwlwm, y pedwar diben a datganiadau Beth sy'n Bwysig, roedd 89 y cant o'r ymatebwyr o'r farn y byddai modd gwella'r deunydd mewn rhyw ffordd. At hynny, cynigiwyd sawl arsylwad ac awgrym gan ymatebwyr ynghylch sut y byddai modd gwella'r cyfarwyddyd. Roeddent yn amrywio o argymhellion penodol a manwl iawn i ddatganiadau mwy cyffredinol. Ar draws ymatebion mwy cyffredinol, gwelwyd dwy thema fras yn dod i'r amlwg:

- Y rhai y byddent yn dymuno i'r cyfarwyddyd gael ei symleiddio, gan gynnwys yr iaith a'r cysyniadau a ddefnyddiwyd i gyfleu agweddau ar y cwricwlwm ac o ran ei strwythur a'i gyflwyniad.
- Y rhai yr oeddent yn teimlo y byddai o fudd i'r cyfarwyddyd fod yn ddyfnach a chynnwys mwy o fanylion mewn mannau penodol, er mwyn helpu ymarferwyr ac athrawon i ddeall sut i weithredu'r cwricwlwm mewn gwirionedd.

## Y Celfyddydau Mynegiannol

O blith yr ymatebwyr hynny a fynegodd sylwadau am MDPh Y Celfyddydau Mynegiannol, roedd nifer wedi mynegi cyffro gan eu bod yn teimlo bod ganddo rôl amlwg yn y cwricwlwm. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y cwricwlwm yn rhoi mwy o bwyslais ar y celfyddydau na'r trefniadau cyfredol. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod sialensiau yn codi wrth geisio darparu ehangder y dysgu a'r profiad mewn ffordd effeithiol, yn enwedig i'r rhai heb arbenigedd neu brofiad o fewn cyfrwng neu gelfyddyd penodol.

## Iechyd a Lles

Gwelwyd cefnogaeth gyffredinol i'r MDPh, yn enwedig mewn perthynas â'r dull ysgol gyfan wrth gynorthwyo iechyd a lles. Yn aml, cyfeiriodd ymatebwyr at bwysigrwydd iechyd a lles i ddysgwyr fel rhywbeth y mae'n iawn ei fod yn cael ffocws yn y cwricwlwm newydd. Ar draws gwahanol leoliadau, roedd ysgolion cynradd yn fwy tebygol o adrodd safbwyntiau cadarnhaol ac ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o adrodd safbwyntiau llai cadarnhaol. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai o fudd cynnwys gwybodaeth fanylach yn y cyfarwyddyd er mwyn helpu athrawon ac ysgolion i weithredu'r MDPh.

## Y Dyniaethau

Tueddwyd i weld ymatebion cymysg ynghylch MDPh Y Dyniaethau. Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr a oedd yn teimlo y gallai grwpio pynciau gyda'i gilydd, megis hanes a daearyddiaeth, wanhau addysgu a dysgu. Roedd ymatebwyr eraill yn credu bod yr MDPh yn cynnig ffyrdd gwerthfawr a difyr o archwilio'r cwricwlwm, gan gynnwys trwy gyfrwng dysgu trawsgwricwlaidd.

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Roedd ymatebwyr yn croesawu strwythur a bwriad yr MDPh, gan gynnwys yr hyblygrwydd er mwyn nodi a chynllunio yn unol ag anghenion dysgwyr, a'r ffocws ar gysylltiadau holistig, trawsgwricwlaidd. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai modd cryfhau'r MDPh trwy wneud cyfeiriad mwy amlwg i'r ffordd y gallai ymarferwyr hyrwyddo datblygiad iaith cynnar. Yn ogystal, awgrymodd eraill y byddai modd rhoi sylw amlycach a manylach i ffoneg, gramadeg ac atalnodi yn y cyfarwyddyd.

## Mathemateg a Rhifedd

Ar y cyfan, roedd hi'n ymddangos bod ymatebwyr yn cefnogi'r dull a fabwysiadwyd yn yr MDPh. Roedd un thema a welwyd mewn rhai ymatebion yn cyd-fynd ag adborth arall a gafwyd, sef hygyrchedd y cyfarwyddyd, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr yn y pwnc. Gwelwyd pryderon mwy penodol ynghylch yr iaith a ddefnyddiwyd wrth fframio'r MDPh, yn enwedig gan ymatebwyr o leoliadau meithrin a chynradd.

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Yn gyffredinol, croesawyd Gwyddoniaeth a Thechnoleg gan yr ymatebwyr hynny a fynegodd safbwyntiau. At hynny, cafwyd adborth manwl iawn gan ymatebwyr am eiriad a chynnwys yr MDPh, gan awgrymu y byddai modd gwella manylder y cyfarwyddyd. Ar draws ymatebion, mae'n ymddangos bod tensiwn hefyd rhwng y rhai sy'n dymuno cael mwy o fanylder o fewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'r rhai sydd o'r farn ei fod yn rhy gyfarwyddol.

## Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo bod y cyfarwyddyd yn cynorthwyo dysgwyr i feithrin sgiliau mewn cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Roedd ymatebion cadarnhaol yn canolbwyntio ar faterion megis eglurder y cyfarwyddyd a sut yr oedd yn adlewyrchu arfer da presennol, a sut y byddai dull trawsgwricwlaidd yn effeithiol wrth gynorthwyo datblygiad cymwyseddau a sgiliau allweddol. Roedd eraill yn cynnwys rhybuddion gyda'u cefnogaeth, gan awgrymu bod amrediad o bryderon ymarferol y gallent danseilio addysgu a dysgu ar draws y gwahanol gyfrifoldebau, gan gynnwys sut y cânt eu hymwreiddio.

## Asesu

Ar draws y cynigion eang, un thema allweddol a oedd yn rhedeg trwy nifer o ymatebion oedd yr angen am gyfarwyddyd manylach ynghylch sut y byddai'r cynigion yn gweithio yn ymarferol. Er bod nifer yn gefnogol o'r ffocws ar asesu ffurfiannol, roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y byddai mwy o fanylder am y ffordd y cyflawnir hyn mewn gwirionedd, gan gynnwys enghreifftiau, yn arbennig o werthfawr.

## Cynnydd

Ar draws y gwahanol bwyntiau pontio, roedd rhai ymatebwyr yn credu bod y cwricwlwm newydd yn cynnig dilyniant mwy ystyrlon o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 1. Mynegwyd pryderon ynghylch pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd, ac yna unwaith eto, o addysg uwchradd i addysg drydyddol. Roedd eraill yn teimlo, pe bai'r cwricwlwm newydd yn sicrhau gwelliannau o ran sgiliau a hyder pobl ifanc, y byddai cyfnodau pontio yn fwy llwyddiannus.

## Datblygiad Proffesiynol

Yn gyffredinol, roedd nifer o ymatebwyr yn cydnabod rôl pwysig datblygiad proffesiynol wrth ymwreiddio'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus. O'r safbwynt hwn, byddai'r cwricwlwm newydd yn golygu y byddai gofyn i ymarferwyr a lleoliadau addasu eu harfer, wrth gydlynu'r ddarpariaeth ac wrth addysgu. O ran darparu fframweithiau trawsgwricwlaidd, er enghraifft, roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu y byddai gofyn i athrawon gael hyfforddiant mwy penodol.

## Gweithredu

Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod digon o hyblygrwydd a chymorth er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn siŵr, ond mynegwyd safbwyntiau cadarn gan y rhai yr oeddent yn siŵr, yn rhai cadarnhaol a negyddol. Roedd materion ynghylch gweithredu yn bryder mawr ar draws ymatebion, gan gynnwys cael amser, adnoddau a hyfforddiant digonol er mwyn ymwreiddio'r cwricwlwm newydd.

## Casgliadau

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn teimlo'n gadarnhaol am y cwricwlwm newydd. Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr yn teimlo y byddai modd gwella'r cyfarwyddyd er mwyn eu helpu i ddeall a gweithredu'r cwricwlwm yn ymarferol. Cynigiwyd amrediad o awgrymiadau gan ymatebwyr ynghylch sut y byddai modd gwella'r cyfarwyddyd, a oedd yn amrywio o eiriad penodol iawn i arsylwadau mwy cyffredinol.

# 1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ddadansoddiad annibynnol o ymatebion a fu'n rhoi adborth am fersiwn drafft Cwricwlwm i Gymru 2022. Bwriedir iddo gynorthwyo a chyfrannu at yr ymdrechion sy'n parhau i fireinio a gwella'r cwricwlwm cyn ei gyflwyno mewn ystafelloedd dosbarth ar draws Cymru.

## 1.1 Cefndir

Datblygwyd Cwricwlwm i Gymru 2022 fel ymateb i argymhellion a wnaethpwyd yn nogfen *Dyfodol Llwyddiannus,* sef adolygiad cynhwysfawr o drefniadau cwricwlaidd ac asesu yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2015. Gan ystyried safbwyntiau, pryderon ac uchelgais pobl ar draws Cymru, roedd yr adolygiad yn ceisio cyfleu gweledigaeth ynghylch dyfodol addysg o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Roedd yn cynnwys nifer o argymhellion ymarferol yn amlinellu sut y byddai modd cyflawni'r weledigaeth hon mewn gwirionedd.

Yn 2015, cychwynnodd Llywodraeth Cymru y Sgwrs Fawr, a oedd yn ceisio safbwyntiau a phersbectifau'r gymuned addysg ynghylch yr argymhellion yn nogfen *Dyfodol Llwyddiannus.* Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r Sgwrs Fawr yn croesawu pwyslais a chyfeiriad cyffredinol yr argymhellion. Roedd ymatebwyr yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi dibenion addysg a nodwyd yn yr adolygiad, yr oedd nifer o'r farn eu bod yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer trafodaethau i'w cael am y cwricwlwm.

Gan fanteisio ar y safbwyntiau a'r persbectifau a fynegwyd yn ystod y Sgwrs Fawr, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddatblygu'r cwricwlwm yn fwy manwl. Mewn partneriaeth â rhwydwaith o athrawon, ysgolion, consortia rhanbarthol, Estyn, a rhanddeiliaid allweddol eraill, datblygwyd amrediad o fframweithiau a chyfarwyddyd er mwyn cynorthwyo'r cwricwlwm newydd.

Cwricwlwm i Gymru 2022 yw ffrwyth y gwaith hwn. Diben y cyfarwyddyd yw darparu fframwaith cenedlaethol y gall lleoliadau ac ysgolion adeiladu arno er mwyn datblygu eu cwricwla eu hunain. Ni fwriedir iddo fod yn feysydd llafur cynhwysfawr neu gyflawn neu'n ganllaw er mwyn trefnu amserlenni. Mae cyfarwyddyd Cwricwlwm i Gymru 2022 yn pennu:

- Yr hyn y dylai lleoliadau ac ysgolion ei ystyried wrth gynllunio eu cwricwlwm
- Y disgwyliadau bras i ddysgwyr ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad wrth bob pwynt cynnydd.

**Cwmpas Cwricwlwm i Gymru 2022**

Cynlluniwyd Cwricwlwm i Gymru 2022 ar gyfer pob dysgwr 3 i 16 oed. Mae'r cynigion cyfredol ar gyfer deddfwriaeth yn nodi y darparir y cwricwlwm newydd ar gyfer:

- plant 3 i 5 oed sy'n mynychu dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion a gynhelir a'r rhai sy'n mynychu lleoliadau nas cynhelir a ariennir
- plant 5 i 16 oed sy'n mynychu ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

At hynny, mae Cwricwlwm i Gymru 2022 yn ceisio caniatáu ehangu o ran y dysgu, gan gynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i fod yn fwy hyblyg o ran eu dulliau, a chan gynnig mwy o allu i ymarferwyr ac arweinwyr addysgol, gan eu galluogi i fod yn fwy arloesol a chreadigol.

Gyda'r goblygiadau eang ar gyfer addysgu, dysgu ac asesu, roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio safbwyntiau a phersbectifau'r gymuned addysgol ynghylch fersiwn drafft Cwricwlwm i Gymru 2022. Estynnwyd gwahoddiad i'r rhai sydd â diddordeb mewn addysg, gan gynnwys disgyblion, rhieni, athrawon ac arweinwyr ysgol, yn ogystal â'r gymuned ehangach, i gyfrannu eu safbwyntiau rhwng mis Mai a Gorffennaf 2019. Cafwyd ymatebion ar-lein, mewn negeseuon e-bost, trwy'r post ac yn bersonol yn ystod grwpiau ffocws, gweithdai a digwyddiadau rhanbarthol.

Yna, bydd safbwyntiau a phersbectifau ymatebwyr yn cyfrannu i'r gwaith o fireinio'r deunydd cwricwlaidd cyn iddo gael ei gyflwyno ar draws Cymru. Ystyrir yr adborth gan weithwyr addysg proffesiynol sy'n ymwneud â'r gwaith o'i ddatblygu. Yna, bydd y fersiwn diwygiedig o gyfarwyddyd Cwricwlwm i Gymru 2022 ar gael ym mis Ionawr 2020 – i'w gyflwyno ym mis Medi 2022 – ar gyfer pob grŵp blwyddyn mewn ysgolion cynradd ac ar gyfer Blwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd. Cyflwynir y cwricwlwm i Flwyddyn 8 ym mis Medi 2023, ac yna ar gyfer blwyddyn ar ôl blwyddyn nes y caiff ei gyflwyno i Flwyddyn 11 yn 2026.

## 1.2 Ymgysylltu

Cynhaliwyd rhaglen weithgarwch helaeth cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori am Gwricwlwm i Gymru 2022. Gyda chymorth partneriaid a rhwydweithiau, bu Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu gyda ac yn casglu adborth gan lond gwlad o randdeiliaid. Cynhaliwyd y canlynol:

- Trefnwyd dros 110 o ddigwyddiadau consortiwm rhanbarthol ar draws Cymru, a fynychwyd gan dros 6,300 o ymarferwyr.
- Trefnwyd a chynhaliwyd 24 o grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc ar draws Cymru. Er mwyn datblygu ac ymestyn y gweithgarwch hwn, datblygwyd pecyn cymorth er mwyn cynorthwyo athrawon ac arweinwyr ieuenctid i gynnal sesiynau adborth am y cwricwlwm newydd. Rhannwyd y pecyn cymorth gyda rhanddeiliaid allweddol megis y Comisiynydd Plant, Chwaraeon Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS), Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST Cymru), Plant yng Nghymru, TSANA a Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid.
- Ymgysylltwyd â 200+ o sefydliadau trwy gyfrwng gweithdai rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai sydd â diddordeb mewn Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, Anghenion Dysgu Ychwanegol, grwpiau cred, a materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb rhywiol. Cynhaliwyd digwyddiadau hefyd ar gyfer y Senedd Ieuenctid, Gweithwyr Ieuenctid, Urdd Gobaith, grwpiau celf, a phobl ifanc o gymuned y Sipsiwn a theithwyr ar y cyd â Phrosiect Teithio Ymlaen.
- Mynychwyd cyfarfodydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a digwyddiadau'r Sefydliad Materion Cymreig er mwyn ymgysylltu â sectorau Addysg Uwch a Busnes a Sgiliau. Mynychwyd y rhain gan Athro Graham Donaldson a'r Gweinidog Addysg.

- Trefnwyd brecwast busnes pwrpasol a gadeiriwyd gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarth Prifddinas Caerdydd, lle y bu'r Gweinidog, Cymwysterau Cymru, ac athrawon yn cyflwyno ac yn cymryd rhan mewn trafodaeth Holi ac Ateb.
- Teithiodd y Gweinidog Addysg ar draws Cymru yn ystod y cyfnod rhoi adborth er mwyn cyfarfod gyda rhanddeiliaid a grwpiau amrywiol fel rhan o 'Sioe Deithiol Cenhadaeth ein Cenedl'. Mynychodd 62 o ddigwyddiadau a oedd yn cynnwys cyfarfodydd gyda llywodraethwyr, busnesau a chynrychiolwyr busnes, yn ogystal â myfyrwyr ar hyfforddiant cychwynnol athrawon.
- Ymgysylltwyd gyda 'Thîm Pen-y-bont ar Ogwr', a oedd yn cynnwys dau grŵp cynrychioliadol penaethiaid Pen-y-bont ar Ogwr (h.y. Ffederasiwn Cynradd Pen-y-bont ar Ogwr a Chymdeithas Penaethiaid Uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr).
- Cyfarfodydd dilynol gyda: Race Council Cymru, cynrychiolwyr oedrannus Windrush, a TGP Cymru ynghylch cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Er mwyn cynorthwyo ac ysgogi gweithgarwch ymgysylltu, cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithgarwch cyfathrebu parhaus trwy gyfrwng sianelau cyfryngau cymdeithasol, e-gylchlythrau i ysgolion (Dysg), blog Cwricwlwm i Gymru, a datblygwyd gwefan ymgyrchu o'r enw Mae Addysg yn Newid. Cefnogwyd hyn ymhellach gan sesiynau Holi ac Ateb byw gyda'r Gweinidog Addysg trwy gyfrwng sianelau cyfryngau cymdeithasol a darllediadau byw o ddigwyddiadau allweddol. Gosodwyd fersiwn drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 ar wefan Hwb Llywodraeth Cymru a bu modd i bawb ei weld a rhoi adborth.

Cynhaliodd Four Cymru weithgarwch gwrando cymdeithasol a bu'n monitro hashnodau — #TrafodCwricwlwm a #CwricwlwmiGymru — rhwng 7 Mai a 21 Gorffennaf 2019. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- 14,447 cyfeiriad (roedd 67% o'r rhain yn negeseuon aildrydar)
- 66 miliwn argraff
- Roedd anterth y lefelau sgwrsio ym mis Mehefin 2019 lawer yn uwch na'r cyfanswm misol cyfartalog
- Gyrrwyd y sgwrs gan ddiweddariadau niwtral am Gwricwlwm i Gymru 2022 yn bennaf ac roeddent yn deillio o weithwyr addysg proffesiynol, yn ogystal â gweithgarwch hyrwyddo ac ymatebion i ddigwyddiadau neu hyfforddiant
- Roedd y sgwrs yn ystod y cyfnod hwn yn 50% niwtral, 41% yn gadarnhaol a 9% yn negyddol.

## 1.3 Dull Dadansoddi

Er mwyn deall y materion a'r themâu a godwyd gan ymatebwyr, ym mis Mehefin 2019, comisiynwyd Wavehill, sefydliad ymchwil annibynnol, gan Lywodraeth Cymru i gynnal dadansoddiad a fyddai'n ceisio:

- Deall a mapio **amrediad y safbwyntiau a'r persbectifau** sydd gan ymatebwyr am Gwricwlwm i Gymru 2022.
- Asesu pa mor **gyffredin yw safbwyntiau a phersbectifau penodol** ar draws gwahanol grwpiau o randdeiliaid ac yn gyffredinol.

Cafwyd amrediad o wybodaeth ansoddol a meintiol yn yr ymatebion. Roedd yr holiadur ar-lein, er enghraifft, yn gofyn nifer o gwestiynau meintiol, yn ogystal â chwestiynau agored, ansoddol a oedd yn gofyn am fwy o fanylder am safbwyntiau ymatebwyr.

Er mwyn gwneud synnwyr o'r persbectifau ansoddol a fynegwyd gan ymatebwyr, bu'r awduron yn dadansoddi'r cynnwys. Mae'r dull hwn yn archwilio pob ymateb mewn ffordd systematig, gan amlygu'r themâu a'r materion a godir. Yna, gall y dadansoddiad archwilio pa mor gyffredin yw pob thema neu syniad ar draws yr ymatebion. Yna, mapiwyd y materion a'r themâu a godwyd gan ymatebwyr yn erbyn meysydd perthnasol y cwricwlwm.

Oherwydd tebygolrwydd hunanddewis, ar gyfer y wybodaeth ansoddol, nid ydym wedi ceisio cyfrif sawl un o'r ymatebwyr oedd yn meddu ar safbwynt penodol. Mae'r dull a fabwysiadwyd yn un ansoddol i raddau helaeth, gyda'r nod o ddeall amrediad y prif faterion a godwyd gan ymatebwyr, yn ogystal â'r rhesymau dros ddal safbwyntiau penodol. Mae gwybodaeth o'r fath yn cynnwys meysydd posibl lle y gwelir cytundeb ac anghytundeb rhwng gwahanol grwpiau yr ymatebwyr.


Wrth gyflwyno'r canlyniadau, rydym wedi ceisio cynnig darlun eang o'r safbwyntiau a'r persbectifau a fynegwyd mewn ymatebion. Defnyddir amrediad o dermau ansoddol i fynegi cyffredinrwydd, gan gynnwys 'rhan fwyaf', 'nifer', 'rhai' ac 'ychydig', gyda threfn ostyngol o ran cyffredinrwydd. Rhaid ystyried dehongliad o gydbwysedd y farn yng nghyd-destun y cwestiynau a ofynnwyd, gan nad oedd pob ymatebydd wedi ateb pob cwestiwn, ac nid oedd pob ymatebydd wedi darparu digon o wybodaeth i bennu eu safbwynt yn fanwl. Yn hyn o beth, mae termau ansoddol yn mynegi safbwyntiau sy'n berthynol i gwestiynau ar sail y rhai a ymatebodd yn unig. Felly, ni ellir cymryd eu bod yn cysylltu'n ôl mewn ffordd o ran rhif i gyfanswm y bobl a'r sefydliadau a ymatebodd, neu i'r gymuned addysgol yn ehangach.

Am grynodeb manylach o'r ymatebwyr, ein dull wrth gynnal y dadansoddiad, a chyfyngiadau'r dadansoddiad, gweler yr atodiad ynghylch methodoleg. Mae'r adroddiad yn symud ymlaen nawr i amlinellu canfyddiadau'r dadansoddiad.

## 1.4 Ymatebion

Mae'r ymatebwyr yn cynrychioli ystod eang o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn addysg, gan gynnwys athrawon ac arweinwyr ysgolion, rhieni, grwpiau diddordeb arbennig, a sefydliadau o'r sector cyhoeddus. Cynigiwyd ystod amrywiol o gyfleoedd iddynt fynegi eu safbwyntiau a'u persbectifau am gyfarwyddyd y cwricwlwm. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru nifer o weithdai fel rhan o raglen ehangach o ddigwyddiadau, er enghraifft, a gynlluniwyd i archwilio cyfarwyddyd y cwricwlwm a chasglu adborth (n = 27). Cynhaliwyd grwpiau ffocws pellach er mwyn casglu safbwyntiau mwy penodol grwpiau cymunedol ehangach ynghylch materion penodol yn ymwneud â'r cyfarwyddyd (n = 3). At hynny, cafodd Llywodraeth Cymru 1,680 o gyfraniadau ar-lein a thrwy negeseuon e-bost gan ystod amrywiol o unigolion a sefydliadau. O blith y cyfraniadau hyn, roedd cyfran sylweddol ohonynt gan ymarferwyr, athrawon, arweinwyr uwch, a llywodraethwyr o ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd, yn ogystal â lleoliadau nas cynhelir a ariennir:


Ffigwr 2.1: Nifer yr ymatebion gan ysgolion




Yn ogystal, cafwyd nifer fach o ymatebion gan aelodau o staff mewn ysgolion pob oed, ysgolion arbennig, ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Yn ogystal, cafwyd ymatebion gan unigolion a sefydliadau sy'n cynorthwyo ysgolion, gan gynnwys swyddogion gwella ysgolion a chynghorwyr herio, yn ogystal â sefydliadau o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Roedd y rhain yn cynnwys ystod amrywiol o sefydliadau, gan gynnwys grwpiau diddordeb arbennig, sefydliadau addysg uwch, a chyrff cyhoeddus sydd â chylch gwaith addysgol.

Ffigwr 2.2: Nifer yr ymatebion a gafwyd gan unigolion a sefydliadau sy'n cynorthwyo ysgolion



Cafwyd ymatebion gan rieni neu ofalwyr hefyd (n = 69). Roedd nifer o bobl wedi cyfrannu safbwyntiau ond nid oeddent wedi nodi eu bod yn ymateb o grŵp rhanddeiliaid penodol.

Cafwyd nifer o gyflwyniadau tebyg a oedd yn awgrymu bodolaeth ymgyrchoedd wedi'u cydlynu. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn perthynas â'r canlynol:

- Cynnal dewis rhieni mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Dyneiddwyr yn gofyn a fyddai modd rhoi rôl amlycach i ddyneiddiaeth o fewn Addysg Grefyddol, a bod esblygiad yn cael ei gynnwys yn MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg o'r oed cynradd.
- Lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn cyflwyno ymatebion tebyg ynghylch amrediad o faterion, gan gynnwys cefnogaeth fras i'r cwricwlwm.
- Galwadau i gynnwys Adfywio Cardio-pwlmonaidd yn y cwricwlwm.

## 1.5 Cyfyngiadau

Ceir nifer o gyfyngiadau mewn perthynas â'r dadansoddiad hwn y mae'n bwysig eu nodi. Nid yw'r ymatebwyr sy'n cyfrannu i'r dadansoddiad yn gynrychioliadol o'r gymuned addysgol ehangach o reidrwydd, na'r cyhoedd ehangach yn gyfan gwbl. Gyda'i gilydd, felly, dylid ystyried bod yr ymatebion yn cynnig syniad o safbwyntiau, teimladau a barn trwch y gymuned, yn hytrach na datganiad pendant.

# 2 Persbectifau Plant a Phobl Ifanc

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Dynamix ddarparu dulliau hygyrch er mwyn cynnwys lleisiau plant a phobl ifanc yn ystod y cyfnod rhoi adborth am Gwricwlwm i Gymru 2022.

Bu plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y cyfnod rhoi adborth trwy lenwi arolwg ar-lein, trwy gymryd rhan mewn grwpiau ffocws a hwyluswyd mewn ysgolion a grwpiau ieuenctid neu wrth i arweinwyr ieuenctid ddefnyddio pecyn cymorth. Roedd cyfanswm o 423 o ymatebwyr ar draws Cymru wedi darparu adborth trwy'r arolwg ar-lein a'r grwpiau ffocws. Roedd y rhain yn cynnwys pobl ifanc o grwpiau nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal ag aelodau grŵp LGBTQ+, grŵp ar gyfer y rhai sydd â nam ar eu clyw, grŵp pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac ysgol grefyddol. Yn ychwanegol i'r rhain, roedd tri grŵp cynradd a dau grŵp uwchradd yn cynnwys dros 50% o ddisgyblion Duon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd y cyfranogwyr yn gallu cymryd rhan yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Mae'r adran hon yn grynodeb o'u hadroddiad o'r enw **Dadansoddiad o'r Adborth am Gwricwlwm i Gymru 2022: Adroddiad Plant a Phobl Ifanc. Awst 2019,** y gellir ei weld trwy droi at: https://llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-cwricwlwm-i-gymru-2022-adborth?_ga=2.27457596.1095844486.1571323394-1124952041.1559037671.

Mae'r dadansoddiad o'r cyfnod adborth gyda phlant a phobl ifanc yn cynnig dirnadaeth o'r pethau pwysicaf i ddysgwyr o ran eu dysgu a'u profiad dysgu, beth allai wella pethau, a'r hyn sy'n bwysig iddynt o ran y meysydd dysgu ac addysgu.

**Beth yw'r pethau pwysicaf y dylech chi eu cael gan eich addysg?**

- Mae nifer o gyfranogwyr yn ystyried mai pwysigrwydd gwybodaeth yw'r prif reswm dros fynychu ysgol, ac mae'n gysylltiedig â phynciau penodol a sgiliau bywyd at ei gilydd.
- Mae sgiliau ar gyfer gwaith a sgiliau ar gyfer bywyd yn elfennau pwysig iawn o addysg i gyfran uchel o gyfranogwyr yn ystod y cyfnod rhoi adborth hwn, a ffurfir cysylltiadau rhwng pynciau a chyfleoedd gyrfa.
- I nifer o gyfranogwyr, ceir cyswllt agos rhwng iechyd a ffitrwydd ac iechyd corfforol a meddyliol. Gwelwyd dealltwriaeth glir o a dymuniad i sicrhau iechyd a lles da, yn ogystal â phryder ynghylch y rhai y mae angen cymorth arnynt.
- Roedd pwysigrwydd addysg rhyw ac ABCh yn thema glir hefyd.
- Mae cyfeillgarwch yn bwysig ac mae'n cynnwys ffrindiau yn yr ysgol, yn ogystal â phwysigrwydd ymddiriedaeth a pharch – gan gynnwys athrawon da.
- Roedd cyswllt agos rhwng sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad cymdeithasol i nifer o gyfranogwyr, a oedd yn golygu bod ieithoedd, gan gynnwys BSL, yn bwysig.
- Roedd meithrin perthnasoedd, bod yn ofalgar, cael hwyl, dysgu am ddiwylliannau a chrefyddau eraill, ymddygiad a derbyn eraill, a moesgarwch yn elfennau pwysig o sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad.

- Roedd hyder yn gysylltiedig â bod yn hapus, cael hwyl, y cyfle i fod yn greadigol trwy gyfrwng celf, drama a cherddoriaeth, a gallu cyfathrebu mewn gwahanol ieithoedd.
- Roedd pethau pwysig nad oeddent yn dod dan unrhyw rai o'r categorïau yn cynnwys ymwybyddiaeth amgylcheddol, cyfleusterau, athrawon penodol a sgiliau bywyd.

**Beth yw'r tri pheth gorau am eich addysg chi?**

- I gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a'r arolwg ar-lein, nodwyd mai ffrindiau oedd y peth gorau am addysg. Roedd hyn oherwydd y cymorth a ddarparir trwy gyfrwng cymhelliant, cymdeithasu a chael hwyl.
- Roedd cael hwyl yn bwysig iawn i bobl ifanc gan ei fod yn cynorthwyo gyda dysgu ac yn lleihau straen. Roedd hyn hefyd yn cynnwys teithiau ysgol, a oedd yn caniatáu i bobl ifanc rannu profiadau gyda'u ffrindiau a dysgu o ymweld â gwahanol leoedd.
- Gwaith ysgol oedd un o'r pethau gorau am addysg i nifer o gyfranogwyr, gan ei fod yn cynnig cyfleoedd ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â bod y rheswm dros fynychu'r ysgol. Fodd bynnag, gwnaethpwyd sylwadau am y ffaith bod pwysau gwaith cartref yn cael effaith negyddol.

**Beth sydd angen newid er mwyn gwella'r ffordd yr ydych yn dysgu a'ch profiad dysgu?**

- Nodwyd themâu clir ynghylch yr hyn y mae angen iddo newid er mwyn gwella dysgu a'r profiad dysgu.
- Gellir gwella gwersi trwy eu gwneud yn fwy hwyliog, yn fwy rhyngweithiol, yn fwy ymgysylltol ac yn fwy ymlaciol. Gellir creu profiadau cadarnhaol trwy gael mwy o deithiau, mwy o brofiadau a mwy o ymwelwyr â'r ysgol.
- I nifer o gyfranogwyr, roedd materion a oedd yn ymwneud â rheolau llym am wisg ysgol yn golygu bod cael yr hyblygrwydd (yn rheolau'r ysgol) i beidio gorfod gwisgo blaserau yn ystod tywydd poeth yn bwysig.
- Codwyd bwlio mewn gwahanol ffurfiau, ac i wahanol raddau, fel mater gan bron pob cyfranogydd – awgrymwyd y byddai gorfodi polisïau llym yn gwella hyn i ddysgwyr, ac mae'n ddymunol cael dull gweithredu cyson.
- Roedd cael cymorth er mwyn delio â phroblemau yn rhywbeth a amlygwyd yn rheolaidd – roedd hyn yn cynnwys cymorth i bobl sy'n delio â phroblemau yn y cartref, bwlio, ac i'r rhai sy'n cael anhawster gyda gwersi.
- Byddai cael llais cryfach fel dysgwyr, gallu dewis pynciau ac amserlenni a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar ddysgwyr yn gwella eu dysgu a'u profiad dysgu.
- Mae gofyn cael mwy o ddealltwriaeth o ddysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol, a byddai'r gallu i addasu gwersi er mwyn bodloni anghenion yn dwyn gwelliannau.
- Gellid gwneud gwelliannau amgylcheddol hefyd, sy'n arbennig o bwysig i blant a phobl ifanc sydd â nam ar eu clyw a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac y mae lefelau sŵn yn effeithio arnynt.

**Beth sy’n Bwysig ym meysydd dysgu a phrofiadau i blant a phobl ifanc**

Rhoddwyd y cyfle i gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws archwilio datganiadau Beth sy’n Bwysig ac esboniadau datganiadau Beth sy’n Bwysig, ac i bleidleisio ynghylch a oeddent yn deall y datganiadau neu beidio. Roedd hi'n amlwg o waith dadansoddi yn y grŵp ffocws bod plant a phobl ifanc o'r farn bod esboniadau datganiadau Beth sy’n Bwysig yn haws i'w deall, ond nid oedd pawb yn deall yr esboniadau yn gyfan gwbl a mynegwyd pryder gan rai cyfranogwyr ynghylch y ffaith na fyddai plant iau yn eu deall.

Gofynnwyd i'r rhai a fu'n cymryd rhan yn y grwpiau ffocws a'r arolwg ar-lein i nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt mewn perthynas â'r meysydd dysgu a phrofiad. Roedd hyn wedi darparu disgrifiadau o Beth sy'n Bwysig i blant a phobl ifanc ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad yn eu geiriau nhw. O hyn, mae Dynamix wedi gallu cyflwyno'r datganiadau canlynol a awgrymir o ran Beth sy’n Bwysig i blant a phobl ifanc.

1. Mae'r **Celfyddydau Mynegiannol** yn ein helpu i fod yn fwy hunan-hyderus, yn gryfach ac yn fwy creadigol. Gallwn fynegi ein hemosiynau trwy ein sgiliau creadigol heb orfod defnyddio geiriau. Rydym yn profi ac yn dysgu am greadigrwydd pobl arall. Maent yn rhoi sgiliau i ni y byddwn yn gallu eu defnyddio pan fyddwn yn oedolion neu'n chwilio am waith.

2. Mae'r **Dyniaethau** yn ein helpu i ddysgu am y man o ble y daethom a'r byd o'n cwmpas. Trwy ddeall yr hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol, gallwn ddysgu gan gamgymeriadau a wnaethpwyd, a helpu i ddiogelu ein dyfodol. Mae'n ein helpu i ddeall pobl arall: eu credoau, eu cymdeithasau a'u diwylliannau, mae'n gwella ein sgiliau cymdeithasol ac yn ein helpu i gwestiynu'r hyn sy'n gywir ac sy'n anghywir. Mae'n rhoi ystod ehangach o sgiliau i ni a fydd yn ein helpu i sicrhau swydd yn y dyfodol.

3. Mae **Iechyd a Lles** yn ein helpu i ddeall sut i fyw bywyd iach a pham ei bod yn bwysig gofalu am ein meddyliau a'n cyrff (iechyd corfforol a meddyliol). Mae'n datblygu ein cydnerthedd fel y gallwn ailgydio ym mhethau yn dilyn cyfnodau anodd, ac mae'n rhoi'r sgiliau i ni ddelio gyda phroblemau, gan ganiatáu i ni wybod pryd a phwy i ofyn am help. Byddwn yn dysgu cyfleu ein hemosiynau mewn ffordd gywir. Mae'n ein helpu i fod yn fwy goddefgar o sefyllfaoedd a theimladau pobl arall. Mae'n ein paratoi ar gyfer y dyfodol a'r profiadau o'r byd ehangach.

4. Mae **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** bob man mewn bywyd; mae wastad yn datblygu ac yn newid ein byd, mae'n ein helpu i deall y byd ehangach a sut y mae pethau yn gweithio. Mae deall y pethau hyn yn golygu os bydd gennym syniadau newydd, gallwn eu gwireddu yn y dyfodol. Mae'n cynyddu ein dewisiadau yn y coleg a'r brifysgol, oherwydd y caiff ei ddefnyddio mewn cymaint o swyddi.

5. Mae **Mathemateg a Rhifedd** yn un o'r sgiliau bywyd sylfaenol y byddwn yn ei defnyddio mewn nifer o sefyllfaoedd pob dydd: cyllid, deall data, siopa, mesur, amser, coginio, adeiladu, ac ati. Yn ogystal, mae'n ein helpu i ddysgu pynciau eraill ac yn ein paratoi ar gyfer nifer o swyddi. Mae'n ein helpu i ddatrys problemau a deall y byd yn well.

6. Mae **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** yn ymwneud â gallu cyfathrebu'n dda gyda phobl o'n cwmpas ac ar draws y byd. Mae'n golygu ein bod yn gallu teithio i wledydd eraill a deall pobl, sy'n gallu ein helpu i sicrhau swyddi sy'n gofyn am fwy nag un iaith hefyd. Byddwn yn dysgu darllen llyfrau a deall y byd o'n cwmpas. Mae'n peri i ni fod yn fwy uchelgeisiol ac i gael mwy o gymhelliant oherwydd y gallwn ddeall mwy o wybodaeth.

**A fyddech chi'n dymuno helpu i siapio'r cwricwlwm?**

Roedd hi'n amlwg y byddai'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn dymuno cymryd rhan yn y gwaith o siapio'r cwricwlwm yn eu hysgol, a theimlwyd y dylid clywed eu lleisiau gan mai nhw fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon ynghylch y ffaith mai oedolion yw'r arbenigwyr ac y dylid gadael cyfrifoldeb o'r fath iddyn nhw.

# 3 Prif Argraffiadau

Mae'r bennod hon yn archwilio prif argraffiadau ymatebwyr o'r pedwar diben sy'n tywys y cwricwlwm, yn ogystal â datganiadau Beth sy'n Bwysig sy'n cyfrannu at ac sy'n diffinio'r meysydd dysgu a phrofiad. Mae'n cynnig myfyrdodau am y prif bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr hefyd.

## 3.1 Y Cwricwlwm a'r Pedwar Diben

Wrth wraidd Cwricwlwm i Gymru 2022, gwelir y **Pedwar Diben**, sy'n nodi uchelgais pob plentyn a pherson ifanc erbyn yr adeg pan fyddant yn 16 oed. Mae'r pedwar diben wedi tywys y gwaith o gynllunio a datblygu Cwricwlwm i Gymru 2022. Maent yn ceisio sicrhau bod y cwricwlwm yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i fod yn:


- Ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- Dinasyddion egwyddorol a gwybodus Cymru a'r byd
- Unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr yn gefnogol o strwythur a theimlad y cwricwlwm newydd ar y cyfan. Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys athrawon, yn croesawu'r cynigion. Gwelwyd cefnogaeth fras i agweddau megis y pwyslais ar y pedwar diben, y gallu ychwanegol a roddir i athrawon yn y cwricwlwm, a'r rôl mwy ar gyfer asesu ffurfiannol.

> *'Roedd gwir angen adfywio'r cwricwlwm ac rydw i wir yn gwerthfawrogi'r dull o gynnwys athrawon, natur organig y ddogfen, a'r newid mewn ffocws i gwricwlwm a gaiff ei arwain gan ddiben.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1377***

Pan ofynnwyd a fyddai'r cwricwlwm yn cyflawni ei amcan o helpu plant i ddatblygu yn erbyn y pedwar diben, roedd yr ymatebwyr yn cytuno at ei gilydd. Mae hyn yn arwydd cryf o'r ffaith bod cefnogaeth eang i'r nodau y seiliwyd y cwricwlwm newydd arnynt, fel y nodir yn y pedwar diben:

Ffigwr 4.1: C7.1. A1: I ba raddau yr ydych chi'n cytuno y bydd cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn helpu plant a phobl ifanc i fod yn: ddysgwyr uchelgeisiol a galluog; unigolion iach a hyderus; dinasyddion egwyddorol a gwybodus; cyfranwyr mentrus a chreadigol?




N = 1369

Roedd thema gyffredin a oedd yn llywio ymatebion mwy cadarnhaol yn ymwneud â chyfyngiadau tybiedig y trefniadau cwricwlaidd presennol. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y trefniadau cyfredol yn rhy gyfarwyddol, er enghraifft, gan gyfyngu ar ymarferwyr, athrawon ac ysgolion:

> *'Y ddamcaniaeth sy'n sail i'r cwricwlwm newydd yw'r union beth y mae ei hangen arnom. Mae angen ymddiried mwy mewn ysgolion a grwpiau o ysgolion i ddatblygu cwricwlwm sy'n addas i'w disgyblion.'* - ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 1569***

> *'Yn fy marn i, bydd y cwricwlwm hwn yn rhoi cychwyn gwell a mwy perthnasol i addysg plant, gan ganiatáu iddynt siapio eu dysgu a chaniatáu i ymarferwyr ddatblygu eu ffordd o feddwl o fewn system sy'n fwy rhydd, gan gychwyn gyda'r plant wrth graidd y peth.'* - ***Ymarferwr, Ysgol Feithrin, Ymateb 1953***

Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'r cynigion hefyd oherwydd eu bod yn teimlo y byddent yn gwella'r deilliannau i ddysgwyr ac i athrawon:

> *'Yn fy marn i, bydd symud o'r dull addysgu cyfredol sy'n drosglwyddol ar y cyfan, i ddull mwy trochol a hyrwyddol lle y bydd plant yn dysgu sut i ddysgu a chanlyn eu diddordebau, yn ogystal â myfyrio am eu hymddygiad a'u perfformiad, yn gam cadarnhaol. Credaf y bydd dysgwyr yn ymwneud yn fwy â'u dysgu ac y byddant yn mynd ymlaen i gyflawni'r hyn y maent yn dymuno'i gyflawni mewn bywyd. Yn fy marn i, mae gan y cwricwlwm hwn y potensial ailfywiogi ac ail-broffesiynoli addysgu, gan sicrhau bod y profiad yn un mwy pleserus i athrawon a dysgwyr.'* - ***Rhiant, Ymateb 2006***


Yn gyffredinol, gwelwyd cefnogaeth fras ymhlith ymatebwyr ar draws y gymuned addysgol tuag at y cwricwlwm a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni. O ran niferoedd, dim ond ychydig o wahaniaeth barn a welwyd ar draws gwahanol grwpiau o ymatebwyr, ac roedd y rhai o leoliadau cynradd ychydig bach yn fwy tebygol o fod yn gefnogol o'r cwricwlwm a'r pedwar diben.

## 3.2 Y Pedwar Diben a Datganiadau Beth sy'n Bwysig

Trefnir Cwricwlwm i Gymru 2022 ar sail datganiadau **Beth sy'n Bwysig.** Mae pob datganiad yn amlinellu dysgu allweddol o fewn maes dysgu a phrofiad, gan ddatblygu'r pedwar diben. Maent yn cynnig sylfaen ar gyfer trefnu cynnydd dysgu hefyd.

Yn dilyn hyn, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu safbwyntiau cyffredinol am ddatganiadau Beth sy'n Bwysig ac a ydynt yn adlewyrchu'r pedwar diben. Unwaith eto, roedd yr ymatebwyr yn cytuno gan mwyaf:

Ffigwr 4.2: C8.1. A2: Gan ystyried datganiadau Beth sy'n Bwysig, i ba raddau yr ydych chi'n cytuno bod y rhain yn rhoi crynodeb o'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu plant a phobl ifanc?




N = 1336

Roedd yr ymatebwyr hynny a ymatebodd yn gadarnhaol ac a gynigiodd mwy o fanylion yn aml yn cefnogi'r dull cyffredinol tuag at fframio'r cwricwlwm o fewn datganiadau Beth sy'n Bwysig:

> *'Maent yn darparu fframwaith eang a chytbwys ac yn caniatáu i ysgolion ddatblygu profiadau dysgu dilys sy'n berthnasol i'w cyd-destun. Mae'r iaith a ddefnyddir o fewn datganiadau Beth sy'n Bwysig a'r sail resymegol ategol yn eu gwneud yn addas i ddysgwyr o bob oed.'* - ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 2016***

I'r ymatebwyr hynny a oedd yn gwneud sylwadau am feysydd dysgu a phrofiad penodol, roeddent yn aml yn teimlo bod y datganiadau'n cyflwyno adlewyrchiad cywir o ehangder a chynnwys y maes pwnc:

> *'Gan gyfeirio at y cwricwlwm Mathemateg a Rhifedd, mae datganiadau Beth sy'n Bwysig yn crisialu'r fframwaith y seilir mathemateg arno yn berffaith.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2407***

I'r gwrthwyneb, roedd y rhai a oedd yn adrodd nad ydynt yn cytuno yn tueddu i fynegi'r farn nad oedd ffurf a chynnwys y datganiadau yn cynnig digon o fanylder i athrawon.

At hynny, roedd ymatebwyr o leoliadau meithrin ychydig bach yn fwy tebygol o anghytuno na'r rhai o ysgolion eraill. Roeddent yn aml yn teimlo nad oedd y datganiadau'n berthnasol i blant iau oed meithrin. Thema gyffredin a oedd yn ysgogi'r persbectif hwn oedd y farn bod yr iaith sy'n gysylltiedig â'r datganiadau yn anodd i'w deall a'i bod yn anodd mynd trwy ehangder y cyfarwyddyd:

> *'Rydym yn cytuno bod y datganiadau yn bwysig ac yn briodol yn gyffredinol. Credwn y gellir addasu a dehongli'r rhain ar gyfer pob oedran. Gan bod cymaint o ddeunydd i'w ddarllen a'i ddeall ar gyfer pob datganiad, mae'n anodd gweld ar yr olwg gyntaf sut y mae'r rhain yn berthnasol i blentyn 3 oed. Mae mynydd y gwaith darllen am y cefndir y mae gofyn ei wneud er mwyn deall popeth cyn i ni allu creu profiadau dysgu addas yn heriol iawn i ymarferwyr ac arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir.'* - ***Arweinydd Uwch, Ysgol Feithrin, Ymateb 1810***

Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 yn trefnu dysgu ar sail chwech **Maes Dysgu a Phrofiad** (MDPh):

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Cynlluniwyd pob MDPh i gynorthwyo dysgwyr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm, ac maent yn cynnig man cychwyn ac uchelgais wrth ddatblygu cwricwlwm ar lefel ysgol. Maent yn cynnwys pynciau a disgyblaethau presennol a'u bwriad yw hyrwyddo cydweithio a gweithgarwch traws-ddisgyblaethol wrth ddatblygu a chynllunio'r cwricwlwm ar lefel ysgol.

## 3.3 Prif Faterion

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn gefnogol o'r cwricwlwm a'r pedwar diben, cyflwynwyd rhybuddion gan nifer o ymatebwyr. Yn aml, roeddent yn mynegi pryderon ehangach gan gynnwys materion ymarferol megis yr amser, yr adnoddau a'r cymorth y bydd athrawon yn ei gael er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus:

> *'Mae hwn yn gwricwlwm ysbrydoledig ac uchelgeisiol sydd â'r potensial i drawsnewid Cymru a byd addysg. Fodd bynnag, yr unig ffordd o wireddu hyn yw os caiff adnoddau digonol eu neilltuo i ysgolion er mwyn ei alluogi. Ni fydd newid cynnwys y cwricwlwm heb newid y systemau a'r strwythurau a gynlluniwyd i ddarparu ei ragflaenydd yn arwain at wireddu'r potensial sy'n bodoli.'* ***- Pennaeth, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1871***

Mae cyffredinolrwydd y pryderon hyn ar draws ymatebion yn awgrymu bod ymatebwyr yn darllen ac yn dehongli'r cwricwlwm drafft o bersbectif yr hyn y byddai'n ei olygu iddyn nhw a'u hysgolion ar lefel ymarferol. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r materion a'r sialensiau y mae'r gymuned addysgol yn eu hwynebu ar hyn o bryd greu rhwystrau wrth geisio gweithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus:

> *'Er y gwnaethpwyd cryn dipyn o waith ynghylch drafftio'r cyfarwyddyd ar gyfer y cwricwlwm, ni fydd hyn ar ei ben ei hun yn newid y system addysg. Mae angen cyfleoedd hyfforddiant a chyllid i gyfateb â'r uchelgais.'* - ***Undeb Athrawon, Ymateb 2240***

Byddwn yn amlinellu'r pryderon ymarferol ehangach hyn yn fanylach yn y penodau dilynol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â datblygiad proffesiynol a gweithredu.

Roedd cyfran gymharol fach o ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod y cwricwlwm a datganiadau Beth sy'n Bwysig yn cyflawni yn erbyn y pedwar diben. Roeddent yn fwy tebygol o godi pryderon cyffredinol ynghylch y ffaith bod y cwricwlwm:

- Yn gwanhau disgyblaethau pwnc traddodiadol;
- Yn cynnwys diffyg cyfarwyddyd a dyfnder, ac mae hyn yn peri problemau iddynt; neu
- Y dylai gynnwys neu hepgor cyrff penodol o wybodaeth neu sgiliau.

### 3.3.1 Disgyblaethau Pwnc a'r Cwricwlwm Newydd

Amlygwyd y farn gan nifer o ymatebwyr y byddai'r cwricwlwm newydd, wedi'i drefnu ar sail chwech MDPh, yn gwanhau disgyblaethau pwnc traddodiadol. Roeddent yn aml yn teimlo bod hyn yn cyflwyno amrediad o sialensiau posibl, o ran addysgu'r cwricwlwm ac wrth sicrhau cydlyniaeth gymharol rhwng y cwricwlwm a threfniadau cymwysterau. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n gryf bod y cwricwlwm yn tanseilio'r parch cydradd ar gyfer rhai disgyblaethau ac y gallai hyn arwain at ysgolion yn lleihau'r ddarpariaeth neu'n gwaredu darpariaeth. Mynegwyd hyn yn aml trwy gyfrwng sylwadau a wnaethpwyd ynghylch geiriad datganiadau Beth sy'n Bwysig penodol:

*'Mae'n ymddangos bod Beth sy'n Bwysig 'Digwyddiadau a phrofiadau dynol' yn dod o bersbectif hanesyddol i raddau helaeth. Nid yw'n ystyried cysyniadau daearyddol cynrychiolaeth lle o gwbl. Argymhellir y dylid gwneud gwaith pellach ar ddatganiadau Beth sy'n Bwysig er mwyn cydnabod y cyfraniad y gall daearyddiaeth ei wneud.' -* ***Cymdeithas Pwnc, Ymateb 1359***

Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo y byddai grwpio pynciau gyda'i gilydd o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad yn golygu y byddai gofyn i athrawon addysgu y tu allan i'w meysydd arbenigedd, gan leihau ansawdd a chysondeb addysgu a dysgu o bosibl:

*'Er bod y cwricwlwm yn caniatáu hyblygrwydd i athrawon, 'nid ydynt yn gwybod yr hyn nad ydynt yn ei wybod', ac nid yw eu myfyrwyr ychwaith. Mae'n bosibl iawn, felly, mai dim ond y pynciau hynny y mae staff / disgyblion yn gyfarwydd â nhw fydd yn cael eu trafod fyth.' -* ***Sefydliad o'r Trydydd Sector, Ymateb 2372***

Thema gyffredin a oedd yn ysgogi'r ymatebion hyn oedd y pryder y gallai grwpio disgyblaethau penodol gyda'i gilydd gyfyngu ar ddyfnder y wybodaeth y byddai modd ei sicrhau. Roedd rhai yn dadlau y gallai hyn arwain at sefyllfa lle y byddai disgyblion yng Nghymru dan anfantais, o ran eu cynnydd ac yn eu bywyd ar ôl gadael yr ysgol:

*'Rydw i'n gofidio sut y gellir sicrhau dyfnder ac arbenigedd o ran gwybodaeth am bwnc pan waredir rhwystrau rhwng pynciau a phan gaiff disgyblaethau eu huno. Mae hyn yn debygol o gael effaith ar sut y bydd ein disgyblion yn gallu cystadlu â'i cyfoedion o rannau eraill y DU.' -* ***Athro, Ysgol Gynradd, Ymateb 2913***

### 3.3.2 Rhoi cyfarwyddyd a'r Cwricwlwm Newydd

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod yr egwyddorion sylfaenol sy'n cynnig sylfaen i'r cwricwlwm, sy'n ceisio rhoi mwy o ymreolaeth a mwy o berchnogaeth dros addysgu a dysgu i athrawon ac ysgolion, yn peri problemau. O'r persbectif hwn, nid oedd y cwricwlwm yn ddigon cyfarwyddol. Roedd dwy thema glir yn sail i'r pryderon hyn, a'r un gyntaf oedd y gallai absenoldeb tybiedig deunydd cyfarwyddol arwain at fwy o wahaniaeth o ran cynnwys, cydlyniaeth ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu o fewn ac ar draws ysgolion:

*'Mae'r ymrwymiad i'r nodau hyn yn beth cadarnhaol. Fodd bynnag, rydw i'n pryderu y bydd y dehongliadau amrywiol o'r cwricwlwm newydd yn arwain at brofiadau gwahanol iawn i ddysgwyr ar draws ysgolion, ac y bydd hi'n dod yn anos i ysgolion uwchradd sicrhau pontio llwyddiannus o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 o ganlyniad.' -* ***Arweinydd Uwch, Ysgol Gynradd, Ymateb 1293***

Roedd yr ymatebwyr hyn yn aml yn teimlo y gallai absenoldeb tybiedig deunydd cyfarwyddol a mwy o amrywiaeth gael goblygiadau o ran cyfle cyfartal a'r deilliannau:

> *'Ceir amrywiaeth eang yn barod o ran ansawdd yr addysg yng Nghymru ac nid yw'r bwlch rhwng y disgyblion hynny sy'n cael eu heffeithio gan dlodi ac anfantais yn cau yn ddigon cyflym. Er bod y pedwar diben yn weledigaeth bwerus a phwrpasol, yn ei ffurf bresennol, bydd y cwricwlwm drafft yn arwain at fwy o amrywiaeth o ran ansawdd, ehangder a chynnwys yr hyn y bydd plant yng Nghymru yn ei ddysgu, a fydd yn ymestyn y bwlch yn hytrach na'i gau.'* - ***Arweinydd Uwch, Ysgol Gynradd, Ymateb 1468***

Roedd yr ail thema glir a oedd yn dod i'r amlwg yn y tybiaethau hyn yn canolbwyntio ar allu ymarferwyr ac athrawon i ymateb mewn ffordd effeithiol i fwy o ymreolaeth. Roedd y pryder hwn yn ymwneud â phryderon ehangach ynghylch cyffredinrwydd sgiliau a hyder athrawon mewn perthynas â chynllunio'r cwricwlwm. O'r persbectif hwn, roedd ymatebwyr yn teimlo bod y cwricwlwm yn rhoi mwy o bwyslais ar athrawon ac ysgolion i fod yn gynllunwyr y cwricwlwm, ac roeddent o'r farn bod hyn yn peri problemau:

> *'Nid oes digon o fanylion yn adrannau'r cyfarwyddyd ynghylch cynllunio ar gyfer dysgu, deilliannau dysgu ac asesu. Popeth yn iawn o ran ein grymuso ni i ddatblygu ein cwricwlwm manwl, ond ni fydd gan rai ysgolion arbenigedd arbenigol, gallai fod yn anodd i athrawon amhrofiadol, ac yna, ceir yr elfen llwyth gwaith wrth i bob ysgol 'ddechrau o'r dechrau unwaith eto'.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1667***

### 3.3.3 Pynciau a Sgiliau Penodol

Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno ac yn anghytuno'n gryf bod y cwricwlwm yn adlewyrchu'r pedwar diben yn fwy tebygol o amlygu absenoldeb pynciau, cyrff gwybodaeth neu sgiliau penodol, neu'r ffaith y dylid eu cynnwys. Roedd hyn yn cyd-fynd yn agos â'r thema ynghylch absenoldeb cynnwys cyfarwyddol yn y cwricwlwm.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo, er enghraifft, y dylid rhoi mwy o ffocws ar yr iaith Gymraeg a hanes a diwylliant Cymru yn y cwricwlwm. Roedd hyn yn aml tarddu o'r dybiaeth nas rhoddir digon o sylw i'r pynciau hyn ar hyn o bryd, ac na fydd y cwricwlwm newydd yn rhoi sylw i'r mater hwn efallai.

Yn ehangach, gan gynnwys y rhai a oedd yn fwy cefnogol o'r cwricwlwm, amlygwyd materion penodol gan rai ymatebwyr y byddent yn dymuno gweld cyfeiriad amlycach iddynt yn y cwricwlwm. Cafwyd nifer o ymatebion gan sefydliadau sydd â chylch gwaith addysgol, er enghraifft. Roeddent yn aml yn cyfeirio at fanteision dysgu am faterion penodol ar gyfer ystod eang o ddeilliannau dysgu, personol ac iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft:

- Addysg Hawliau Dynol (AHD)
- Adfywio cardio-pwlmonaidd
- Sgiliau beicio
- Iechyd y geg
- Maeth a hydradu
- Lles anifeiliaid.

Yn ogystal, cafwyd nifer o ymatebion ymgyrchu a oedd yn ceisio amlygu pwysigrwydd cymharol cysyniadau neu sgiliau penodol y dylent gael rôl amlycach yn y cwricwlwm yn ôl ymatebwyr. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebwyr a fyddai'n dymuno gweld Cymorth Cyntaf ac Adfywio Cardio-pwlmonaidd (CPR) yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm. Gofynnodd grŵp arall o ymatebwyr a fyddai modd cynnwys esblygiad mewn ffordd amlycach yn y cwricwlwm, yn enwedig o fewn MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg ar gyfer disgyblion cynradd.

Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y dylid gwaredu pynciau neu faterion penodol, neu y dylid rhoi mwy o lais i rieni am yr hyn a addysgir i blant. Roedd hyn yn cynnwys cynnal y cyfle i ddewis peidio â chael darpariaeth Addysg Grefyddol a Rhywioldeb (RSE):

> *'Fel rhiant, dylai fod gennyf yr hawl i dynnu fy mhlentyn allan o wersi RSE o 2022. Dylai ysgolion ystyried dymuniadau pob rhiant ac yn gyffredinol yn y gymuned o ran y ffordd y rhoddir sylw i RSE.'* - ***Parent, Ymateb 1288***

## 3.4 Casgliadau

I gloi, nid oedd y pryderon gwirioneddol a fynegwyd gan yr ymatebwyr ynghylch gwanhad tybiedig disgyblaethau pwnc, y diffyg cyfarwyddyd yn y cwricwlwm, a chynnwys neu hepgor sgiliau neu wybodaeth benodol, yn safbwyntiau a fynegwyd yn helaeth. Ac eithrio'r materion a'r pryderon ynghylch gweithredu a fynegwyd yn helaeth, mae hyn yn awgrymu bod y tybiaethau cyffredinol ynghylch cyfarwyddyd Cwricwlwm i Gymru 2022 yn rhai cadarnhaol ar y cyfan. Cefnogir y casgliad hwn gan dystiolaeth ategol, gan gynnwys y gwaith dadansoddi o'r cyfryngau cymdeithasol a'r ymatebion a gafwyd mewn gweithdai a grwpiau ffocws.

Prif nodwedd sy'n siapio'r tybiaethau cyffredinol yw'r lens ymarferol y mae nifer o ymatebwyr wedi ei ddefnyddio er mwyn darllen a dehongli'r cyfarwyddyd am y cwricwlwm. Roedd nifer o athrawon ac arweinwyr ysgol, er enghraifft, wedi mapio materion a phryderon mewn perthynas â'r trefniadau cyfredol i'w dehongliad nhw o gryfderau a chyfyngiadau'r cwricwlwm newydd. Mae gwreiddiau nifer o'r pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr yn y materion a'r sialensiau y mae'r gymuned addysgol yn eu hwynebu ar hyn o bryd, megis lefelau uchel llwythi gwaith ar hyn o bryd. Mae hyn yn awgrymu bod yr ymatebwyr hyn yn dehongli'r cwricwlwm o bersbectif yr hyn y bydd yn ei olygu iddyn nhw yn bersonol, gan gynnwys sut y bydd yn siapio arfer pob dydd o ran addysgu a dysgu. I rai ymatebwyr, roedd pryderon ymarferol yn bwysicach na chynnwys y cwricwlwm, ac ni wnaethant gynnig eu safbwyntiau am agweddau penodol ar y cyfarwyddyd.

Mae tuedd bellach sy'n siapio'r tybiaethau cyffredinol yn ymwneud ag amrediad y dehongliadau o'r cwricwlwm sy'n amlwg yn yr ymatebion. Roedd dehongliadau penodol a digrybwyll ymatebwyr o amcanion sylfaenol, teimlad a mecaneg Cwricwlwm i Gymru 2022 yn tanlinellu nifer o'r materion a'r pryderon a godwyd ganddynt. Gellir gweld hyn, er enghraifft, yn y pryderon sy'n ymwneud â rôl gwybodaeth yn y cwricwlwm newydd.

O ran cysyniad, mae Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cynrychioli newid o ddiwylliant cymharol gyfarwyddol o ran y cwricwlwm, i broses a arweinir yn fwy gan ddiben, sy'n gosod athrawon fel asiantiaid newid a datblygwyr proffesiynol y cwricwlwm. Mae'n arddel arferion sy'n canolbwyntio yn fwy ar y dysgwr na'r hyn a welwyd yn flaenorol, wedi'i seilio ar ddatblygiad galluoedd penodol. Felly, mae'r cwricwlwm newydd yn ymwneud â'r hyn a addysgir i blant – er enghraifft, trwy gynnig mwy o gydbwysedd rhwng gwybodaeth a sgiliau a cheisio sicrhau mwy o gydlyniaeth ar draws y cwricwlwm – a sut y cânt eu haddysgu, e.e. trwy roi mwy o hyblygrwydd a pherchnogaeth i athrawon dros y gwaith o siapio addysgu a dysgu.

Ar draws ymatebion, mae'n amlwg bod pobl wedi rhoi gwahanol bwys a sylw i wahanol agweddau ar y cwricwlwm, ar lefel gysyniadol ac o bersbectif ymarferol. Mewn rhai achosion, ceir dehongliadau nad ydynt yn adlewyrchu ysbryd neu fwriad y cwricwlwm newydd yn fanwl efallai. Mae'n bosibl, er enghraifft, na fydd rhai sy'n dymuno gweld mwy o sylw yn cael ei roi i gyrff gwybodaeth neu ddisgyblaethau pwnc penodol wedi deall y cwricwlwm o ran y ffaith ei fod yn ceisio rhoi mwy o reolaeth a hyblygrwydd i athrawon o ran y ffordd y byddant yn eu haddysgu. Gallai persbectifau sy'n ceisio mwy o fanylder a gwaith cyfarwyddol fod yn seiliedig ar densiwn gydag eraill sy'n cefnogi'r hyblygrwydd a'r gallu i weithredu a gynigir trwy'r cwricwlwm newydd. Mae'n awgrymu hefyd nad yw deunyddiau'r cwricwlwm wedi cyfleu goblygiadau cysyniadol, addysgegol ac ymarferol y diwygiadau mewn ffordd effeithiol efallai, gan gynnwys y rhai y gallent roi sylw i neu leddfu pryderon a fynegwyd gan rai ymatebwyr. Efallai y byddai o fudd i ymdrechion cyfathrebu yn y dyfodol geisio egluro ac ymhelaethu ar y ffordd y mae'r cwricwlwm yn ceisio rhoi sylw i'r materion a'r sialensiau sylfaenol sy'n bwydo i mewn i'r safbwyntiau hyn.

# 4 Deunydd Cyfarwyddyd


Mae'r bennod hon yn ystyried safbwyntiau ymatebwyr ynghylch y deunydd cyfarwyddyd ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022, a sut y byddai modd ei wella.

Datblygwyd y deunydd cyfarwyddyd ar y cyd â rhwydwaith o athrawon, ysgolion a rhanddeiliaid eraill ar draws y gymuned addysgol. Fe'i cyhoeddwyd ar-lein trwy Hwb a gellir ei weld trwy droi at: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022.

## 4.1 Gwella'r Deunydd Cyfarwyddyd

Er y gwelwyd cefnogaeth eang i'r cwricwlwm, y pedwar diben a datganiadau Beth sy'n Bwysig, roedd 89 y cant o ymatebwyr o'r farn y byddai modd gwella'r deunydd mewn rhyw ffordd:

Ffigwr 5.1: C9. A3: Yn eich barn chi, a fyddai modd gwella cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022?




N = 1429

O blith yr ymatebwyr hynny a gynigiodd fyfyrdodau cadarnhaol am y cyfarwyddyd, roeddent yn aml yn amlygu hygyrchedd ac eglurder y deunydd. Roedd rhai o'r farn bod y fideos o gymorth wrth fynd trwy'r cynigion, a bod y porth ar-lein yn adnodd defnyddiol:

> *'Rydym yn falch iawn gyda'r rhyngwyneb ar-lein, y fideos, y nodiadau a'r holl hyfforddiant yr ydym wedi'i fynychu.'* - ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 1882***

Cynigiwyd nifer o arsylwadau ac awgrymiadau gan ymatebwyr ynghylch sut y byddai modd gwella'r cyfarwyddyd. Roeddent yn amrywio o argymhellion manwl a phenodol iawn i ddatganiadau mwy cyffredinol. Ar draws ymatebion mwy cyffredinol, gwelwyd dwy thema fras yn dod i'r amlwg:

- Y rhai y byddent yn dymuno gweld y cyfarwyddyd yn cael ei symleiddio, gan gynnwys yr iaith a'r cysyniadau a ddefnyddir i gyfleu agweddau ar y cwricwlwm, ac o ran ei strwythur a'i gyflwyniad.
- Y rhai yr oeddent yn teimlo y byddai o fudd i'r cyfarwyddyd fod yn ddyfnach ac yn fanylach mewn rhai mannau er mwyn helpu ymarferwyr ac athrawon i ddeall sut i weithredu'r cwricwlwm mewn gwirionedd.

## 4.2 Iaith

Roedd ymatebwyr yn fwy tebygol o gyfeirio at dôn ac iaith y cyfarwyddyd pan oeddent yn teimlo bod y rhain yn broblem. Un thema allweddol a welwyd yn rhedeg trwy nifer o'r ymatebion oedd y ffaith ei bod yn anodd deall y dôn a'r iaith a ddefnyddir i gyfleu'r cwricwlwm ar draws cryn dipyn o'r cyfarwyddyd. Roedd rhai'n teimlo bod yr iaith dechnegol fanwl a ddefnyddir i fframio cryn dipyn o'r cyfarwyddyd yn golygu ei bod yn anodd ei ddeall. O'r persbectif hwn, roedd yr iaith dechnegol a manwl yn amharu ar ddeall cynnwys a theimlad gwahanol rannau o'r cwricwlwm:

> *'Mae'r iaith yn rhy gymhleth ac nid yw'n ddigon clir, yn enwedig i ymarferwyr amhrofiadol, e.e. Athrawon Newydd Gymhwyso neu gynorthwywyr addysgu a staff o'r sector nas cynhelir.'* - ***Cynghorydd Herio, Consortia Rhanbarthol, Ymateb 2643***

Roedd rhai ymatebion cyfrwng Cymraeg yn adleisio'r teimlad hwn, gan ofyn a fyddai modd ysgrifennu'r cwricwlwm mewn Cymraeg syml, yn hytrach na'r arddull dechnegol yr oeddent yn teimlo a ddefnyddiwyd er mwyn fframio cryn dipyn o'r cyfarwyddyd. Yn gyffredinol, roedd y persbectif hwn yn fwy tebygol o gael ei gynnig gan ymatebwyr o leoliadau meithrin a chynradd.

Yn ogystal, gwelwyd ambell i boced lle y mynegwyd pryder ynghylch cysondeb yr iaith ar draws y cyfarwyddyd. Roedd rhai ymatebwyr yn arsylwi bod Meysydd Dysgu a Phrofiad yn darllen ychydig yn wahanol o un i'r llall, a bod eu tôn gyffredinol, eu hiaith, ac mewn rhai achosion, eu strwythur a'u cynnwys gwirioneddol yn gallu amrywio. Teimlwyd bod y rhain yn golygu ei bod yn anos troi at a dehongli gwahanol rannau o'r cwricwlwm. At hynny, amlygodd rhai o'r ymatebwyr bod yr iaith mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad penodol yn anodd i'w deall. Mae deall union gyffredinrwydd safbwyntiau ynghylch iaith a Meysydd Dysgu a Phrofiad penodol yn heriol, gan nad oedd yr holiadur a fu'n casglu safbwyntiau wedi cyflwyno cwestiynau cyson ar draws pob MDPh. Mae'n ymddangos y rhoddwyd rhywfaint o sylw i bryderon ynghylch yr union iaith sy'n fframio MDPh Mathemateg a Rhifedd, yn enwedig ymhlith ymatebwyr o leoliadau meithrin a chynradd. Cynigiwyd y sylw canlynol gan un ymatebydd ynghylch Mathemateg a Rhifedd:

> *'Mae angen i eiriad datganiadau Beth sy'n Bwysig a chamau cynnydd fod yn fwy cryno ac yn haws i'w ddeall (terminoleg).'* - ***Pennaeth, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1874***

Cynigiwyd awgrymiadau gan rai ymatebwyr ynghylch sut i roi sylw i'r ffordd y defnyddir iaith. Awgrymodd un ymatebydd y gellid ehangu'r diffiniadau neu'r cyfeiriadau sydd wedi'u hymgorffori mewn dogfennau digidol, er enghraifft, ac y gallent helpu darllenwyr i ddatblygu dehongliad manylach o'r cyfarwyddyd:

> *'Byddai eglurder ynghylch y derminoleg o fudd, yn enwedig gyda geiriau y gellir eu rhyngweithredu mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mewn rhai achosion, cynigir diffiniadau (h.y. llythrennedd gweledol) gyda'r gallu i hofran dros eiriau penodol, mae hyn yn ddefnyddiol iawn a byddai modd ei ddefnyddio yn ehangach gyda dolenni i waith ymchwil.'* - ***Athro, Ysgol Gynradd, Ymateb 2826***

Yn fwy cyffredinol, cynigiwyd awgrymiadau penodol gan rai ymatebwyr ynghylch sut y byddai modd sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir i fframio'r cyfarwyddyd yn fwy cynhwysol:

> *'Trwy gydol y ddogfen, a fyddai modd newid y gair "siarad" i "cyfathrebu" oherwydd y byddai hyn yn fwy cynhwysol, o ystyried dulliau cyfathrebu di-eiriau gyda'n plant iau, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu Saesneg fel iaith ychwanegol.'* - ***Awdurdod Lleol, Ymateb 1590***

## 4.3 Llywio

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod cyfanswm y cyfarwyddyd yn golygu ei fod yn anodd ei lywio. O'r persbectif hwn, roedd gofyn i ymarferwyr ac athrawon lywio a dehongli amrediad o ddogfennau er mwyn deall a mewnoli goblygiadau'r cwricwlwm ar gyfer addysgu a dysgu:

> *'Rydym yn llwyr werthfawrogi'r ffaith bod gofyn cael cryn dipyn o fanylder oherwydd natur darn o waith mor fawr. Catalogiwyd cyflwyniad cyfarwyddyd y cwricwlwm mewn ffordd effeithiol er mwyn hwyluso cyfeirio hawdd. Fodd bynnag, bydd angen i unrhyw ymarferydd groesgyfeirio a chadarnhau yn erbyn sawl dogfen o hyd, gan gynnwys fframweithiau a strategaethau eraill. Ceir ychydig anhawster wrth sicrhau naratif cyffredin ar draws y cyfarwyddyd cyfan am y cwricwlwm. Efallai y byddai'n werth ystyried canoli a sicrhau bod llinyn clir yn rhedeg ar draws y gwaith er mwyn osgoi unrhyw negeseuon allweddol posibl rhag cael eu hesgeuluso.'* - ***Corff Anadrannol y Llywodraeth, Ymateb 1391***

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid symleiddio cyfanswm y cyfarwyddyd mewn rhyw ffordd. O'r persbectif hwn, roedd ymatebwyr yn aml yn teimlo na fyddai gan athrawon lawer o amser neu le i'w roi i'r cyfarwyddyd, ac y gallai cyfanswm y deunydd fod yn rhwystr er mwyn dehongli a gweithredu'r arweiniad mewn ffordd lwyddiannus:

> *'Mae cynllun y ddogfennaeth yn rhy anhylaw, ni fydd gan ymarferwyr ac athrawon yr amser i ddarllen yr holl ddogfennau. Mae'r un dyniaethau yn 87 tudalen o hyd.'*
> \- ***Pennaeth Gwella Ysgol, Ymateb 1938***

Unwaith eto, teimlwyd hyn yn amlycach ymhlith yr ymatebwyr hynny o ysgolion meithrin a chynradd. Roedd rhai ymatebwyr yn amlygu'r ffaith bod gan ymarferwyr ac athrawon yn y lleoliad hwn gyfrifoldebau cwricwlaidd ehangach, felly mae gofyn iddynt feistroli ystod ehangach o'r cwricwlwm a'r cyfarwyddyd:

> *'Mae'r ffurf yn anodd iawn i'w ddarllen. Mae'n cymryd cryn amser i weld sut y mae pob medr yn sicrhau cynnydd. Mae hwn yn fater mawr pan fyddwch yn gweithio mewn dosbarthiadau oed cymysg ac mae gennych chi ystod enfawr o sgiliau i'w cynllunio a'u cynorthwyo.'* - ***Athro, Ysgol Gynradd, Ymateb 1670***

Wrth gynnig awgrymiadau ynghylch sut y byddai modd symleiddio'r cyfarwyddyd er mwyn helpu wrth lywio, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai cyfarwyddyd wedi'i deilwra'n fwy a chyfarwyddyd mwy cryno o fudd:

> *'Trwy sicrhau bod yr iaith yn fwy hygyrch a'r ddogfennaeth yn haws i'w defnyddio. Byddai o gymorth pe bai modd troi at y camau cynnydd 1af ar gyfer pob MDPh mewn un man. Fel bod modd gwneud cysylltiadau ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn haws.'* - ***Tîm Cynghori y Cyfnod Sylfaen, Ymateb 2798***

> *'Gan fy mod yn gweithio mewn lleoliad bach ac mai dim ond fi fydd yn cwblhau ac yn gweithredu'r cwricwlwm newydd, mae'r amser sydd gennyf i gwblhau'r gwaith cynllunio ar gyfer y tymor yn gyfyngedig iawn. Mae gormod o ddogfennau i'w darllen er mwyn cael y profiadau priodol. Mae angen cael dogfen hawdd i'w defnyddio am bob maes, gan nodi'r rhesymeg, cam cynnydd un a datganiad Beth sy'n Bwysig. Byddai cael un dogfen yn unig i fynd trwyddi yn helpu rhywun i ddeall y ddogfen, yn hytrach na mynd yn ôl ac ymlaen o un i'r llall. Mae angen cael dogfen drawsgwricwlaidd sy'n briodol i feithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir.'* - ***Arweinydd Uwch, Lleoliad Nas Cynhelir a Ariennir, Ymateb 2534***

## 4.4 Ehangder a Dyfnder

I'r gwrthwyneb, roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o fanylder yn y cyfarwyddyd er mwyn eu helpu i ddehongli a gweithredu'r cwricwlwm newydd. O'r persbectif hwn, barnwyd yn aml bod y cyfarwyddyd yn nodi'r diben yn gadarn, gan gyfleu amcanion cyffredinol y cwricwlwm mewn ffordd effeithiol, ond y gellid ei gryfhau o ran ei fanylder. Er bod y farn hon yn un a welwyd yn eang, roedd yn fwy tebygol o gael ei mynegi gan ymatebwyr o ysgolion uwchradd.

Roedd amrediad o bryderon yn tanlinellu'r safbwynt hwn. Er enghraifft, mynegwyd pryderon bod natur agored ac eang y cyfarwyddyd yn golygu y byddai gan athrawon waith sylweddol i ddatblygu a darparu'r cwricwlwm. Mewn rhai achosion, roedd ymatebwyr yn barnu bod y cyfarwyddyd yn gweithredu ar lefel eithaf uchel, ac y gallai'r diffyg manylder tybiedig gynyddu amrywiaeth o ran cynnwys ac ansawdd addysgu a dysgu ar draws ysgolion:

*'Credaf efallai y gallai cynnig rhyw syniad o'r cynnwys i'w ddefnyddio er mwyn rhoi sylw i ddatganiadau Beth sy'n Bwysig helpu i wneud pethau yn fwy teg. Dim gormod o gyfarwyddyd, ond rhywfaint ohono. Ceir posibilrwydd go iawn y bydd rhai disgyblion yn dysgu trwch o wybodaeth a sgiliau gwerthfawr mewn ffordd gydlynol, ond na fydd eraill efallai, a bydd hyn yn dibynnu'n llwyr ar yr ysgol y byddant yn ei mynychu... Gallai rhywfaint o gyfarwyddyd penodol helpu gyda hyn.'*
- ***Arweinydd Uwch, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2666***

Wrth geisio mwy o fanylder yn y deunydd cyfarwyddyd, roedd yn ymddangos bod continwwm o safbwyntiau. Ar un pen y sbectrwm, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai mwy o gyfarwyddyd, gan gynnwys datblygu meysydd llafur cynhwysfawr, yn werthfawr wrth helpu athrawon i ymateb i'r cwricwlwm newydd. Ar y pen arall, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai enghreifftiau esboniadol o'r ffordd y gallai'r cwricwlwm weithio mewn gwirionedd, o gymorth. O'r persbectif hwn, gallai portreadau bychain neu enghreifftiau o addysgu a dysgu helpu athrawon i ddychmygu'r cwricwlwm ar waith, gan feithrin dealltwriaeth well. Cynigiwyd persbectif gan un ymatebydd sydd rhwng y ddau safbwynt:

*'Dylid ystyried cwricwlwm craidd, a fyddai'n cynnig hawl go iawn i bob disgybl yng Nghymru, gan ganiatáu hyblygrwydd ac ymreolaeth ar lefel ysgol hefyd... Byddai hyn yn galluogi hawl gadarn o fewn y cwricwlwm i wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau allweddol i bob dysgwr, beth bynnag fo eu cefndir. Byddai hyn yn helpu i leihau'r bwlch rhwng disgyblion breintiedig a difreintiedig. Byddai nodi cwricwlwm craidd yn unig yn caniatáu hyblygrwydd a dewis lleol o hyd. Yn ogystal, byddai adnoddau wedi'u cynllunio yn dda yn lleihau lefelau biwrocratiaeth sy'n ymwneud â chynllunio (mewn ysgol a rhwng ysgolion) a llwyth gwaith cyffredinol athrawon.'*
- ***Swyddog Gwella Ysgol, Ymateb 1919***

Roedd un maes arall yr oedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai modd gwella'r cyfarwyddyd ynddo yn ymwneud â chysondeb ar draws deunyddiau, gan gynnwys mewn perthynas â manylder, cynnwys a therminoleg:

*'Rydym yn deall bod anghysondebau yn aml yn digwydd wrth ddrafftio cyfres mor fawr o ddogfennau, a theimlwn y byddai'n ddefnyddiol rhoi sylw i hyn cyn cyhoeddi'r cwricwlwm terfynol. Yn gyntaf, mae ambell i MDPh yn rhestru llwybrau gyrfa neu lwybrau cyflogaeth posibl e.e. mae MDPh y Dyniaethau yn sôn am rolau mewn llywodraeth leol, y gyfraith, bancio ac addysgu. Ond nid yw hyn yn wir ym mhob MDPh. Teimlwn y byddai'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg.'* - ***Cyngor Sgiliau, Ymateb 2022***

## 4.5 Strwythur a Chydlyniaeth

O ran cydlyniaeth a strwythur cyffredinol y cyfarwyddyd, roedd ymatebwyr yn aml yn sôn am y ffaith bod cyfanswm y cyfarwyddyd yn her. Thema allweddol a oedd yn ysgogi'r pryderon hyn oedd y gwahaniaethau amlwg, a'r mân wahaniaethau weithiau, o ran yr iaith, y strwythur a'r cynnwys ar draws gwahanol rannau o'r cwricwlwm. O'r persbectif hwn, roedd anghysondebau o ran yr iaith a'r strwythur wedi atal ymatebwyr rhag ymgysylltu â'r cwricwlwm a'i ddeall:

*'Mae'n amrywio gan ddibynnu ar yr MDPh – ceir anghysondebau sy'n ymwneud â strwythur "Beth sy'n Bwysig" a chamau ee mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn dilyn dull gweithredu datblygiadol o ran y camau ac Beth sy'n Bwysig yn wahanol, ac nid yw hyn yn cyd-fynd â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill. Gwyddoniaeth a Thechnoleg – mae'n ymddangos bod hwn yn cael ei rannu'n 3 maes gwyddoniaeth o hyd, sef Bioleg, Cemeg a Ffiseg, fel ag y mae ar hyn o bryd i arweinwyr cynradd, a heb fod yn holistig. Mae'n groes i LNF ac LLC a Mathemateg. Dwy ddogfen sy'n ychwanegu at y dryswch rhwng cymwysterau trawsgwricwlaidd a Meysydd Dysgu a Phrofiad (LLC a Mathemateg) – yn cyflawni'r un peth.' -* ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 1584***

Mae'n anodd deall gwerth cymharol adrannau penodol yn y cyfarwyddyd i ymatebwyr gydag unrhyw fanylder. Roedd ymatebwyr yn tueddu i gynnig arsylwadau ar wahân ynghylch a yw adran yn ddefnyddiol neu beidio o fewn y naratif ehangach ynghylch pryderon neu faterion sy'n ymwneud ag agwedd benodol ar y cyfarwyddyd. Felly, mae ceisio crisialu'r brif farn ar draws ymatebion yn mynd yn heriol. Ceir ymatebion, fodd bynnag, sy'n awgrymu gwerth cymharol gwahanol agweddau ar y cyfarwyddyd:

*'Dylai arweinwyr ac ymarferwyr ddeall cefndir a rhesymeg y cwricwlwm drafft a gyflwynir yn adran Dechrau Arni, yn ogystal â'r trosolygon o bob maes dysgu a phrofiad. Fodd bynnag, yn ei ffurf bresennol, mae'r adran hon ychydig yn hir ac yn 'sych'. O ganlyniad, ceir perygl na fydd nifer yn darllen y wybodaeth bwysig hon cyn symud ymlaen i fanylder y meysydd dysgu a phrofiad. Er mwyn osgoi hyn rhag digwydd, efallai y byddai o gymorth ystyried ffurf sy'n fwy ymgysylltol a heb fod yn defnyddio cymaint o eiriau, gan ddefnyddio mwy o waith graffeg efallai a chadw'r testun yn glir ac yn gryno.' -* ***Estyn, Ymateb 1323***

## 4.6 Hygyrchedd

Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai modd gwella hygyrchedd y cyfarwyddyd, gan gynnig awgrymiadau ymarferol:

*'Ar y cyfan, mae'r cyfarwyddyd yn glir ac yn gynhwysfawr ac mae'n tynnu sylw'r darllenydd at y prif feysydd pan fo hynny'n briodol. Yn ogystal, mae'r ffurf yn glir ac yn gyson ar draws gwahanol rannau'r cyfarwyddyd, sy'n ei gwneud yn haws ymgysylltu ag ef... O ran hygyrchedd, er ei bod yn dda bod dogfennau yn gynhwysfawr ac ar gael mewn gwahanol ffurfiau, byddem yn cwestiynu a oes gormod o ddogfennau at ei gilydd, ac a yw hyn yn effeithio ar hygyrchedd y cyfarwyddyd i'r holl randdeiliaid. Fel pwynt pellach, byddem yn gofyn a ystyriwyd / a oes angen ystyried a yw defnyddio cefndiroedd lliw a sgript gwyn mewn rhannau o'r ddogfennaeth yn peri problem o ran hygyrchedd i rai rhanddeiliaid.' -* ***Athro, Ysgol Gynradd, Ymateb 1358***

Gwelwyd tybiaethau cymysg ynghylch hygyrchedd cyffredinol y cyfarwyddyd ar-lein. O blith yr ymatebwyr hynny a nododd eu sylwadau ar Hwb, roedd rhai o'r farn ei fod yn hygyrch ac yn hawdd i'w lywio. Roedd eraill, fodd bynnag, o'r farn ei bod yn anodd dod o hyd i'r y cyfarwyddyd perthnasol ar Hwb. Efallai bod cyswllt agos rhwng y persbectif hwn a phryderon eraill ynghylch hygyrchedd, fodd bynnag, gan gynnwys cyfanswm cyffredinol y cyfarwyddyd a'r iaith a ddefnyddir i'w fframio:


> *'Rydym wedi cael ychydig gymorth gan EAS, a fu'n ddefnyddiol, fodd bynnag, mae hwn ar gyfer un aelod o staff fesul lleoliad yn unig, ac mae'n anodd iawn i'r unigolyn hwnnw ddeall yr holl gwricwlwm newydd gan ei fod yn anferth ac yn eiriog iawn ac mae'n anodd defnyddio Hwb i ddod o hyd i'r dogfennau'n gyflym, sy'n ei gwneud yn anodd i'w ddefnyddio wrth gynllunio pan na fydd gan staff lawer o amser i wneud hynny yn aml.'* - ***Ymarferydd, Ysgol Feithrin, Ymateb 1953***

Ar ben hynny, mynegwyd pryderon gan nifer fach o ymatebwyr ynghylch cysylltedd digidol a rôl Hwb fel platfform ar-lein er mwyn lledaenu'r cyfarwyddyd. O'r persbectifau hyn, cyfeiriwyd at gysylltedd rhyngrwyd gwael mewn rhai lleoliadau fel rhywbeth sy'n rhwystro pobl rhag troi at y cyfarwyddyd.

## 4.7 Cynorthwyo'r Darparu

Er mwyn archwilio safbwyntiau ymatebwyr ymhellach, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi'r graddau y byddai'r cyfarwyddyd yn helpu athrawon i gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm i'w dysgwyr. Adroddodd rhan fwyaf yr ymatebwyr eu bod o'r farn bod y cyfarwyddyd yn weddol defnyddiol. Roedd dosbarthiad ehangach yr ymatebion yn pwyso at y farn nad oedd o gymorth o gwbl. Roedd ymatebwyr o leoliadau ysgolion cynradd ychydig yn fwy tebygol o adrodd safbwyntiau cadarnhaol.

Ffigwr 5.2: C13.1. B1: Pa mor ddefnyddiol fyddai cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 i chi wrth i chi ddatblygu cwricwlwm ar gyfer eich dysgwyr? Pa mor ddefnyddiol?




N = 1029

Pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau manylach am eu safbwyntiau, roedd yr ymatebwyr yn aml yn ategu safbwyntiau tebyg ac awgrymiadau ynghylch sut y byddai modd gwella'r deunydd cyfarwyddyd. Roedd y rhain yn cynnwys symleiddio'r iaith a'r llywio, yn ogystal â sicrhau bod y cyfarwyddyd yn fwy cryno. Unwaith eto, roedd ymatebwyr eraill yn teimlo bod gofyn i'r cyfarwyddyd fod yn fwy manwl mewn mannau, yn enwedig mewn perthynas â phwysigrwydd cynnwys enghreifftiau neu astudiaethau achos er mwyn dangos y cwricwlwm ar waith:

> *'Byddai o fudd cynnwys enghreifftiau neu astudiaethau achos o ysgolion arloesi.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2201***

Thema allweddol arall a oedd yn codi o'r ymatebion oedd pryderon mwy ymarferol sy'n mynd y tu hwnt i'r cyfarwyddyd ei hun. Roedd y rhain yn cynnwys y cymorth, yr hyfforddiant, yr amser a'r adnoddau er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd:

> *'Mae'n fan cychwyn da i'w ddatblygu. Mae o fudd fel cyfarwyddyd. Fodd bynnag, mae angen i ni ddatblygu cwricwlwm ar lefel ysgol ar gyfer y dysgwyr yn ein lleoliad nawr. Bydd gofyn cael mwy o gymorth, arweiniad a gweithgarwch cydweithio ynghylch sut i gyflawni hyn. Mae natur eang y cwricwlwm yn rhoi'r ymreolaeth i ymarferwyr ddatblygu eu cyfleoedd ystyrlon eu hunain i ddisgyblion yn eu dosbarthiadau nhw.' -**Arweinydd Uwch, Ysgol Gynradd, Ymateb 1171***

> *'Byddai angen i mi ddibynnu'n fawr ar gydweithwyr a phobl o'm cwmpas i ddatblygu syniadau, gan bod y cyfarwyddyd sydd ar gael yn gyfyngedig. Teimlaf hefyd y byddai angen i mi gael hyfforddiant digonol mewn rhai meysydd er mwyn cyflawni'r hyn a ofynnir ohonof.' - **Athro Arbenigol, Awdurdod Lleol, Ymateb 1079***

Unwaith eto, archwilir y materion hyn yn fanylach yn y penodau sy'n dilyn, gan gynnwys y rhai ynghylch gweithredu a datblygiad proffesiynol.

Roedd gallu'r cyfarwyddyd i gynorthwyo athrawon ac ymarferwyr wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn faes a oedd yn peri pryder i rai ymatebwyr. Roedd myfyrdodau'n tueddu i ganolbwyntio ar y ffaith na cheir cyfarwyddyd digonol i gynorthwyo ysgolion i weithredu'r cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr. Adlewyrchwyd y teimlad hwn gan un ymatebydd:

> *'Mae diffyg unrhyw asesiadau o'r effaith sydd ar gael yn golygu nad yw'r cwricwlwm yn dangos sut y bydd yn cynnwys pob dysgwr, ac nid oes modd gweld sut yr ystyriwyd neu yr aseswyd anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Nid oes cyfarwyddyd i athrawon er mwyn sicrhau hyn ar lefel ysgol, naill ai sy'n ymwneud â grwpiau o ddysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig, neu i gau'r bwlch cyrhaeddiad, neu i ddysgwyr sydd ag ADY [Anghenion Dysgu Ychwanegol].'*
> *-* ***Comisiynydd Plant, Ymateb 2516***

Gofynnwyd cwestiwn pellach i'r ymatebwyr a oedd yn ystyried a oeddent yn teimlo bod y deunydd cyfarwyddyd yn caniatáu i blant a phobl ifanc gael ystod eang o brofiadau dysgu neu beidio. Adroddodd rhan fwyaf yr ymatebwyr bod y cyfarwyddyd yn gwneud hynny mewn ffordd dda iawn. Unwaith eto, roedd ysgolion cynradd yn fwy tebygol o adrodd canlyniadau mwy cadarnhaol.

Ffigwr 5.3: C14.1. B2: Yn eich barn chi, pa mor dda y mae cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn caniatáu i bob plentyn a pherson ifanc gael amrediad eang o brofiadau dysgu? Efallai yr hoffech ystyried dysgu ar draws y gwahanol ddisgyblaethau a phynciau sy'n creu rhan o faes dysgu a phrofiad. Pa mor dda?




N = 956

Croesawodd nifer o ymatebwyr y pwyslais ar brofiad a dysgu yn y cwricwlwm. Amlygodd ymatebwyr y ffaith bod y dull trawsgwricwlaidd thematig yn cynnig cyfleoedd i athrawon ac i blant a phobl ifanc:

> *'Mae'n cyfuno'r gwahanol feysydd mewn ffordd dda iawn. Nid yw'n rhoi pynciau mewn gwahanol adrannau, gan alluogi myfyrwyr i drosglwyddo sgiliau rhwng gwahanol feysydd o'r cwricwlwm. Mae'n annog plant i ddefnyddio eu sgiliau ar draws ystod eang o ddisgyblaethau.'* - ***Athro, Ysgol Gynradd, Ymateb 2332***

Er bod nifer o ymatebwyr yn gefnogol ar y cyfan, unwaith eto, roedd rhai wedi cynnwys rhybudd gyda'u cefnogaeth. Mynegwyd pryderon tebyg ynghylch amrywiaeth posibl y cynnwys ac ansawdd y profiadau dysgu o fewn ac ar draws lleoliadau:

> *'Mae'r fframwaith yn galluogi ysgolion i fod yn hyblyg i ddatblygu profiadau dysgu dilys sy'n addas i'w dysgwyr/cymunedau. Er bod y cyfarwyddyd yn amlwg yn caniatáu ystod eang o brofiadau, bydd sefydliadau unigol yn gyfrifol am ddarparu'r cyfleoedd hyn.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1643***

## 4.8 Casgliadau

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo y byddai modd gwella'r cyfarwyddyd am y cwricwlwm mewn rhyw ffordd. Roedd y sylwadau a'r awgrymiadau yn perthyn i ddau gategori yn fras, naill ai y byddai modd symleiddio'r deunyddiau, gan gynnwys yr iaith a ddefnyddir i fframio'r cyfarwyddyd a chyfanswm y cyfarwyddyd, neu bod angen mwy o fanylder mewn mannau. Efallai y bydd hi'n heriol cysoni'r safbwyntiau hyn wrth fireinio'r cyfarwyddyd; fodd bynnag, ceir tystiolaeth i awgrymu bod gwahanol leoliadau yn tueddu i ddal safbwyntiau ychydig yn wahanol. Mae meithrinfeydd ac ysgolion cynradd yn fwy tebygol o ofyn bod deunyddiau cyfarwyddyd yn cael eu symleiddio; mae ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o ofyn am fwy o fanylder. Er nad yw'r canfyddiad hwn yn adlewyrchu pob achos, gallai fod yn sail y gwaith o deilwra'r cyfarwyddyd mewn ffordd fwy penodol tuag at wahanol gynulleidfaoedd.

# 5 Y Celfyddydau Mynegiannol

Mae **Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol** yn canolbwyntio ar bum disgyblaeth celf, dawns, drama, ffilm a chyfryngau digidol, a cherddoriaeth. Er bod gan y disgyblaethau hyn broses greadigol gyffredin ac maent yn rhannu sgiliau trosglwyddadwy, mae gan bob un ohonynt ei chorff gwybodaeth ar wahân a'i set o sgiliau amlwg. Bydd y maes dysgu a phrofiad hwn yn sicrhau bod gan ddysgwyr yr hawl i fanteisio ar y bum disgyblaeth.

O blith yr ymatebwyr hynny a nododd sylwadau am MDPh y Celfyddydau Mynegiannol, mynegwyd cyffro gan nifer gan eu bod yn teimlo bod ganddo rôl amlwg yn y cwricwlwm. Roedd rhai ymatebwyr, fodd bynnag, yn teimlo bod y cwricwlwm yn rhoi mwy o bwys ar y celfyddydau nag y mae'r trefniadau cyfredol:

> *'Mae gan gwricwlwm y Celfyddydau Mynegiannol blatfform eang a chyffrous er mwyn ysbrydoli meddwl creadigol.' -* ***Athro, Uned Cyfeirio Disgyblion, Ymateb 1508***

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod sialensiau wrth ddarparu ehangder y dysgu a'r profiad mewn ffordd effeithiol, yn enwedig ar gyfer y rhai heb arbenigedd neu brofiad mewn cyfrwng neu gelfyddyd penodol:

> *'MDPh y Celfyddydau Mynegiannol – Mae'r cynllunio ar gyfer dysgu yn ymddangos yn dechnegol ac mae geirfa benodol i'r pwnc yn ei gymhlethu i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr. Heb os, mae angen gwybodaeth arbenigol. Byddai angen i ni ddatblygu ein seilwaith er mwyn darparu'r maes hwn. A fydd hyfforddiant er mwyn datblygu pynciau arbenigol?' -* ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 2702***

Yn yr un modd â'r hyn a welwyd gydag agweddau eraill ar y cwricwlwm, roedd ymatebwyr yn aml yn sôn am bryderon ymarferol wrth ddarparu'r MDPh. Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr, er enghraifft, na fyddai'r Celfyddydau Mynegiannol yn flaenoriaeth amlwg i nifer o ysgolion. I eraill, fodd bynnag, gallai strwythur a chynnwys yr MDPh arwain at roi llai o ffocws i'r celfyddydau:

> *'Y Celfyddydau Mynegiannol – Rydw i'n hoff iawn o'r ffocws ar y broses greadigol. Mae angen sicrhau nad yw cael dim ond 3 datganiad Beth sy'n Bwysig yn peryglu'r celfyddydau mewn ysgolion. Gellid ystyried bod angen yr amser lleiaf ar hwn.' -* ***Athro, Ysgol Gynradd, Ymateb 1154***

> *'Mae hwn yn wych... Rydw i'n teimlo'n angerddol am y maes hwn, yn enwedig cerddoriaeth. Fodd bynnag, rydw i'n pryderu am faint ei gynnwys. Mae'n teimlo fel sawl pwnc wedi'u gwasgu i un. Mae'r holl rannau yn bwysig, ond mawr obeithiaf y bydd gan ysgolion y rhyddid i neilltuo amser er mwyn sicrhau'r effaith orau, yn hytrach na theimlo bod yn rhaid iddynt neilltuo amser i gyflawni pob deilliant.' -* ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 2156***

> *'Heb os, bydd y ddamcaniaeth y seiliwyd cwricwlwm y Celfyddydau Mynegiannol arni yn addysgu ac yn datblygu dysgwyr i fod yn unigolion cytbwys a pharod. Rydw i'n pryderu y gallai'r gwaith o'i weithredu beri problemau... Os ydym yn symud tuag at gwricwlwm cytbwys a chyfartal, sut ellir gwarantu bod yr amser perthnasol a hanfodol yn cael ei neilltuo i bob MDPh? A newidir meincnod perfformiad ysgol i adlewyrchu'r newidiadau i'r cwricwlwm?'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1934***

Mewn cymhariaeth, rhoddwyd llai o sylw i'r Celfyddydau Mynegiannol gan yr ymatebwyr nag a roddwyd i feysydd eraill y cwricwlwm. O blith yr ymatebwyr hynny a fynegodd eu safbwyntiau, roeddent yn gadarnhaol iawn ar y cyfan.

## 5.1 Cynnydd

Nid yw cynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol yn broses linol ac ni cheir un llwybr cyffredin. Efallai y bydd dysgwyr yn symud yn ôl ac ymlaen wrth iddynt brofi gweithgareddau y Celfyddydau Mynegiannol, ac mae gwahanol ddysgwyr yn debygol o sicrhau cynnydd mewn ffyrdd gwahanol iawn.

Nid oedd nifer o ymatebwyr wedi gwneud sylwadau am y camau cynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol. Cynigiodd un ymatebydd yr arsylwad ehangach y gallai'r datganiadau 'Gallaf' arwain at gyfyngiadau a chanlyniadau anfwriadol mewn gwirionedd:

> *'Credaf y bydd y datganiadau 'Gallaf' yn peri i addysgwyr eu trin fel ymarfer blwch ticio – ac nid hwn yw'r bwriad yn fy marn i. Cyn gynted ag y byddwch yn rhoi 'Gallaf' ar ddechrau datganiad, bydd yn ddatganiad ie neu na. Gallaf, neu ni allaf. Bydd hyn yn arwain rheolwyr at daenlenni a matricsau ar gyfer pob plentyn. Ceir dros 200 o ddatganiadau 'Gallaf' ar draws y Camau Cynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol. Yn ymarferol, gallai plentyn fod ar unrhyw un o'r datganiadau 'Gallaf' hynny ar unrhyw oed. Ni ellir rheoli hyn ac mae'n mynd yn groes i amcan asesu ffurfiannol a dysgu holistig.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1398***

# 6 Iechyd a Lles

Mae **Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles** yn ymwneud â'r agweddau corfforol, seicolegol, emosiynol a chymdeithasol ar ein bywydau. Mae'n cydnabod iechyd a lles da fel rhywbeth allweddol sy'n galluogi dysgu llwyddiannus. Bydd y maes dysgu a phrofiad hwn yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu a chynnal nid yn unig eu hiechyd a'u lles corfforol, ond hefyd, eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol, yn ogystal â meithrin perthnasoedd cadarnhaol mewn amrediad o gyd-destunau. Er mwyn galluogi hyn, bydd yn datblygu gallu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch eu hiechyd a'u lles a hefyd, i ymgysylltu mewn ffordd bwysig gydag amrediad o ddylanwadau cymdeithasol y gallent effeithio ar eu gwerthoedd a'u hymddygiad.

Roedd Iechyd a Lles yn MDPh arall a sicrhaodd gefnogaeth eang. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod cyfarwyddyd MDPh yn cefnogi dull gweithredu ysgol gyfan tuag at gynorthwyo iechyd a lles. Roedd y mwyafrif wedi ymateb yn dda iawn. Ar draws gwahanol leoliadau, roedd ysgolion cynradd yn fwy tebygol o adrodd safbwyntiau cadarnhaol ac roedd ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o adrodd safbwyntiau negyddol:

Ffigwr 7.1: C32.1. C5: Pa mor dda y mae cyfarwyddyd Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn cynorthwyo dull gweithredu ysgol gyfan tuag at gynorthwyo iechyd a lles? Pa mor dda?




N = 556

Pan ofynnwyd iddynt am eu safbwyntiau yn fanylach, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bwysigrwydd iechyd a lles ar gyfer ystod amrywiol o ddeilliannau, gan gynnwys cyflawniad academaidd. Roeddent yn aml yn teimlo bod y dull holistig tuag at iechyd a lles yn gam cadarnhaol:

*'Mae MDPh Iechyd a Lles wedi gwneud argraff dda arnaf. Rydw i'n hoffi'r ffaith nad yw datganiadau Beth sy'n Bwysig yn cynnwys yr elfennau disgwyliedig yn unig ynghylch gweithgarwch corfforol a diet, ond eu bod yn rhoi sylw i faterion mwy difrifol megis iechyd meddwl a phwysau gan gyfoedion. Credaf fod ystod eang i'r datganiadau ac fel ysgol, rydym eisoes wedi dechrau arbrofi gyda'r datganiadau hyn.' -* ***Pennaeth, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1959***

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai o fudd cynnwys gwybodaeth fanylach yn y cyfarwyddyd er mwyn helpu athrawon ac ysgolion i weithredu'r MDPh. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion sefydliadol gan gyrff cyhoeddus a grwpiau diddordeb arbennig sydd â diddordeb yn lles plant a phobl ifanc. Roeddent yn aml yn cyfeirio at gynnwys penodol, megis maeth a hydradu neu iechyd y geg, y dylai gael rôl amlycach yn y cyfarwyddyd ynghylch yr MDPh:

*'Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws gwahanol gyd-destunau addysgol, byddai'n ddelfrydol cael cyfeiriad penodol at y mathau o salwch meddwl y byddent yn cael eu trafod ac i ba raddau y byddai'r rhain yn cael eu hesbonio. Yn arbennig, yr adran ynghylch sgiliau ehangach yn y maes dysgu hwn, lle y cyfeirir at 'gyflyrau sy'n hyrwyddo ac yn effeithio ar iechyd meddwl' ond heb unrhyw fanylion am y cyflyrau a fyddai'n cael eu cynnwys yn hwn.' -* ***Sefydliad Trydydd Sector, Ymateb 2404***

Roedd yr ymatebwyr hyn yn aml yn amlygu cyfoeth y cymorth sydd ar gael i ysgolion gan sefydliadau sydd â diddordeb mewn lles. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai modd gwneud cyfeiriad mwy amlwg i'r cymorth hwn a'r adnoddau hyn yn y cyfarwyddyd:

*'Rydym yn cefnogi'r diffiniad o ddull gweithredu ysgol gyfan a nodir yn nogfen MDPh Iechyd a Lles (t.19) a theimlwn bod hon yn elfen arwyddocaol o fewn y cyfarwyddyd er mwyn gweithredu'r MDPh. Mae ymchwil yn awgrymu, er mwyn bod yn effeithiol wrth wella iechyd, bod angen i waith yn y cwricwlwm gael ei gynorthwyo gan ethos cadarnhaol ac amgylchedd sy'n cynnwys cysylltiadau cryf gyda theulu a'r gymuned. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, teimlwn nad yw'r adran hon yn ddigon manwl na hysbysol er mwyn helpu ysgolion i fynd ati a gweithredu hwn yn llawn. Yn arbennig, teimlwn y gallai rhywfaint o weithgarwch cyfeirio fod o gymorth os bydd ymarferwyr yn dymuno darllen am hyn yn fanylach.' -* ***Academydd, Sefydliad Addysg Uwch, Ymateb 2606***

Un pryder allweddol ymhlith rhai ymatebwyr oedd rôl Addysg Gorfforol o fewn yr MDPh. Roeddent yn teimlo y dylai gael rôl amlycach o fewn yr MDPh, ac y dylid neilltuo nifer benodol o oriau er mwyn darparu gweithgareddau corfforol:

*'Teimlwn bod angen i MDPh Iechyd a Lles gynnwys gofyniad gorfodol i bob myfyriwr ar draws yr ysgol gymryd rhan mewn 2 awr o AG o ansawdd bob wythnos.' -* ***Awdurdod Lleol, Ymateb 1668***

*'Mwy o gyfarwyddyd ynghylch cynnwys gweithgarwch corfforol yn cael ei addysgu gan athrawon AG sy'n meddu ar gymhwyster proffesiynol er mwyn darparu gwersi gweithgarwch. Nid oes argymhellion ynghylch faint o amser y dylid ei dreulio ar weithgarwch yn ystod pob grŵp blwyddyn neu gyfnod allweddol, a dylai hyn fod yn orfodol fel amser penodedig neu nifer y gwersi y mae'n rhaid eu haddysgu trwy gyfrwng gweithgarwch.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2244***

Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn croesawu strwythur, geiriad a phwyslais yr MDPh.

Mynegwyd pwysigrwydd dysgu am risg a rheoli risg gan rai ymatebwyr, mewn perthynas ag iechyd a lles.

*'Mae angen cynnwys dull gweithredu cytbwys tuag at reoli risg yn yr MDPh hwn, y gall dysgu yn yr awyr agored helpu i'w ddatblygu hefyd.'* - ***Sefydliad Trydydd Sector, Ymateb 1413***

## 6.1 Cynnydd

Nodwedd bwysig o'r maes dysgu a phrofiad hwn yw'r ffaith nad yw cynnydd yn llinol. Gall y symud rhwng camau cynnydd fod yn ôl ac ymlaen, o ystyried y newidiadau mewn amgylchiadau personol sy'n effeithio ar iechyd a lles. Mae pedwar model cynnydd yn gweithredu o fewn Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a gellir nodi'r rhain i wahanol raddau ar draws pob datganiad Beth sy'n Bwysig.

Dim ond rhai ymatebwyr oedd wedi cynnig sylwadau am y camau cynnydd o fewn yr MDPh. Roedd un ymatebydd yn gefnogol, ond mynegodd bryderon ehangach na fyddai'r maes yn cael sylw digonol.

*'Mae'r camau cynnydd yn gryno ac yn addas i blant, er bod nifer fawr iawn ohonynt. Maent i gyd yn berthnasol ac yn angenrheidiol, ac mae rhai ohonynt yn bwysicach na nifer o sgiliau eraill y bernir eu bod yn angenrheidiol, a'm hunig bryder i yw a fydd gennym yr amser angenrheidiol i ddilyn y cwricwlwm yn llawn.'*
- ***Athro, Ysgol Gynradd, Ymateb 1716***

Ymhellach, mynegwyd sylw gan ymatebydd arall am ffurf y camau cynnydd, gan awgrymu y gallai ffurf grid fod yn haws i'w ddefnyddio:

*'Mae'r newid o ran ffurf o grid i ddiagram llinol wedi ei gwneud yn anos deall y cysylltiadau rhwng y camau cynnydd.'* - ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, 2882***

# 7 Y Dyniaethau

Mae'r Dyniaethau yn cynnwys daearyddiaeth, hanes, addysg grefyddol, astudiaethau busnes, ac astudiaethau cymdeithasol. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu nifer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin, ac mae ganddynt eu corff eu hun o wybodaeth a sgiliau. Yn yr un modd, efallai y bydd dysgwyr ac athrawon yn cyfeirio at ddisgyblaethau cyflenwol eraill, megis y Clasuron, economeg, y gyfraith, athroniaeth, gwleidyddiaeth, seicoleg a chymdeithaseg, os a phan fo hynny'n briodol.

Cafwyd ymatebion cymysg i MDPh Y Dyniaethau. Roedd un ymatebydd wedi nodi eu bod yn croesawu'r dull cyffredinol ar gyfer yr MDPh:

> *'Mae MDPh y dyniaethau yn hyrwyddo datblygiad dinasyddion moesol a gwybodus mewn ffordd gadarn, a dinasyddion sy'n deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau ac sy'n gallu cymryd rhan lawn mewn prosesau democrataidd a gweithredu cymdeithasol. Yn ogystal, mae'n galluogi gweithgarwch i astudio lleoliadau hanesyddol a diwylliannol amrywiol y byd yr ydym yn byw ynddo ac mae'n nodi'n glir bod datblygu meddwl chwilfrydig sy'n fedrus wrth feddwl mewn ffordd feirniadol, yn allweddol.'* - ***Sefydliad Trydydd Sector, Ymateb 1590***

Roedd rhai ymatebwyr wedi seilio eu safbwyntiau ynghylch yr MDPh ar dybiaethau ehangach megis pwysigrwydd terfynau pwnc clir a goruchafiaeth dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth. O'r persbectif hwn, roedd ymatebwyr yn pryderu ynghylch y parch cydradd tuag at eu harbenigeddau pwnc priodol o fewn yr MDPh, gan fynegi eu safbwynt yn aml a oedd yn cyfleu'r dymuniad i weld cyfeiriad amlwg at ddisgyblaethau, cysyniadau neu gyrff gwybodaeth penodol yn y cyfarwyddyd:

> *'O ran y cynnwys daearyddol yn y drafft: Ychydig iawn o ddisgrifiad a welir o'r hawl i gael gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau daearyddol. Mewn sawl ystyr, byddai modd mynegi hawl cryfach, a dylid mynegi hawl cryfach e.e. mewn perthynas â gwybodaeth ynghylch lle a lleoliad, dealltwriaeth gysyniadol a gweithdrefnau daearyddol allweddol megis defnyddio gwaith maes a mapiau. Trwy osod daearyddiaeth – y pwnc sy'n ystyried y meysydd dynol a ffisegol mewn ffordd gymharol – yng ngrŵp y dyniaethau, gwelir bod sawl dimensiwn allweddol o ran dulliau meddwl daearyddol yn absennol i raddau helaeth. Os yw'r dyniaethau'n ymwneud â "gofyn cwestiynau am y cyflwr dynol" (t.3), mae pwysigrwydd gwybod a deall prosesau a systemau naturiol, deall tirluniau naturiol neu ddeall effaith pobl ar eu hamgylchedd naturiol yn cael ei chyfyngu i un o bum datganiad Beth sy'n Bwysig. Yn arbennig, ni cheir fawr ddim neu ddim cydnabyddiaeth o gwbl yn y drafft o'r 'gofodol' – prif offeryn cysyniadol y daearyddwr.'* - ***Cymdeithas Pwnc, Ymateb 1359***

*‘O fewn datganiad gweledigaeth y Dyniaethau, ni chyfeirir at Ddehongliad Hanesyddol. Credaf bod angen ei gynnwys yn y datganiad o weledigaeth. Yn ogystal, wrth gyfeirio at 'ddehongliadau' yn y cwricwlwm drafft, a yw hyn yn ymwneud â medr cyffredinol i ddehongli NEU ai dehongliadau hanesyddol ydyw, efallai y dylid nodi 'dehongliadau Hanesyddol' gan bod hynny ychydig yn wahanol i ddehongli. Rydw i'n pryderu ynghylch y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer disgyblion dros 14 oed. Ar hyn o bryd, mae dehongliadau hanesyddol a sgiliau wedi'u seilio ar ffynhonnell yn allweddol gan bod hyn yn arwain at TGAU. Ai hyn fydd yn digwydd wrth i ni fwrw ymlaen o 14 oed ac i fyny?’* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2966***

Roedd nifer o themâu'n ysgogi'r pryderon hyn, gan gynnwys pwysigrwydd pennu dyfnder o ran dealltwriaeth a meithrin gwybodaeth am y pwnc er mwyn cynorthwyo datblygiad a chynnydd. O'r persbectif hwn, mae'r cymwysterau presennol yn breinio meysydd llafur strwythuredig ac arbenigedd pwnc, a dylai'r cynigion gynnal y gydlyniaeth gymharol rhwng y cwricwlwm a'r trefniadau o ran cymwysterau. Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo y byddai grwpio pynciau gyda'i gilydd o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad yn golygu y byddai gofyn i athrawon addysgu y tu allan i'w meysydd arbenigol, gan leihau ansawdd a chysondeb addysgu a dysgu o bosibl:

*‘Er bod y cwricwlwm yn caniatáu hyblygrwydd i athrawon, 'nid ydynt yn gwybod yr hyn nad ydynt yn ei wybod', ac nid yw eu myfyrwyr ychwaith. Mae'n bosibl iawn felly mai dim ond y materion hynny y mae staff / disgyblion yn gyfarwydd â nhw a drafodir.’* - ***Sefydliad Trydydd Sector, Ymateb 2372***

At hynny, amlygodd ymatebydd bryderon ehangach o ran yr addysgeg ynghylch lleoli'r MDPh gyda rhannau eraill o'r cwricwlwm:

*‘Fy mhryder i yw y bydd y pwyslais ar bortffolio yn rheoli'r ffordd y darparir y Dyniaethau ac er fy mod o blaid ymholi, efallai y bydd y gwersi yn ymwneud â chreu prosiect ar draul cyfleoedd dysgu go iawn. Rydw i'n credu mewn cyfleoedd trawsgwricwlaidd hefyd, ond bydd ansawdd y profiad yn ddibynnol iawn ar ddehongliad lleol ac arbenigedd leol. Dyfnder y dysgu yn ddibynnol ar gefndir hyder yr athro a'u cefndir mewn maes penodol. Felly, mae modd rhagweld sefyllfa lle nas rhoddir sylw dyledus i un agwedd ar y Dyniaethau efallai, gan arwain at brofiad tlotach.’* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2303***

Yn yr un modd â'r hyn a welwyd gyda rhannau eraill y cwricwlwm, awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai mwy o gyfarwyddyd o fewn y cwricwlwm sicrhau safonau gofynnol o ran y ddarpariaeth:

*‘O'n profiad ni, mae angen rhoi cyfarwyddyd am rywfaint o'r cynnwys (mae angen rhywfaint o gyfarwyddyd am y beth) er mwyn atal pobl rhag troi at yr hyn y maent yn teimlo'n gyfforddus ag ef yn unig.’* - ***Gweithdy Dyniaethau 1***

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ddisgyblaethau penodol y dylid rhoi mwy o sylw iddynt neu hawliau cliriach iddynt o fewn MDPh y Dyniaethau yn eu barn nhw. Roedd Addysg Grefyddol (AG) yn arbennig o bwysig i rai ymatebwyr:

> *'Mae agweddau hanes a daearyddiaeth ar y dyniaethau yn gweithio'n dda a cheir cyfarwyddyd da er mwyn cynllunio o fewn y camau cynnydd. Mae AG yn creu mwy o her ac fe allai ddatblygu i fod yn ffocws hanes/daearyddiaeth yn hawdd heb gyfle go iawn i athrawon gael datblygiad proff [proffesiynol] ac adnoddau o ansawdd perthnasol.'* - ***Awdurdodau Esgobaethol, Ymateb 2847***

Aeth un ymatebydd gam ymhellach, gan awgrymu y dylid rhoi lle mwy amlwg i gynnwys penodol, a ffynonellau awdurdod yn benodol, yn gynharach yn y camau cynnydd:

> *'Rydym yn croesawu'r ffocws penodol ar rôl ffynonellau awdurdod o fewn llinynnau Addysg Grefyddol y camau cynnydd, a hefyd, y ffocws mwy cyffredinol ar ffynonellau awdurdod o fewn yr MDPh, ond teimlwn y byddai o gymorth ei ymestyn [ar draws camau cynnydd].'* - ***Sefydliad Trydydd Sector, Ymateb 1795***

Cafwyd sylwadau pellach a oedd yn amlygu awgrymiadau penodol iawn mewn perthynas â geiriad neu'r pwyslais ar elfennau penodol o'r MDPh. Roedd y rhain yn tueddu i gael eu gwneud gan ymatebwyr unigol, ac yn aml, roeddent yn codi nifer o faterion:

> *'Mae adrannau Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol yn tueddu i ddefnyddio geiriau fel 'deall', 'ymgysylltu', ac 'ystyried'; ond byddwn i'n awgrymu y dylid rhoi pwyslais ar ferfau (gradd uwch – dosbarthiad Bloom) megis 'creu', 'cyfiawnhau' a 'mynegi' gan mai dyma'r hyn y mae angen i entrepreneuriaid ei wneud! Mae'n ymddangos bod adrannau Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol wedi cael eu hychwanegu ar ôl hynny ac nid ydynt mor benodol â'r dyniaethau eraill, er enghraifft, pam bod y ddau bwnc hwn wedi cael eu cyfuno ac nid yw hanes a daearyddiaeth wedi cael eu cyfuno? (ee ai economeg neu astudiaethau menter gymdeithasol yw'r adran hon? Fel ag y mae, mae cyfuno dau bwnc nad oes rhyw lawer o gyswllt rhyngddynt yn eu tanseilio.'* - ***Corff Llywodraeth Anadrannol, Ymateb 1891***

Mae'n anodd penderfynu'n glir a yw'r safbwyntiau a fynegir yma yn rhai cynrychioliadol o dybiaethau'r gymuned addysgol ehangach. Roedd nifer yr ymatebwyr a fynegodd eu safbwyntiau ynghylch y Dyniaethau yn gymharol fach. Nid yw'r casgliadau cyffredinol a ffurfiwyd gan yr ymatebwyr hynny a fynegodd eu safbwyntiau yn triongli gyda data arall bob amser. Roedd ymatebion yn ystod y gweithdai yn awgrymu bod rhai cyfranogwyr, er enghraifft, yn teimlo'n fwy cadarnhaol am strwythur a chynnwys yr MDPh na'r teimladau a fynegwyd trwy gyfrwng dulliau ymgysylltu eraill. At hynny, roedd ymatebion mwy cyffredinol yn gefnogol o'r pwyslais ar yr iaith Gymraeg ac ar hanes a diwylliant Cymru yn y cwricwlwm.

Ar ben hynny, nid yw data ymateb yn caniatáu gwaith dadansoddi manwl ar sail is-grwpiau, ac mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith nad oedd nifer fawr o ymatebwyr wedi gwneud sylwadau am y Dyniaethau mewn lleoliadau ac eithrio ysgolion uwchradd. Mae'n bosibl bod y pryderon a fynegwyd am yr MDPh yn ymwneud â'r ffordd yr addysgir y Dyniaethau mewn ysgolion uwchradd at ei gilydd, lle y mae'r materion ynghylch arbenigo a dyfnder y wybodaeth yn dod yn fwy taer ym meddyliau'r ymatebwyr.

## 7.1 Cynnydd

Mae cynnydd yn y Dyniaethau yn seiliedig ar y syniad nad yw cynnwys pwnc yn mynd yn fwy cymhleth yn y bôn. Fodd bynnag, mae'n bosibl astudio'r un testun neu faes cynnwys ar wahanol oedrannau, gan ddisgwyl gwahanol lefelau o ran dyfnder a chymhlethdod yn nealltwriaeth ac ymatebion dysgwyr.

O blith yr ymatebion hynny a fynegodd eu safbwyntiau, roedd rhai yn teimlo bod y camau cynnydd yn yr MDPh yn gadarnhaol:

> *'Mae datganiadau "Beth sy'n Bwysig" a'r "Camau Cynnydd" ar gyfer y Dyniaethau yn nodi camau graddedig clir, gan ddangos sut y caiff y cynnydd o gam i gam ei strwythuro. Mae'n iawn bod y cyflwyniad i adran y Dyniaethau yn y Cwricwlwm Drafft (tudalen 10) yn nodi "nad yw cynnwys y pwnc yn mynd yn fwy cymhleth yn y bôn", ac mai esblygiad trwy wahanol ddulliau astudio a dyfnder cysyniadol cynyddol sy'n galluogi dysgwyr i weithredu ar lefelau mwy cymhleth o un cam i'r llall. Caiff y broses ddatblygu hon ei chyfleu'n glir yn yr "Egwyddorion Cynnydd" ar ddechrau adran "Dysgu" (tudalen 21).' -* ***Sefydliad Addysg Uwch, Ymateb 1187***

Roedd ymatebwyr eraill yn adleisio'r teimlad bod pryderon ynghylch yr MDPh yn tueddu i ganolbwyntio ar y ffordd y bydd y Dyniaethau yn gweithio mewn ysgolion uwchradd:


> *'Mae'n ymddangos bod datganiadau Beth sy'n Bwysig a'r camau cynnydd yn cyd-fynd ag addysg gynradd, ond efallai eu bod yn rhy sylfaenol ar gyfer addysg uwchradd. Efallai ei bod yn gwneud mwy o synnwyr cysylltu'r pynciau, ond eu bod yn parhau i fod ar wahân wrth eu darparu, o ganlyniad i anghenion mwy cymhleth y camau cynnydd uwch.' -* ***Pennaeth, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1460***

# 8 Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (LLC) yn galluogi pob dysgwr i feithrin gwybodaeth a sgiliau yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn ieithoedd rhyngwladol, yn ogystal â llenyddiaeth. Pan fo hynny'n berthnasol, bydd ei ddarpariaeth yn cynnwys cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a Saesneg fel ieithoedd ychwanegol (WAL/EAL) ac i ddysgu ieithoedd cartref neu gymunedol eraill hefyd.

Er mwyn archwilio tybiaethau ynghylch MDPh LLC, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod y cyfarwyddyd yn darparu ar gyfer datblygiad dysgu a chaffael iaith. Roedd y rhan fwyaf wedi ymateb yn gymharol dda. Yn gyffredinol, gwelwyd dosbarthiad heb fod yn normal, ac roedd ymatebion da iawn a dim yn dda o gwbl yn fwy cyffredin:

Ffigwr 9.1: C31.1. C4: Pa mor dda y mae'r cyfarwyddyd o fewn Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn darparu ar gyfer datblygiad dysgu a chaffael iaith? Pa mor dda?




N = 533

O blith yr ymatebwyr hynny a oedd yn fwy cefnogol o'r cyfarwyddyd, gan gynnwys y rhai a ymatebodd yn gymharol dda ac yn dda iawn, roeddent yn aml yn amlygu strwythur a bwriad yr MDPh fel rhywbeth sy'n dangos addewid:

> *'Mae'n cynorthwyo ysgolion a lleoliadau i gael hyblygrwydd i nodi a chynllunio yn unol ag anghenion eu dysgwyr. Mae'n ddull gweithredu holistig tuag at anghenion plant. Ceir cysylltiadau trawsgwricwlaidd clir. Mae'r iaith a ddefnyddir yn fwy addas i ddefnyddwyr.'* - ***Cynorthwyydd Addysgu, Ysgol Gynradd, Ymateb 2005***

Yn yr un modd â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill, roedd ymatebwyr a adroddodd ychydig yn dda neu ddim yn dda o gwbl yn aml yn teimlo y byddai mwy o ddyfnder mewn meysydd penodol yn gwella'r deunydd cyfarwyddyd:

> *'Yn gyffredinol, mae'r cyfarwyddyd yn amwys ynghylch sut ddylai datblygiad o ran darllen, ysgrifennu ac iaith lafar edrych, a pha wybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn y meysydd hynny sy'n cyfrannu at lwyddiant dysgwyr yn y ffordd fwyaf effeithiol... Nid yw'r cyfarwyddyd yn ddigon manwl, ac mae'n gadael i ysgolion benderfynu ar yr hyn i'w addysgu ym maes darllen – a sut.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1179***

Awgrymodd grŵp o ymatebwyr y byddai modd cryfhau'r MDPh trwy wneud cyfeiriad mwy amlwg at y ffordd y gallai ymarferwyr ac athrawon hyrwyddo datblygiad iaith cynnar:

> *'Dim cyfeiriad at ddatblygiad iaith cynnar – sy'n holistig ac sy'n gysylltiedig â rôl oedolion wrth gynorthwyo sgiliau cyfathrebu, sy'n cynnwys datblygu sgiliau ar gyfer gwrando, siarad, gwneud marciau, creu a darllen. Nid yw datganiadau Beth sy'n Bwysig sydd wedi'u gwahanu i ddarllen/gwrando; siarad ac ysgrifennu yn briodol i ddysgu llythrennedd cynnar – mae'n berthynas symbiotig na ddylid ei gwahanu.'* - ***Pennaeth Effeithiolrwydd Ysgol, Awdurdod Lleol, Ymateb 1938***

> *'Pryderon sylweddol ynghylch diffyg sgiliau llefaredd cynnar yn ogystal â sgiliau cyn-llythrennedd; mae sgiliau gwrando wedi cael eu cyfuno gyda dealltwriaeth drwyddo. Mae angen cynnwys sgiliau echddygol manwl a bras yn y cyfarwyddyd ar gyfer yr MDPh hwn, gan eu bod yn bwysig iawn wrth ddatblygu ysgrifennu. Mae angen cynnwys disgrifiad llawer manylach o ymwybyddiaeth ffonolegol. Ni roddir digon o sylw i bwysigrwydd caneuon, rhigymau, testun yn yr amgylchedd, creu marciau ac ati.'*- ***Ymateb Ysgol Gyfan, Ysgol Gynradd, Ymateb 2655***


Ar nodyn tebyg, awgrymodd ymatebwyr eraill y byddai modd rhoi mwy o sylw i ffoneg, gramadeg a/neu atalnodi yn y cwricwlwm:

> *'Ni chyfeirir ddigon at rôl ffoneg ym maes addysgu yn CA2 – mae angen ychwanegu hyn.'* - ***Athro Newydd Gymhwyso, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2922***

## 8.1 Y Gymraeg a'r Saesneg fel Ieithoedd Ychwanegol

Wrth archwilio tybiaethau ymatebwyr o rôl y Gymraeg a'r Saesneg yn y cwricwlwm, gofynnwyd iddynt a yw cyfarwyddyd yr MDPh yn darparu ar gyfer dysgwyr yn meithrin sgiliau trawsieithu neu beidio – y broses lle y mae siaradwyr amlieithog yn defnyddio'u hieithoedd fel system gyfathrebu integredig. Roedd y mwyafrif wedi ymateb yn eithaf da:

Ffigwr 9.2: C30.1. C3: Pa mor dda y mae'r adrannau dysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn darparu ar gyfer dysgwyr yn meithrin sgiliau trawsieithu? Pa mor dda?




N = 530

I'r rhai a oedd yn ymateb yn gadarnhaol, roeddent yn teimlo ei fod yn gyfle i hyrwyddo mwy o ddealltwriaeth o'r Gymraeg a'r Saesneg ymhlith plant a phobl ifanc. Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo'n gyffrous am y syniad o weld addysgu dwyieithog yn yr ystafell ddosbarth:

> *'Mae'r darn hwn yn wych, rhoddir cryn dipyn o ffocws arno. Nid oes unrhyw un wedi ei addysgu o'r blaen fodd bynnag, felly rydym yn mynd i fod yn troedio llwybr newydd.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1377***

Yn yr un modd â rhannau eraill o'r cwricwlwm, roedd ymatebwyr yn tueddu i gynnwys rhybuddion gyda'u cefnogaeth ar gyfer y cynigion:

> *'Teimlwyd bod MDPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn darparu ffordd 'Dda iawn' i ddysgwyr feithrin sgiliau trawsieithu. Nodwyd yr angen i gynyddu arbenigedd staff Addysg Bellach ar draws pob maes o fewn ieithoedd tramor modern, yn ogystal â DPP parhaus i staff o ran darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i sicrhau y gall dysgwyr wneud cynnydd. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i arbenigaethau pwnc.'* - ***Sefydliad Addysg Bellach, Ymateb 2820***

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid rhoi mwy o bwyslais ar y Siarter Iaith wrth gynorthwyo'r pontio i addysgu a dysgu mwy dwyieithog. Yn ogystal, awgrymodd ymatebwyr o leoliadau cyfrwng Cymraeg y byddai cyfarwyddyd mwy penodol, yn enwedig mewn perthynas â darparu Saesneg fel ail iaith, o gymorth.

Roedd cysyniad trawsieithu wedi peri penbleth i rai ymatebwyr, nad oeddent yn siŵr sut i ymateb i'r cwestiwn. Roedd eraill wedi mynegi'r farn eu bod yn teimlo bod ansawdd ac felly, budd trawsieithu yn ddibynnol ar feistrolaeth a medrusrwydd athrawon o ran eu sgiliau Cymraeg a Saesneg. O'r persbectif hwn:

> *'Bydd sgiliau 'trawsieithu' dysgwyr yn ddibynnol ar eu hathrawon. Teimlaf y dylai hyn fod yn rhan o feysydd Cymraeg ac IL yr MDPh, ac fel athro Saesneg, nid wyf yn credu y byddai gennyf i fawr iawn i'w gyfrannu i'r medr hwn gan nad yw fy sgiliau ieithyddol i yn ddigon cryf.'* - ***Pennaeth Adran, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1504***

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y ffaith bod prinder staff cymwys, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, i gynnig mwy o ddarpariaeth yn Gymraeg. O'r persbectif hwn, byddai gofyn sicrhau hyfforddiant pellach neu fwy o weithgarwch recriwtio er mwyn gwneud pob lleoliad yn fwy dwyieithog. Mae rhai ymatebwyr wedi nodi'r angen i sicrhau bod cyrsiau hyfforddiant athrawon yn cynnwys rhywfaint o hyfforddiant Cymraeg.

## 8.2 Ieithoedd Tramor Modern

Cynigiwyd myfyrdodau gan rai ymatebwyr am rôl Ieithoedd Tramor Modern (MFLs) o fewn yr MDPh. Teimlwyd bod cynnwys tair iaith, gan gynnwys ieithoedd rhyngwladol, yn gam uchelgeisiol. Ar ben hynny, amlygwyd pryderon ymarferol gan rai ymatebwyr, y gallent danseilio'r ddarpariaeth yn eu barn nhw. Roedd y rhain yn cynnwys recriwtio staff sy'n meddu ar y sgiliau cywir, hyfforddi staff presennol, a'r ymatebion ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn darparu tair iaith mewn ffordd effeithiol:

> *'Pryderon mawr ynghylch MFL a'r Gymraeg. Maent yn sialensiau mawr yng ngoleuni'r cyfyngiadau ar gyllidebau. Mae angen cyllideb enfawr er mwyn gwella sgiliau athrawon ym maes ieithoedd.'* - ***Pennaeth, Ymateb 1036***

> *'Rhaid pwysleisio bod hyn yn ymwneud gyda mwy nag un iaith ryngwladol. Mae angen cyfarwyddyd ar ysgolion a phenaethiaid er mwyn sicrhau eu bod yn neilltuo amser ystyrlon i sicrhau y cefnogir ieithoedd, fel bod disgyblion mewn ysgolion yn cael digon o amser i sicrhau cynnydd ystyrlon.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1489***

Mynegwyd pryderon gan ymatebwyr eraill ynghylch parch cydradd ar draws ieithoedd. Roedd rhai ymatebwyr o ysgolion cynradd, er enghraifft, yn teimlo y gallai'r disgwyliad i ddarparu MFL gael effaith ar addysgu ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg.

## 8.3 Cynnydd

Mae deilliannau cyflawniad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cydnabod na fydd pob dysgwr yn symud ymlaen ar yr un cyflymder neu gyda'r un dyfnder. Mae'r deilliannau cyflawniad ar gyfer 'Dysgu am hunaniaeth a diwylliant trwy ieithoedd yn ein paratoi i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd' yr un fath ar gyfer pob dysgwr ym mhob ysgol.

O blith yr ymatebwyr hynny a gynigiodd safbwyntiau ynghylch y camau cynnydd yn MDPh LLC, roeddent yn cyflwyno darlun cymysg:

> *'Ceir model cynnydd iaith a chamau clir cyfoethog ac ystyriol yma. Byddai wedi bod yn well gennym weld ieithoedd rhyngwladol yn cael eu hintegreiddio o fewn continwwm gyda'r Gymraeg a'r Saesneg, ond gallwn ddeall y dull a fabwysiadwyd.'* - ***Arweinydd Uwch, Sefydliad Trydydd Sector, Ymateb 2783***

> *'Mae gofyn cael mwy o eglurder a manylder yn y camau cynnydd. Byddai rhoi mwy o sylw i elfennau sylfaenol datblygiad iaith o gymorth.'* - ***Corff Llywodraethu, Ymateb 1828***

Roedd thema allweddol a oedd yn rhedeg ar draws yr ymatebion a fynegodd safbwyntiau yn ymwneud â'r cydbwysedd rhwng cynnydd yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ieithoedd cyntaf. O'r persbectif hwn, teimlwyd y gallai'r fformwleiddiad cyfredol roi'r iaith Gymraeg dan anfantais:

> *'O ran Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, credaf y byddai o fudd mawr pe bai'r disgwyliadau neu'r camau cynnydd ar gyfer Cymraeg fel Ail iaith yn cael eu nodi mewn ffordd amlwg iawn, ar hyn o bryd, nid yw'r camau cynnydd yn ymwneud ag iaith yn benodol ac mae'n amlwg na allwch chi ddisgwyl i rywun sy'n dysgu Cymraeg i fod ar yr un cam cynnydd ar gyfer eu hiaith gyntaf ag y maent ar gyfer ail iaith. Byddai hyn yn wir hefyd am unrhyw blentyn y mae'r Saesneg yn ail iaith iddynt. Mae cam cynnydd 3 yn rhoi'r casgliad hefyd y dylai disgyblion iau hŷn fod yn dysgu trydedd iaith, ac mae hyn yn newid mawr iawn i ysgol gynradd yn y cwricwlwm presennol, a byddai'n faich sylweddol ar staff addysgu. Teimlaf na ddylid cyflwyno'r iaith ychwanegol hon tan gyfnod allweddol 3 neu y dylid nodi'n glir yn y cyfarwyddyd nad yw hwn yn ddisgwyliad ar gyfer ysgolion cynradd.'* - ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 2090***

Cafwyd ymateb ychwanegol ynghylch y camau cynnydd a cyfathrebu di-eiriau. Mae hyn o bosibl yn codi ystyriaethau ehangach ynghylch addasrwydd a thegwch cynnydd yn gyffredinol. Pan ofynnwyd a oeddent yn creu bod y cyfarwyddyd drafft yn galluogi dysgwyr i sicrhau cynnydd ar gyflymder priodol neu beidio, dyma farn un ymatebydd:

> *'Da iawn; fodd bynnag, mae angen enghreifftio Cam Cynnydd 1 yn LLC Siarad ac Ysgrifennu er mwyn cyfleu ystyr Siarad, oherwydd y gall disgyblion di-eiriau gynnwys defnyddio technoleg neu iaith arwyddion.'* - ***Arweinydd Uwch, Ysgol Arbennig, Ymateb 3411***

Adleisiwyd y teimlad hwn gan y Comisiynydd Plant:

> *'Rhaid i'r Llywodraeth geisio sicrwydd arbenigol bod hawliau dysgu y cwricwlwm yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai y mae Iaith Arwyddion Prydain yn iaith gyntaf iddynt.'* - ***Comisiynydd Plant, Ymateb 2516***

# 9 Mathemateg a Rhifedd

Mae mathemateg yn ddisgyblaeth ryngwladol, ac mae rhifedd, sy'n ymwneud â defnyddio mathemateg, yn cyflawni rôl hanfodol yn ein bywydau preifat, cymdeithasol a dinesig, ac yn iechyd economaidd y genedl. Mae'n hollbwysig bod profiadau mewn perthynas â mathemateg a rhifedd mor ymgysylltol, cyffrous a hygyrch ag y bo modd i ddysgwyr, a'u bod yn sicrhau bod dysgwyr yn meithrin cydnerthedd mathemategol (y gallu i groesawu her fel agwedd gadarnhaol ar ddysgu). Mae datblygu cydnerthedd mathemategol yn cyfrannu at ddatblygiad dysgwyr uchelgeisiol a galluog.

Ar y cyfan, roedd hi'n ymddangos bod ymatebwyr yn cefnogi'r dull a fabwysiadwyd yn yr MDPh:

> *'Rydym yn cytuno, os caiff y cwricwlwm ei ddatblygu yn unol â'r athroniaeth gyfredol, y bydd y pedwar diben craidd yn galluogi ddisgyblion i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol ac ati yn llawn. Ceir pryderon ynghylch cynnwys presennol y cwricwlwm Mathemateg. Mae angen lleihau cynnwys y cwricwlwm er mwyn galluogi disgyblion i ddatblygu'r dibenion craidd hyn trwy gyfrwng dysgu annibynnol, dilys. O'n hystyriaethau cychwynnol, rydym yn cytuno bod datganiadau "Beth sy'n Bwysig" yn glir ac yn briodol i'r sgiliau mathemategol y mae angen i ddisgyblion eu caffael yn eu dysgu.'* - ***Pennaeth, Ysgol Uwchradd, 2792***

Roedd thema a welwyd yn rhedeg trwy rai ymatebion i'r MDPh ac a oedd yn cyd-fynd ag adborth arall, yn ymwneud â hygyrchedd y cyfarwyddyd, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr pwnc. Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai modd gwella'r MDPh trwy wneud cyfeiriad mwy amlwg i wahanol ddulliau gweithredu pedagogaidd i addysgu a dysgu:

> *'[Yn nogfen Dyfodol Llwyddiannus] mae Donaldson (tudalennau 63 a 65) yn dweud nad yw ei adolygiad yn cefnogi unrhyw addysgeg benodol: "I fod yn glir, nid yw'r argymhellion yn yr Adolygiad hwn yn awgrymu pwyslais ar unrhyw ddulliau addysgu penodol"; "Mae addysgu a dysgu da yn golygu defnyddio cyfuniad o dulliau gan gynnwys addysgu uniongyrchol". Mae tudalen 17 y cyfarwyddyd statudol drafft ar gyfer Mathemateg yn nodi "Nid yw'r cwricwlwm Mathemateg a Rhifedd yn argymell un addysgeg benodol". Fodd bynnag, ceir sawl man lle y mae'n ymddangos bod y cwricwlwm yn argymell addysgeg benodol ee Tudalen 16 "Ar draws MDPh Mathemateg, ceir pwyslais ar ymgysylltu dysgwyr gyda'u dysgu mewn ffordd weithredol, trwy gyfeirio at, er enghraifft, archwilio, ymchwilio, chwarae a chasglu." Dyma un o blith nifer o enghreifftiau y mae'n ymddangos eu bod yn awgrymu y dylem ddefnyddio dulliau lluniadaethol / darganfod / seiliedig ar broblemau / profiadol / wedi'u seilio ar ymchwilio yn unig, yn groes i argymhellion Donaldson ac yn groes i'r dystiolaeth am yr hyn sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau.'* - ***Pennaeth Cyfadran, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2978***

Gwelwyd pryderon mwy penodol ynghylch defnydd iaith i fframio'r MDPh, yn enwedig gan ymatebwyr o leoliadau meithrin a chynradd. Codwyd y materion hyn mewn ymatebion ar-lein ac yn ystod grwpiau ffocws. Roedd y pryderon yn canolbwyntio ar yr iaith dechnegol a ddefnyddir i ddisgrifio rhai o'r agweddau manylach ar yr arweiniad.


## 9.1 Cynnydd

Mae cynnydd mewn Mathemateg a Rhifedd yn cynnwys datblygu'r medrusrwydd cydgysylltiedig a chyd-ddibynnol canlynol.

- Dealltwriaeth gysyniadol: meddu ar wybodaeth ddigonol i ddeall ac esbonio cysyniad mathemategol.
- Cyfathrebu gyda symbolau.
- Cymhwysedd strategol (h.y. fformiwleiddio problemau mewn ffordd fathemategol er mwyn eu datrys).
- Rhesymu rhesymegol.
- Rhuglder.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor dda y mae'r camau cynnydd yn yr MDPh yn cyfleu egwyddorion cynnydd yn eu barn nhw. Roedd y rhan fwyaf wedi ymateb yn eithaf da neu'n dda iawn, sy'n awgrymu bod pobl yn teimlo, ar y cyfan, bod y cyfarwyddyd yn fanwl ac yn ddefnyddiol:

Ffigwr 10.1: C29.1. C2: Pa mor dda y mae'r camau cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd yn cyfleu'r medrusrwydd a ddangosir yn yr egwyddorion cynnydd? Pa mor dda?




N = 529

Yn yr un modd â'r hyn a welwyd gyda chwestiynau eraill, roedd y rhai a ymatebodd mewn ffordd fwy cadarnhaol yn llai tebygol o ymhelaethu ar eu safbwyntiau. O blith yr ymatebwyr hynny a wnaeth, mae'n ymddangos bod nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod y cyfarwyddyd o gymorth wrth ddeall yr MDPh:

> *'Clir a chynhwysfawr. Wrth i ni weithio drwyddynt, teimlaf y gellir gwneud mwy o sylwadau ynghylch sut y byddai modd eu darparu. Rhaid i ni gofio cynnwys y camau a sicrhau bod y pynciau a ddewisir yn caniatáu hyn.'* - ***Athro, Ysgol Gynradd, Ymateb 2393***

O blith amrediad yr awgrymiadau a'r arsylwadau a gynigiwyd gan yr ymatebwyr, gwelwyd un yn myfyrio am y ffordd y byddai'r camau cynnydd yn cael eu darparu mewn ystafelloedd dosbarth gallu cymysg:

> *'Teimlaf bod y cwricwlwm newydd yn arwain at addysgu mathemateg mewn dosbarthiadau gallu cymysg, a byddai hyn yn anodd i'w reoli fel athro dosbarth. Mae'r syniad lle y gall pob disgybl sicrhau cynnydd ar gyflymder sy'n addas iddyn nhw fel unigolion yn wych. Fodd bynnag, gallai hyn arwain at rai disgyblion MAT ac ADY yn dechrau yn yr ysgol uwchradd ac yn gweithio ddwy flynedd yn uwch neu ddwy flynedd yn is na'u grŵp oedran cyfredol. Felly, byddai'n anodd rheoli hyn fel athrawon dosbarth.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1177***

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai modd gwella'r cydbwysedd rhwng y camau trwy gyfrwng mwy o gysondeb, yn ogystal â'u cydlyniaeth gyda'r medrusrwydd:

> *'Nid yw'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer pob cam cynnydd yn y pedwar maes yn gyson. Mae'n ymddangos bod cam cynnydd pump ar gyfer rhif ac algebra yn llawer mwy heriol na cham cynnydd pump ar gyfer geometreg ac ystadegau. Yn ogystal, ni sonnir am y medrusrwydd ym mhob cam cynnydd.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1177***

Roedd y pryderon mwyaf cyffredin ynghylch cynnydd yn ymwneud â hygyrchedd y dogfennau, ac roedd hwn yn safbwynt a oedd yn fwy tebygol o gael ei fynegi gan ymarferwyr ac athrawon lleoliadau meithrin a chynradd. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai modd cryfhau'r cyfarwyddyd trwy ddarparu enghreifftiau o sut y gallai cynnydd weithio mewn gwirionedd:

> *'Gellir gweld cydraddoldeb rhwng y camau Cynnydd a'r medrusrwydd a ddangosir yn yr egwyddorion cynnydd; fodd bynnag, mae'r derminoleg yn llawer rhy gymhleth yn yr egwyddorion cynnydd a gallai diffyg dealltwriaeth arwain at beidio defnyddio'r egwyddorion mewn ffordd gywir.'* - ***Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar, Ymateb 2005***

# 10 Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn defnyddio disgyblaethau bioleg, cemeg, cyfrifiadureg, dylunio a thechnoleg, a ffiseg er mwyn gwella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r byd. Mae datblygiadau ym maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg wastad wedi bod yn ysgogwyr newid mewn cymdeithas, gan gynnig sylfaen ar gyfer arloesi a chan effeithio ar fywydau pawb – yn faterol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol. O'r herwydd, bydd y maes dysgu a phrofiad hwn yn berthnasol yn gyson yn y cyfleoedd y bydd pobl ifanc yn dod ar eu traws a'r dewisiadau bywyd y byddant yn eu gwneud.

Yn gyffredinol, croesawyd gwyddoniaeth a thechnoleg gan yr ymatebwyr hynny a gynigiodd safbwyntiau:

> *‘Rydw i wedi ystyried pob un ohonynt. Yn fy marn i, mae dogfen ddrafft MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn well na rhai o'r meysydd eraill (e.e. Dyniaethau, LLC) oherwydd y gallwch weld y pynciau yn glir, e.e. Bioleg, Cemeg a Ffiseg (yn ogystal ag ymholi) yn natganiadau Beth sy’n Bwysig. Bydd hyn yn caniatáu i arbenigwyr pwnc gael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol er budd ein dysgwyr ac er budd Cymru.’* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2274***

> *‘Mae'r fersiynau hawdd i'w darllen yn llawer haws i'w defnyddio. Rydym yn gefnogol o'r cwricwlwm gwyddoniaeth a thechnoleg arfaethedig. Mae'n glir ac rydym yn hoffi'r ffocws ar wybodaeth, sydd ar goll o'r cwricwlwm presennol.’* - ***Athro, Ysgol Gynradd, Ymateb 2588***

> *‘Ar y cyfan, mae MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn ddymunol. Yn fy marn i, ni ddylai gatiau rhesymeg fod yn rhan o'r MDPh hwn. Mae'r ffaith bod yr agwedd wyddonol wedi cael ei rhannu'n dri maes o fudd ac mae'n gweithio'n dda. Byddai'n well cael yr holl feysydd yn gysylltiedig – deilliannau cyflawniad, profiadau, a'r angen i fod yn gallu, efallai ar ffurf tabl.’* - ***Arweinydd Uwch, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2743***

O ystyried yr ymatebion, mae'n bosibl bod ymatebwyr yn dehongli datganiadau Beth sy’n Bwysig fel rhai sy'n cynrychioli terfynau pwnc traddodiadol yn fras. At hynny, roedd ymatebwyr wedi cynnig adborth manwl iawn, a fforensig bron, am eiriad a chynnwys yr MDPh:

> *‘Nid ydych chi wedi cynnwys Gwyddorau'r Ddaear, Gwyddorau Amgylcheddol, a moeseg gwyddonol. Mae'r tri maes hwn yn allweddol ar gyfer datblygiad gwyddoniaeth yn y byd modern.’* - ***Prif Arholwr, Sefydliad Dyfarnu, Ymateb 2262***

*'A ddylai defnyddio gatiau rhesymeg er mwyn datrys problemau rhesymeg syml" fod yn yr adran gyfrifiannu, nid adran Ffiseg (Mae grymoedd ac ynni yn pennu strwythur a dynameg y bydysawd)? A ddylai 'ymbelydredd niwclear' fod yn Ffiseg, nid Cemeg? Yn Ffiseg, mae camau cynnydd 4 a 5 o fewn Profiad, Gwybodaeth a sgiliau ar gyfer Grymoedd a Symud yn union yr un fath o ran yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei wybod, ei brofi a gallu ei wneud... nid yw hyn yn dangos cynnydd mewn ffordd glir pan fo'r datganiadau mor eang, felly mae gofyn cael eglurder er mwyn dadansoddi'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig yn PC4 ac yna yn PC5 yn union.' -* ***Arweinydd Uwch, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1193***

*'Ar adeg pan gaiff y newid yn yr hinsawdd ei ddisgrifio'n gynyddol fel argyfwng neu drychineb, teimlwn hefyd ei bod yn bwysig bod gan bob dysgwr lythrennedd sylfaenol am yr hinsawdd. O ystyried hyn, mae gennym ddau argymhelliad: yn gyntaf, rydym yn gwybod o'n gwaith yn hyfforddi ac yn ymgysylltu gyda miloedd o athrawon bod y tywydd a'r hinsawdd yn fater y maent yn teimlo'n lleiaf hyderus i'w addysgu. Rydym yn gwybod hefyd o gwricwla presennol a blaenorol o gwmpas y cenhedloedd, os na wneir cyfeiriad penodol at y tywydd a hinsawdd mewn cwricwla, nad ydynt yn tueddu i gael eu haddysgu... Yn ail, er ein bod yn croesawu'r ffaith y gwneir cyfeiriad penodol at y newid yn yr hinsawdd yn y cwricwlwm mewn sawl man, rydym yn gwybod bod addysgu am y newid yn yr hinsawdd heb i hyn fod yn seiliedig ar sylfaen dda o ran y tywydd a hinsawdd, yn gallu arwain at gamddealltwriaeth a chamdybiaethau.' -* ***Cymdeithas Pwnc, Ymateb 2598***

*'Gan gyfeirio'n benodol at Wyddoniaeth a Thechnoleg, nid yw datganiadau Beth sy'n Bwysig yn cynrychioli ehangder llawn y gwyddorau. Nid oes rheswm amlwg dros gynnwys tonnau neu drydan yn y cynnwys ar sail y datganiad Beth sy'n Bwysig. Ar ben hynny, mae'r datganiad Beth sy'n Bwysig wedi dewis dau swm o fewn ffiseg (ynni a grymoedd) mewn ffordd fympwyol, gan nodi mai'r rhain yw'r rhai pwysicaf. Safbwynt rhesymol o esboniadau ffiseg yw eu bod yn dibynnu ar yr hyn y gwnaethpwyd y bydysawd ohono (endidau'r Bydysawd) a sut y mae'r endidau hynny yn ymddwyn (y rhyngweithio rhyngddynt ac effeithiau'r rhyngweithio hwnnw). Nid yw'r datganiad fel ag y mae yn gwneud unrhyw gyfeiriad at endidau'r Bydysawd (protonau, niwtronau, electronau, planedau, sêr, mater), y ffyrdd y cânt eu diffinio neu eu nodi (o ran màs, gwefr, ac ati) a'r ffyrdd niferus y maent yn rhyngweithio neu sut y byddwn yn dadansoddi'r rhyngweithio rhyngddynt, dim ond grym ac ynni sydd wedi cael eu cynnwys, er gwaethaf y ffaith bod y ddau ohonynt yn ddyfeisiau damcaniaethol yn hytrach na phethau sy'n 'bodoli' mewn gwirionedd. Nid yw ynni yn pennu strwythur y bydysawd yn fwy nag y mae pellter, tymheredd neu unrhyw fecanwaith cyfrif arall yn ei wneud.' -* ***Cymdeithas Ddysgedig, Ymateb 1685***

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai ehangder y dysgu ar draws yr MDPh fod yn anodd i'w ddarparu:

> *'Mae'r MDPh newydd yn gynhwysfawr iawn ac mae'n cynnwys pob posibilrwydd, ond bydd yn dasg enfawr (o ystyried ehangder y sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn darparu set lawn datganiadau Beth sy'n Bwysig). Bydd codio a DTh dan yr un ymbarél â'r gwyddorau traddodiadol yn her ddiddorol i'w bodloni.'* - ***Athro, Ysgol Gynradd, Ymateb 1058***

> *'Esbonnir pob maes yn dda; fodd bynnag, ceir llawer o ddogfennaeth i'w darllen, a gan fy mod i'n gweithio gyda phlant 3 oed yn unig, byddai angen i mi ailfeddwl am faint y bydd plentyn yn ei gyflawni ym mhob maes yn ystod y cyfnod pan fyddant mewn lleoliad nas cynhelir. Hoffwn weld y ddogfen gyflawn 3-5 mlynedd ar gyfer yr oedran hwn.'* - ***Ymarferydd, Lleoliad Nas Cynhelir a Ariannir, Ymateb 1844***

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r dull thematig wanhau'r wybodaeth a fyddai'n bwysig yn eu barn nhw er mwyn i blant a phobl ifanc symud ymlaen trwy'r MDPh:

> *'Yng Ngwyddoniaeth, mae angen cynnwys cyfarwyddiadau amlwg gydag enghreifftiau, a ddilynir gan sgaffaldiau a dynnir i ffwrdd yn raddol er mwyn cynyddu'r her. Yna, bydd disgyblion yn dod yn fwyfwy annibynnol, gan ddibynnu llai ar arbenigedd yr athro. Mae'n destun pryder bod rhai ymarferwyr cynradd yn gwthio agenda am ddull thematig heb unrhyw strwythur, na fydd yn gweithio mewn lleoliadau uwchradd, lle y mae gwybodaeth yn rhan mor bwysig wrth i ddisgyblion ddefnyddio eu sgiliau.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2764***

Ar ben hynny, mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr y gallai'r MDPh yn ei ffurf bresennol wanhau disgyblaethau a thanseilio cynnydd yn y gwyddorau y tu hwnt i'r cwricwlwm:

> *'Dylem bwysleisio ei bod yn bwysig y disgwylir i bob dysgwr astudio'r holl wyddorau nes byddant yn 16 oed. Beth methu gwneud hynny yn cau drysau i ddysgwyr ar adeg pan nad yw'n rhesymol disgwyl eu bod wedi ffurfio barnau am y pynciau y maent yn eu mwynhau ac y maent yn dda ynddynt. Ceir risg hefyd y bydd hyn yn cael effaith ddyfnach ar niferoedd y merched a'r myfyrwyr BAME sy'n dewis dilyn pynciau STEM.'* - ***Cymdeithas Ddysgedig, Ymateb 1685***

I'r gwrthwyneb, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yr MDPh yn cynnwys gormod o fanylder:

> *'Mae'n amlwg bod MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cael ei yrru gan ddull o'r brig i lawr, heb unrhyw ddealltwriaeth o natur holistig dysgu plant ifanc – mae'n darllen fel cwricwlwm gwyddoniaeth ysgol uwchradd: hyd yn oed yn fwy na'r cwricwlwm presennol. Mae angen iddo fod yn fwy archwiliadol ac wedi'i seilio ar chwarae, a dylai sgiliau gyfrannu ato, nid deunydd pwnc manwl a chyfarwyddol.'* - ***Ymateb Ysgol Gyfan, Ysgol Gynradd, Ymateb 2655***

Yn yr un modd â rhannau eraill y cwricwlwm yn fwy bras, mae'n ymddangos bod tensiwn rhwng yr ymatebwyr hynny sy'n ceisio mwy o fanylder o fewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'r rhai sydd o'r farn ei fod yn rhy gyfarwyddol efallai. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu y gallai'r safbwyntiau hyn fod yn fwy amlwg ymhlith gwahanol grwpiau o ymatebwyr, wrth i'r rhai o leoliadau cynradd fod yn fwy tebygol o adrodd bod y cyfarwyddyd yn cynnwys gormod o wybodaeth.

Gwelwyd rhai ymatebwyr yn mynegi materion a phryderon y maent y tu hwnt i'r MDPh ei hun:

> *‘Mae fy mhryderon i yn rhai ymarferol. Ceir argyfwng cenedlaethol o ran recriwtio athrawon Gwyddoniaeth, yn enwedig rhai Cemeg a Ffiseg. Ceir unigolion nad ydynt yn arbenigwyr yn addysgu gwyddoniaeth yn y rhan fwyaf o ysgolion yng Nghymru. Ceir pryder gwirioneddol y gallai'r cwricwlwm newydd fod yn fodd o wanhau cwricwlwm gwyddoniaeth fel y gall gael ei addysgu yn hawdd gan unigolion nad ydynt yn arbenigwyr.’* - ***Pennaeth, Ysgol Ganol, Ymateb 2744***

> *‘Mae rhai o'r meysydd i'w hystyried yn cymryd bod angen lefel uchel o wybodaeth addysgu. Yn y sector cynradd, efallai y bydd gennych chi athro sydd â chymhwyster Lefel O mewn Bioleg ac ychydig wybodaeth am TGCh. Rydym yn “Siôn bob swydd” a bydd angen hyfforddiant ychwanegol ar gyfer rhywfaint o'r wybodaeth a fydd yn ofynnol, er mwyn sicrhau y caiff ei haddysgu yn dda.’* - ***Arweinydd Uwch, Ysgol Gynradd, Ymateb 1610***

## 10.1 Cynnydd

Caiff cynnydd dysgwyr mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg ei ddatblygu trwy brofi a datblygu gwybodaeth mewn amrediad o syniadau, cysyniadau ac egwyddorion cysylltiedig, gan ymwreiddio sgiliau ymarferol ac ehangach drwy'r amser er mwyn diffinio problem, archwilio syniadau, creu datrysiadau a chyfiawnhau dewisiadau. Mae'r 'Egwyddorion Cynnydd' a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu deilliannau cyflawniad yn y maes dysgu a phrofiad hwn yn cael eu cynnwys yn yr adran 'Dysgu' dan bob datganiad Beth sy’n Bwysig.

Roedd ymatebwyr wedi cynnig amrediad o safbwyntiau ynghylch cynnydd. Roedd cyfanswm y cyfarwyddyd yn thema allweddol, yn ogystal â gallu darllenwyr i lywio trwy'r cynigion:

*'Nid yw'r ddogfen gwyddoniaeth a thechnoleg yn un hawdd i'w defnyddio. Mae'n anodd dilyn y cynnydd trwy'r MDPh hwn. Mae gofyn troi nifer fawr o dudalennau. Y pwyntiau da yw bod rhywfaint o gyfarwyddyd am yr hyn y mae angen ei gynnwys o ran y manylion yn "adrannau profiadau, gwybodaeth a sgiliau" Mae hyn yn arbennig o bwysig gyda chynnydd o 3-16, yn enwedig pan fydd ysgolion cynradd yn ansicr am yr hyn y mae angen ei gynnwys efallai. Mae'r datganiadau hyn yn galonogol - "Wrth i ddysgwyr sicrhau cynnydd yn eu dysgu Gwyddoniaeth a Thechnoleg, yn enwedig mewn lleoliadau uwchradd, ceir disgwyliad y byddant yn profi addysgu pwnc arbenigol." A "Dylai addysgu arbenigol wella a bod yn rhan annatod o ddulliau amlddisgyblaethol wrth gynllunio'r cwricwlwm, ac mae'n hanfodol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu paratoi yn y ffordd orau ar gyfer dysgu ôl-16 pellach."' - **Athro, Ysgol Uwchradd, Ymatebydd 2232***

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y camau cynnydd yn gytbwys, a bod y cyfarwyddyd amdanynt yn glir:

*'Mae adrannau'r cwricwlwm drafft yr ydym wedi'u hastudio yn adlewyrchu cyflymder datblygu priodol yn y gwyddorau, gan gymryd bod y camau cynnydd yn dynodi disgwyliadau bras pan fydd disgyblion yn 5 oed, yn 8 oed, yn 11 oed, yn 14 oed ac yn 16 oed. Mae'r cyfarwyddyd yn glir y disgwylir i athrawon gynorthwyo dysgwyr i sicrhau cynnydd trwy'r fframwaith ar gyflymder sy'n briodol iddyn nhw... nid yw mor glir sut y cyflawnir hyn mewn gwirionedd. Bydd y ffocws a'r ddibyniaeth ar asesu a safoni gan athrawon, a'r pwyslais ar hunanasesu, asesu gan gyfoedion a defnyddio e-bortffolios yn newid o ran y pwyslais i nifer o athrawon. Bydd yn gofyn am hyfforddiant, ymarfer ac amser i ymwreiddio'r ffordd newydd o weithio. Mae'n debygol y bydd gofyn darparu hyfforddiant ychwanegol er mwyn gallu pennu deilliannau cyflawniad ar lefel ysgol.' - **Cymdeithas Ddysgedig, Ymateb 1089***

Roedd ymatebwyr eraill, fodd bynnag, yn teimlo bod y camau cynnydd yn rhy amwys:

*'Mae'r camau cynnydd fel ag y maent yn rhy amwys er mwyn gallu dangos effaith... mewn sawl achos, mae'n anodd pennu unrhyw wahaniaeth clir rhwng PS1 a PS5.' - **Cymdeithas Ddysgedig, Ymateb 1685***

At hynny, mynegwyd y thema sy'n codi dro ar ôl tro mewn perthynas â gwerth cynnwys awgrymiadau ymarferol ac enghreifftiau ynghylch cynnydd mewn rhai ymatebion:

*'Mae datganiadau Beth sy'n Bwysig MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn eiriog iawn ac yn eithaf anodd i'w deall. Yn ogystal, hoffwn gael rhagor o syniadau am wersi/gweithgareddau ar gyfer pob cam cynnydd.' - **Athro, Ysgol Gynradd, Ymateb 2842***

# 11 Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Law yn llaw â Meysydd Dysgu a Phrofiad, ac yn eu cynorthwyo, ceir nifer o gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd sy'n fframio ac sy'n cysylltu'r dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae'r adran hon yn amlygu safbwyntiau ymatebwyr am y cyfrifoldebau hyn.


Mae cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cynorthwyo'r holl ddysgu bron, ac maent yn hanfodol i ddysgwyr er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y byd modern mewn ffordd hyderus a llwyddiannus.

Mae angen ystyried llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel rhan o'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm ar lefel ysgol ar draws pob maes dysgu a phrofiad. Maent wedi cael eu hymwreiddio yng nghyfarwyddyd Cwricwlwm i Gymru 2022, lle y maent yn cynorthwyo'r dysgu a nodir yn yr arweiniad meysydd dysgu a phrofiad. Bydd pob lleoliad ac ysgol yn gyfrifol am gynllunio cynnydd ar draws ystod lawn llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol mewn ffordd hyblyg, a fydd yn briodol i anghenion dysgwyr unigol.

Er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu lefelau cymhwysedd uchel yn y sgiliau hyn a'u bod yn cael cyfleoedd cyson i'w datblygu, eu hymestyn a'u gweithredu ar draws y cwricwlwm, bydd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (LNF) a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (DCF) ar gael o hyd. Gwneir gwaith yn 2019 i ddiwygio cynnwys y fframweithiau er mwyn sicrhau eu bod yn cyn-fynd â'r cynnydd a nodwyd yng nghyfarwyddyd Cwricwlwm i Gymru 2022.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi a oeddent yn teimlo bod y cyfarwyddyd yn cynorthwyo dysgwyr i feithrin sgiliau yn y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Roedd y mwyafrif wedi ateb yn gymharol dda neu'n dda iawn:

Ffigwr 12.1: C17.1. B5: Yn eich barn chi, pa mor dda y mae cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cynorthwyo dysgwyr i feithrin sgiliau yn y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol) ac mewn themâu trawsbynciol eraill (e.e. dimensiwn Cymreig a phersbectif rhyngwladol, sgiliau ehangach, gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith, addysg cydberthynas a rhywioldeb)? Pa mor dda?




N = 896

Roedd ymatebion cadarnhaol yn canolbwyntio ar faterion megis eglurder y cyfarwyddyd a sut y mae'n adlewyrchu arfer da presennol:

> *'Ceir cyfarwyddyd a disgwyliadau clir am amrediad y sgiliau y mae angen eu cynnwys. Caiff y ffordd y maent yn cyd-fynd â phob MDPh ei chyfleu'n dda er mwyn caniatáu i ni eu hymwreiddio mewn ffordd effeithiol.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2764***

> *'Mae'r cwricwlwm drafft yn cynnig mwy o ryddid i gynllunio prosiectau o fywyd go iawn er mwyn datblygu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac mae athrawon yng Nghymru yn gyfarwydd gyda'r gwaith o ddarparu rhaglenni trawsgwricwlaidd.'* - ***Sefydliad Trydydd Sector, Ymateb 1273***

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y gallai'r dull trawsgwricwlaidd fod yn ddull effeithiol wrth gynorthwyo datblygiad sgiliau a chymwyseddau allweddol:

> *'Mae cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cynorthwyo dysgu trawsgwricwlaidd mewn ffordd gymharol dda, gan waredu'r pynciau unigol er mwyn ffafrio dull sy'n darparu cyd-destun, ac felly, y potensial o sicrhau mwy o ddealltwriaeth o'r pynciau hynny.'* - ***Sefydliad Trydydd Sector, Ymateb 2224***

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylent gael rôl amlycach yn y cwricwlwm:

> *'Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ddogfen fanwl sy'n cynnwys camau cynnydd clir. Credaf y dylid defnyddio hon mewn ysgolion er mwyn ysgogi'r disgwyliadau ar gyfer disgyblion. Dylid rhoi mwy o bwys ar yr LNF a'r DCF. Mae swm aruthrol y lenyddiaeth ym mhob cam cynnydd yn gwaredu pwysigrwydd y sgiliau allweddol hyn yn y cwricwlwm.'* - ***Llywodraethwr, Ysgol Gynradd, Ymateb 1787***

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai modd cryfhau'r cyfarwyddyd trwy gynnwys enghreifftiau a chynlluniau gwersi, yn ogystal â symleiddio'r cyfarwyddyd er mwyn helpu darllenwyr i lywio trwy'r deunyddiau:

> *'Mae hwn mor ddryslyd i mi! A fyddai modd ychwanegu'r sgiliau a'r themâu hyn dan benawdau y gwahanol feysydd dysgu, hyd yn oed os byddant yn cael eu hailadrodd ar draws gwahanol feysydd – oherwydd rydw i'n cytuno y dylid integreiddio nifer o sgiliau mewn ffordd holistig ar draws pob maes dysgu.'* - ***Arweinydd Uwch, Lleoliad Nas Cynhelir a Ariannir, Ymateb 2085***

> *'Mae'r ddogfennaeth yn caniatáu cryn dipyn o ryddid a disgresiwn i ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd. Unwaith eto, byddai modd cryfhau hyn trwy wneud mwy o gyfeiriad at enghreifftio a/neu lasbrintiau awgrymedig i gynorthwyo ysgolion, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn meithrin sgiliau o'r fath a'u bod yn cael cysondeb o ran y profiad trwy gydol eu dysgu.'* - ***Darlithydd, Sefydliad Addysg Uwch, Ymateb 1427***

> *'Mae'n hanfodol creu un ddogfen sy'n cynnwys yr holl gyfarwyddyd. Gan nad oedd unrhyw leoliadau arloesi'r blynyddoedd cynnar i ymgysylltu â nhw, mae sector y blynyddoedd cynnar yn dechrau dan anfantais gan na fu modd iddo fynychu trafodaethau tan yn hwyrach na'r disgwyl.'* - ***Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar, Ymateb 2005***

Roedd ymatebwyr eraill wedi cynnwys rhybuddion gyda'u cefnogaeth, gan awgrymu y gallai amrediad o bryderon ymarferol danseilio addysgu a dysgu ar draws y gwahanol gyfrifoldebau, gan gynnwys sut y cânt eu hymwreiddio:

> *'Mae'r cysyniad yn dda – bydd yn anos ei weithredu.'* - ***Llywodraethwr, Ymateb 2128***

> *'Os caiff pethau eu cynllunio a'u darparu yn gywir, bydd yn sicrhau bod cyfleoedd trawsgwricwlaidd yn digwydd mewn ffordd bwrpasol, ac mewn ffordd sy'n cynnwys yr holl anghenion a gofynion, llythrennedd, ac ati, gan gynnwys y dimensiwn Cymreig, sgiliau ehangach, gyrfaoedd ac addysg cydberthynas a rhywioldeb. Y peth allweddol yw'r angen i integreiddio'r elfennau hyn, nid eu gosod fel haenau ar ben cynnwys pwnc penodol.'* - ***Arall, Ymateb 2217***

> *'Mae angen i ysgolion gynllunio'n ofalus dros y tymor hir a'r tymor canolig er mwyn cynnwys yr holl elfennau uchod, gan sicrhau bod cyfle ar gyfer dysgu a phrofiadau trawsgwricwlaidd. Mae cyfleoedd i werthuso yn hanfodol hefyd. Mae profiadau o fywyd go iawn yn cynnig sylfaen i'r cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn y meysydd hyn.'* - ***Pennaeth, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2902***

Y tu hwnt i'r cyfrifoldebau eu hunain, codwyd nifer o gyfyngiadau posibl gan yr ymatebwyr wrth gyflawni yn erbyn y cyfrifoldebau:

> *'Rhaid integreiddio cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn Beth sy'n Bwysig er mwyn sicrhau darpariaeth. Ni ellir darparu'r gofyniad ynghylch yr iaith Gymraeg ar hyn o bryd o ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Mae angen i athrawon ddod yn hyddysg yn y Gymraeg a bydd gofyn i'r ysgolion gael llawer iawn mwy o adnoddau. Ceir problem i ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd, wrth iddynt gynnwys y gofyniad newydd hwn yn yr amserlen. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw arbenigwyr RSE, felly hwn yw'r un maes o fewn y cwricwlwm y mae angen iddo gael ei ddylunio yn ganolog gan arbenigwyr. Mae angen i gynnwys gwersi fod yn glir o ran yr hyn y dylid ei ddarparu pryd. Mae'r cwricwlwm newydd yn gadael lle i anghysondeb yn y pwnc gofynnol hwn, a heb arbenigwyr am y pwnc, mae angen cynorthwyo'r gwaith dylunio yn ganolog.'* - ***Penaethiaid, Ysgolion Cynradd, Ymateb 2169***

> *'Mae'r potensial yno, ar yr amod bod ymarferwyr ac athrawon yn gallu manteisio ar ddysgu proffesiynol priodol o ansawdd uchel er mwyn eu helpu i gyflawni'r nodau hyn.'* - ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 1176***

## 11.1 Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Y cynigion cyfredol ar gyfer deddfwriaeth yw y bydd addysg cydberthynas a rhywioldeb yn orfodol mewn pob lleoliad nas cynhelir a ariannir ac ym mhob ysgol a gynhelir ar gyfer dysgwyr 3 i 16 oed. Mae pedwar diben y cwricwlwm yn cynorthwyo dysgwyr wrth iddynt dyfu i fod yn unigolion iach a hyderus sy'n gallu meithrin perthnasoedd ar sail parch ac ymddiriedaeth rhwng unigolion, gan ddatblygu eu lles meddyliol ac emosiynol trwy ddatblygu eu cydnerthedd a'u hempathi. Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn hanfodol er mwyn cynorthwyo hyn, a dylai gynnig y profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau i ddysgwyr er mwyn iddynt allu ffurfio a chynnal amrediad o berthnasoedd cadarnhaol.

Roedd rôl Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn fater sensitif i rai ymatebwyr, gan gynnwys y rhai y byddent yn dymuno ei weld yn cael rôl mwy blaenllaw yn y cwricwlwm, yn ogystal â'r rhai na fyddent yn dymuno gweld hyn.

Yn fras, roedd yr ymatebwyr hynny y byddent yn dymuno ei weld yn cael rôl cryfach yn y cwricwlwm yn croesawu'r ffordd y mae wedi cael ei gynnwys yn y cwricwlwm. Mewn grŵp ffocws a fu'n ystyried cydraddoldeb rhywiol a'r cwricwlwm newydd yn benodol, croesawyd yr egwyddorion sy'n sail i ddyluniad y cwricwlwm ar y cyfan. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd o weld dehongliadau amrywiol o RSE gan athrawon ac ysgolion unigol, a chysondeb yr addysgu. O ganlyniad i natur drawsgwricwlaidd RSE, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y bydd rhai athrawon neu ysgolion yn ei chael hi'n anodd ei addysgu. At hynny, amlygwyd pwysigrwydd sensitifrwydd pwnc wrth ddarparu RSE mewn ffordd effeithiol gan rai ymatebwyr yn y grŵp ffocws, a rôl hyfforddiant proffesiynol wrth helpu athrawon. Yn yr un modd, nododd rhai ymatebwyr eu bod yn teimlo nad athrawon yw'r rhai gorau i ddarparu RSE bob amser:

> *'Mae ymchwil yn dangos bod yn well gan bobl ifanc weld Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei darparu gan arbenigwyr hyfforddedig, yn hytrach na staff addysgu.'* - ***Gweithiwr Ieuenctid, Sefydliad Trydydd Sector, Ymateb 2756***

I'r gwrthwyneb, roedd grŵp cyfatebol o ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu i'r cam o gynnwys RSE yn ei ffurf gyfredol. Roedd grŵp o rieni, er enghraifft, yn ceisio sicrwydd y byddai modd iddynt ddewis na fyddai eu plant yn cael Addysg Grefyddol a Rhywioldeb (RSE):

> *'Mae'n ymddangos bod cynnwys wedi'i seilio ar y rhywiau yn cael ei hysbysu gan dueddiadau cyfredol a phroffil grwpiau a symudiadau penodol. Bydd hyn yn gynhennus ac yn peri pryder i nifer o rieni. Dylid diogelu'r hawl i dynnu plant allan o'r ddarpariaeth er mwyn dod i gyfaddawd gyda rhieni sydd â phryderon. Nid yw traddodiadau Mwslimaidd ac Iddewig-Gristnogol yn cyd-fynd â rhywfaint o'r cynnwys ynghylch rhywedd/rhywioldeb. A fydd hyn yn cael ei ystyried?'* - ***Rhiant, Ymateb 1589***

Roedd rhai o'r materion o bwys a godwyd gan yr ymatebwyr hynny yn erbyn cynnwys RSE yn adlewyrchu dadleuon ehangach a pharhaus ym myd addysg ac mewn cymdeithas yn fwy cyffredinol. Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr ynghylch cynnwys hunaniaeth o ran rhywedd yn benodol o fewn RSE, er enghraifft. O'r persbectif hwn, roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai'r cwricwlwm gynnwys dealltwriaeth fiolegol fwy clir a phendant o rywedd.

## 11.2 Diwylliant Dysgu

Cyfarwyddyd i ysgolion a lleoliadau yw hwn, sy'n nodi agweddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddatblygiad cwricwlaidd ac addysgegol i'w hystyried wrth siapio diwylliant dysgu ymhellach. Mae'n datblygu 12 egwyddor addysgegol *Dyfodol Llwyddiannus* ac mae'n coleddu ethos y weledigaeth honno ar gyfer llwyddiant Cwricwlwm i Gymru 2022.

O blith y llond dwrn o ymatebwyr a gyfeiriodd at y ddogfen Diwylliant Dysgu yn benodol, roeddent yn tueddu i fod o'r farn ei fod yn rhywbeth cadarnhaol:

> *'Ar ôl darllen dogfen diwylliant dysgu, teimlaf mai hon yw'r ffordd ymlaen i'r cwricwlwm drafft efallai. Mae'n uniongyrchol, yn hawdd i'w darllen ac yn rhywbeth da i'w rannu gyda chydweithwyr.'* - ***Arweinydd Cyn Ysgol, Ysgol Feithrin, Ymateb 1562***

Roedd ymatebwyr yn tueddu i ystyried y ddogfen yng nghyd-destun pryderon ehangach ynghylch diffyg ymddangosiadol ffocws ar feithrin datblygiad plant cynnar yn y cwricwlwm:

> *'Byddai'n ddefnyddiol cael cwricwlwm ar gyfer plant 3-5 oed, rhywbeth sy'n rhoi'r cyfnodau o ran datblygiad plant i ni sy'n berthnasol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Hoffem gael un dogfen i'w defnyddio er mwyn gweld yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnom, sy'n nodi ein cyfrifoldebau yn glir. Byddem yn gweld bod y ddogfen 'Diwylliant Dysgu' yn cael ei chynnwys.'* - ***Ymarferwr, Ysgol Feithrin, Ymateb 2604***

Yn ogystal, gwelwyd ymwybyddiaeth ehangach o'r ddogfen, ond nid oedd yr ymatebwyr yn gallu cynnig unrhyw fyfyrdodau pellach:

> *'Credaf y dylid cynnwys dogfen 'Diwylliant dysgu' fel rhan o gyfarwyddyd y cwricwlwm hefyd.'* - ***Athro Cymorth, Awdurdod Lleol, Ymateb 1435***

> *'Mae angen rhyddhau'r ddogfen diwylliant dysgu/profiadau dysgu/amgylchedd dysgu, a hyfforddi yn ei herbyn er mwyn gwella addysgeg.'* - ***Swyddog Gwella Ysgolion, Awdurdod Lleol, Ymateb 1457***

> *'Mae angen cynnwys diwylliant dysgu gyda'r egwyddorion addysgegol.'* - ***Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar, Awdurdod Lleol, Ymateb 2005***

## 11.3 Addysg Hawliau Dynol

Gall Cwricwlwm i Gymru 2022 gyflawni rôl pwysig wrth ddeall a hyrwyddo parch at hawliau dynol a hawliau'r plentyn. Mae'n cyfarwyddyd yn golygu y byddai modd i ysgolion gyflawni hyn trwy hyrwyddo:

- Dysgu am hawliau dynol: caffael gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas â hawliau dynol, a ffynonellau'r hawliau hynny gan gynnwys CCUHP.
- Dysgu trwy hawliau dynol: datblygu gwerthoedd, agweddau ac ymddygiad sy'n adlewyrchu gwerthoedd hawliau dynol.
- Dysgu ar gyfer hawliau dynol: y cymhelliant sy'n sail i weithredu cymdeithasol a grymuso dinasyddiaeth weithredol er mwyn hyrwyddo parch ar gyfer hawliau pawb.

Ymhlith yr ychydig ymatebwyr a gyfeiriodd ato, gwelwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cam o gynnwys ffocws ar Addysg Hawliau Dynol yn y cwricwlwm:

> *'Rydw i'n croesawu datblygiad cynyddol addysg hawliau dynol a gaiff ei gyfleu ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau ac Iechyd a Lles yn fawr ac yn galonnog. Mae hon yn nodwedd hanfodol cwricwlwm a gaiff ei ysgogi gan ddiben ac sy'n ceisio datblygu plant a phobl ifanc i fod yn ddinasyddion gweithredol, nid yn unig yn y dyfodol ond yn y teuluoedd, yr ysgolion a'r cymunedau y maent yn cymryd rhan ynddynt yn ddyddiol.'* - ***Comisiynydd Plant, Ymateb 1424***

Gan gyfeirio at y cyfrifoldebau trawsbynciol, fodd bynnag, mae'r ymatebydd yn mynd ymlaen i ddweud:

> *'Nid yw'r rhestr hon o themâu a chyfrifoldebau trawsbynciol yn gyflawn ac nid yw'n cynnwys thema drawsbynciol addysg hawliau dynol, a gaiff ei chyfleu yn glir yn y cyflwyniad i'r cyfarwyddyd. Gwelir yr hepgoriad hwn hefyd yng nghyflwyniadau pob MDPh, sy'n nodi themâu trawsbynciol eraill mewn perthynas â'r maes dysgu hwn, ond nid yw'n gwneud hyn ar gyfer addysg hawliau dynol.'* - ***Comisiynydd Plant, Ymateb 1424***


# 12 Asesu

Mae'r cwricwlwm yn cynnig diwygio'r ffordd y caiff plant a phobl ifanc eu hasesu hefyd. Mae'r bennod hon yn ystyried safbwyntiau ymatebwyr am y cynigion.

Yn y cwricwlwm, dylai asesu fod yn seiliedig ar y bwriadau a nodwyd yn y deilliannau cyflawniad ym mhob cam cynnydd ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad. Dylid defnyddio camau cynnydd fel pwyntiau cyfeirio er mwyn cynllunio dysgu ac addysgu, a dylai gwaith cynllunio gydnabod bod nifer o wahanol lwybrau ar gyfer teithiau dysgwyr, a bod y camau cynnydd yn darparu map o lwybr cyffredin.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn teimlo y mae'r cynigion ynghylch asesu yn cynorthwyo lleoliadau i nodi cryfderau dysgwyr a'r meysydd iddynt sicrhau gwelliant ynddynt. Atebodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn gymharol gefnogol, ac roedd y duedd yn pwyso at beidio bod yn gefnogol.

Ffigwr 13.1: C10.1. A4: I ba raddau y mae'r cynigion ynghylch asesu yn cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i nodi cryfderau dysgwr, eu cyflawniadau a'r meysydd y mae gofyn iddynt sicrhau gwelliant ynddynt, er mwyn iddynt allu cynorthwyo cynnydd dysgwr trwy nodi camau nesaf? Pa mor gynorthwyol?




N = 1183

O blith yr ymatebwyr hynny a oedd o'r farn bod y cynigion ynghylch asesu yn rhai cadarnhaol, roeddent yn tueddu i gytuno gyda'r egwyddorion y seiliwyd y dull gweithredu arnynt:

> *'Ceir pwyslais cadarnhaol ar gyfranogiad gweithredol dysgwyr mewn dysgu ac asesu. Mae datblygiad e-bortffolios yn gam cadarnhaol a groesawir, a byddai modd eu defnyddio er mwyn hysbysu rhieni o gynnydd eu plentyn trwy gydol y flwyddyn, yn hytrach na cael adroddiadau hir ar ddiwedd y flwyddyn, yn debyg i ap See-Saw a ddefnyddir gan rai ysgolion. Mae angen i weithgarwch safoni fod yn fwy cadarn. Gall dibynadwyedd a manylder amrywio'n aml, gan ddibynnu ar yr unigolyn sy'n arwain neu sydd fwyaf gweithredol yn y broses. Nid yw ffurf yr asesu mewn egwyddor yn glir o hyd, na rôl ysgolion, penaethiaid ac athrawon.' -* ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 1406***

> *'Dylem fod ar wahân i weddill y DU, gan ganolbwyntio ar ddatblygu dull mwy Sgandinafaidd lle y rhoddir y prif ffocws ar asesu ffurfiannol! Mae'n ymddangos bod hwn wrth wraidd y cyfan. Mawr obeithiaf y bydd penaethiaid a gweinidogion yn ddigon dewr i weithredu hyn, a pheidio cael eu clymu i hen systemau neu ddychwelyd i'r hen ffyrdd o weithio, a fydd yn arwain at gyfuniad cas o'r ddau. Nid yw systemau sy'n cael eu gyrru gan dargedau yn gweithio.' -* ***Rheolwr Dysgu, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2243***

Roedd thema allweddol a welwyd mewn nifer o ymatebion, gan gynnwys y rhai a oedd yn teimlo'n fwy cadarnhaol am y dull cyffredinol, yn ymwneud â'r angen am gyfarwyddyd manylach ynghylch sut y byddai'r cynigion yn gweithio mewn gwirionedd:

> *'Mae datganiadau "Gallaf" yn rhoi syniad clir o'r disgwyliadau dysgu. Fodd bynnag, bydd gofyn cael llawer mwy o gymorth ac eglurder ynghylch asesu ac olrhain. Rydym yn deall na ddylai'r cwricwlwm newydd fynd yn ymarfer ticio blychau, ond mae olrhain cyflawniad yn hanfodol.' -* ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 1610***

Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr, yn yr un modd ag unrhyw fath o fecanwaith asesu, y gallai'r cynigion yrru'r dysgu, yn hytrach na'r dysgu yn bwydo'r asesu. Mynegwyd pryderon pellach ynghylch ansicrwydd am y trefniadau gyda chymwysterau a'r cysylltiadau gydag asesu:

> *'Er bod y fframwaith yn ymddangos yn briodol o ran Asesu ar gyfer Dysgu, nid yw'r ffaith nad yw'n hysbys sut y caiff y diwedd ei fesur (TGAU) yn briodol. Er bod hyn gryn flynyddoedd i ffwrdd, os [ydym yn mynd] i ddechrau cynllunio mewn ffordd effeithlon, rhaid i'r cam o wybod sut a beth a gaiff ei asesu ar ddiwedd y continwwm dysgu gael ei gwblhau.' -* ***Arweinydd Uwch, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1846***

Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr ynghylch y cynigion asesu a thegwch, gan gynnwys eu gallu i gynorthwyo plant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol:

> *'Nid yw'r cynigion yn archwilio sut y defnyddir asesu ffurfiannol mewn ffordd deg a chyfiawn er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, a'r rhai o ardaloedd difreintiedig cymdeithasol-economaidd, yn cael eu hasesu mewn ffordd deg. Felly, rydym yn cynghori bod angen addasu'r cynigion ynghylch asesu er mwyn ystyried rhwymedigaethau ysgolion i wneud addasiadau rhesymol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, fel bod plant sydd â gwahanol anghenion yn cael eu cynorthwyo'n llawn i gymryd rhan a rhyngweithio mewn amgylchedd cynhwysol, sy'n osgoi gwahanu neu dynnu allan o agweddau ar addysg. Rhaid i gynigion ynghylch asesu waredu rhwystrau sy'n atal plant sydd ag AAA/ADY er enghraifft, rhag cael addysg o ansawdd. Yn ogystal, [rydym] yn dymuno amlygu'r angen i gymwysterau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd yng Nghymru gael eu cydnabod ar draws y DU, ac nid yng Nghymru yn unig, er mwyn osgoi anfantais wrth i bobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yng Nghymru dan y cwricwlwm symud ymlaen i fyd oedolyn, er enghraifft wrth iddynt chwilio am waith neu geisio manteisio ar gyfleoedd addysg uwch y tu hwnt i Gymru.' -* ***Corff Rheoleiddio, Ymateb 2751***


Ar ben hynny, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd unrhyw sialensiau a chyfleoedd dysgu proffesiynol yn codi wrth weithredu'r cynigion ynghylch asesu. O blith y rhai a ymatebodd, cyfeiriodd nifer at bryderon ehangach ynghylch pwysigrwydd neilltuo amser ac adnoddau er mwyn sicrhau bod athrawon yn ymateb i'r cynigion mewn ffordd hyderus, gan gynnwys y defnydd effeithiol o asesu ffurfiannol:

> *'Mae'r brif ystyriaeth yn ymwneud ag amser. Os rhoddir amser cynllunio i athrawon o amrediad o ysgolion, bydd hwn yn llwyddo. Teimlaf y dylid cyflwyno diwrnod hms ychwanegol, wedi'i glustnodi ar gyfer 'cynllunio pontio' neu 'dargedu asesu' ym mhob ysgol, a chan ddibynnu ar eich rôl, y bydd gofyn i chi weithio ar un o'r ddau faes.' -* ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2642***

## 12.1 Asesu Ffurfiannol

Mae'r cynigion yn ceisio breinio asesu ffurfiannol, yn hytrach nag asesu crynodol. Wrth ystyried safbwyntiau ymatebwyr, gofynnwyd iddynt a oeddent o'r farn bod y cwricwlwm yn hyrwyddo'r egwyddor hon mewn ffordd effeithiol. Adroddodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod o'r farn ei fod yn gwneud hynny'n eithaf da neu'n dda iawn:

Ffigwr 13.2: C22.1. B10: Dylid rhoi blaenoriaeth i asesu ffurfiannol yn y cwricwlwm newydd. Pa mor dda y mae'r cynigion ynghylch asesu yn hyrwyddo'r egwyddor hon? Pa mor dda?




N = 822

Roedd safbwyntiau cadarnhaol am y cynigion yn tueddu i gael eu hysgogi gan dybiaeth nad yw'r trefniadau presennol yn cynorthwyo addysgu a dysgu na lles cyffredinol plant ac athrawon. Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn llai cefnogol yn tueddu i amlygu ansicrwydd ynghylch yr hyn y byddai'r cynigion yn ei olygu mewn gwirionedd. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai ac y dylai asesu crynodol gael rôl yn y cwricwlwm newydd:

> *'Mae'r cyfarwyddyd yn cyflwyno gwahaniaeth camarweiniol rhwng asesu ffurfiannol a chrynodol. Mewn sawl achos, mae'r prosesau hyn yn digwydd ar yr un pryd. Mae hyn yn bwysig oherwydd y gallai nifer o asesiadau nad ydynt yn rhai tyngedfennol megis cwisiau a phrofion dosbarth, y mae gwaith ymchwil yn dynodi eu bod yn cryfhau dysgu disgyblion (h.y. strategaethau adalw a bylchu), gael eu hystyried mewn ffordd negyddol fel asesu crynodol, ond mewn gwirionedd, maent yn dechnegau cyfoethog er mwyn datblygu asesu ffurfiannol ac maent yn cynorthwyo wrth ymrwymo dysgu i'r cof hirdymor. Byddai o gymorth i'r cyfarwyddyd nodi hyn yn glir.' -* ***Swyddog Gwella Ysgolion, Awdurdod Lleol, Ymateb 1919***

## 12.2 Safoni

Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu safbwyntiau ynghylch safoni yn y cwestiynau canlynol:

> *'Mae'r cynigion ynghylch asesu yn cynnig dull gweithredu ehangach tuag at safoni – cynorthwyo deialog broffesiynol ynghylch natur cynnydd, dewis gweithgareddau asesu a dysgu priodol, yn ogystal â sicrhau dealltwriaeth a rennir o sut mae cyflawniad yn edrych yng nghyd-destun deilliannau cyflawniad. Sut fyddech chi yn rhagweld y byddai'ch lleoliad/ysgol yn gweithredu'r dull hwn? Pa gymorth pellach y byddai ei angen efallai yn eich barn chi?' -* ***Cwestiwn 23 B11***

Wrth ymateb, amlygodd Estyn bwysigrwydd safoni, gan wneud awgrymiadau ynghylch sut y gallai'r cyfarwyddyd gynorthwyo datblygiad arfer effeithiol:

> *'Dylai'r cyfarwyddyd fynnu bod ymarferwyr yn ystyried ystod lawn gwaith dysgwr, gan gynnwys y drafftiau a'r llyfrau gwaith llawn, yn ystod gweithgarwch safoni o fewn a rhwng darparwyr. Byddai hyn yn eu galluogi i gael darlun mwy cyflawn o safonau dysgwr. Dylai nodi'n glir hefyd y dylai pob ymarferwr ymwneud yn llawn â gweithgareddau safoni fel bod pawb yn meithrin dealltwriaeth dda o gyflawniad o fewn pob cam cynnydd perthnasol. Bydd hyn yn helpu arweinwyr ac ymarferwyr i ddeall a mabwysiadu dull mwy defnyddiol tuag at safoni fel bod ymarferwyr o fewn ac ar draws darparwyr yn dod i gytundeb cyffredinol ynghylch sut y mae safonau a chynnydd effeithiol yn edrych i ddysgwyr o bob oed ac yn ystod pob cam cynnydd.'* - ***Estyn, Ymateb 1323***

Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo'n amheus am y cynigion. Roedd petruster o'r fath yn aml yn deillio o'r pryderon ynghylch y gweithdrefnau safoni presennol. O'r persbectif hwn, ni fyddai'r dull a gynigir ar gyfer safoni o reidrwydd yn rhoi sylw i'r problemau presennol, gan gynnwys y llwyth gwaith sylweddol:

> *'Mwy o ymddiriedaeth yn y gweithwyr addysg proffesiynol sy'n ffurfio'r barnau, heb ddibynnu ar dystiolaeth uniongyrchol/ ail-law ar gyfer pob datganiad, oherwydd y bydd hyn yn ailysgogi 'cwmpas' a rhestrau ticio yn hytrach na dysgu sydd wedi ymwreiddio.'* - ***Arloeswr, Ysgol Gynradd, Ymateb 2456***

At hynny, mynegwyd pryderon ynghylch posibilrwydd amrywio o ran sut y caiff safoni ei ymwreiddio mewn gwirionedd. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai hyn gael goblygiadau arwyddocaol ar gyfer monitro cynnydd o fewn ac ar draws lleoliadau:

> *'Er 2008, rydym wedi cael cyfres o gamau cynnydd hylaw ac y maent bron wedi bod yn annealladwy ym maes gwyddoniaeth, ac maent wedi bod yn ofnadwy i ddisgyblion, staff a rhieni. Maent yn hynod o anodd i'w rheoli ac maent yn arwain at lwyth gwaith anferthol. Yn ystod gweithgarwch safoni, yn aml bydd arbenigwyr pwnc sydd â degawdau o brofiad rhyngddynt yn ei chael hi'n anodd cytuno ar yr hyn sy'n cyfateb â phob lefel oherwydd goddrychedd y model.'* - ***Pennaeth Cyfadran, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2077***

O ran y cymorth pellach sy'n ofynnol er mwyn gweithredu cynigion, gwelwyd tair thema amlwg yn ymddangos yn yr ymatebion. Roedd y rhain yn cynnwys pwysigrwydd cydweithio effeithiol o fewn ac ar draws ysgolion a lleoliadau, adnoddau digonol (h.y. amser a chyllid) i ddatblygu a gweithredu prosesau effeithiol mewn perthynas â safoni, a chyfarwyddyd ymarferol manylach i gynorthwyo athrawon i ddeall ac ymwreiddio'r cynigion.

## 12.3 E-Bortfolios

Mae e-bortffolios yn ffyrdd lle y gellir annog dysgwyr i ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Mae e-bortffolio yn gofnod digidol sy'n adlewyrchu profiadau, cyflawniadau a thaith ddysgu dysgwr unigol. Mae'n cynorthwyo dysgwyr i gasglu a chrisialu enghreifftiau o'u cynnydd a'u cyflawniadau nodedig, yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt yr ystafell ddosbarth, gan fyfyrio am Beth sy'n Bwysig iddyn nhw o fewn cyd-destun pedwar diben y cwricwlwm.

Ceir cynigion ehangach i gyflwyno e-bortffolios fel platfform er mwyn cydlynu'r broses asesu. Nid oedd y cwestiynau a gyflwynwyd i ymatebwyr yn gofyn iddynt yn benodol am eu safbwyntiau ynghylch e-bortffolios. Mae hyn yn golygu bod y dadansoddiad wrth gyfleu cyffredinrwydd safbwyntiau ymatebwyr yn gyffredinol yn llai cywir. Yn ogystal, roedd sylwadau ac awgrymiadau yn aml yn rhan o drafodaethau ehangach ynghylch y broses asesu.

Ymhlith yr ymatebwyr hynny a gyfeiriodd at e-bortffolios, mae'n ymddangos bod cefnogaeth gyffredinol i'r cam o ddefnyddio system o'r fath wrth asesu. Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn fwy cefnogol o'r cynigion asesu cyffredinol yn fwy tebygol o fynegi'r safbwynt hwn:

> *'Credwn bod y ffordd a gynigir [ynghylch asesu] yn rhagorol, yn hanfodol ac yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Mae'n dda gweld y gall athrawon, plant, pobl ifanc a rhieni gyfrannu at yr asesu gan ddibynnu ar eu hanghenion. Gan bod hon yn ffordd newydd o weithio i Ysgolion, bydd gofyn cael hyfforddiant a neilltuo amser er mwyn dwyn hwn ynghyd a hefyd, er mwyn sicrhau bod safon Ysgolion yn gyson ar draws Cymru. Bydd hi'n hanfodol bod gan ysgolion system ddilysu yn fewnol ac yn allanol. Mae hon yn ffordd wych o alluogi unigolyn i gael ei asesu mewn ffordd sy'n addas iddo ef neu hi. Rydw i'n hoff iawn o'r 'fasged asesu' mewn e-bortffolio. Caiff yr e-bortffolio ei neilltuo i ddysgu'r medr hwn a fydd yn angenrheidiol trwy gydol bywyd rhywun. Mae'n wych gweld bod myfyrio a hunanasesu yn rhan hanfodol o'r broses unigryw o unigol hon.'* - ***Ymarferwr, Ymateb 1595***

Yn yr un modd â rhannau eraill y cwricwlwm, roedd thema gyffredin ar draws ymatebion yn ymwneud â'r angen am ragor o wybodaeth am y ffordd y byddai'r system yn gweithio, a sut y byddai'n cael ei hymwreiddio yn y broses asesu:

> *'Nes y rhennir yr e-bortffolios, mae'n anodd gwneud sylwadau am y ffordd y byddai'r rhain yn cyfrannu at fewnbwn dysgwr i'r broses adrodd. Mae cyfrineiriau/cyfeiriadau e-bost Hwb wedi bod yn anodd i'n plant ieuengaf droi atynt... Sut fydd y system yn ymdopi â phob plentyn yn rhedeg e-bortffolio?'* - ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 1548***

> *'Derbynnir yn gyffredinol y bydd angen i athrawon ddarparu'r math o adborth o ansawdd uchel i ddysgwyr sy'n deillio o asesu ffurfiannol da. Felly, gallai'r cynigion ddynodi mewn ffordd fwy clir sut y bydd gweithgareddau megis safoni clwstwr, asesu gwaelodlin ac e-bortffolios yn edrych; mewn geiriau eraill, byddai o fudd i rai o'r cynigion fod yn fwy manwl.'* - ***Cymdeithas Llywodraeth, Ymateb 2074***

Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr hefyd ynghylch gweithrediad ymarferol y cynigion. Roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar y seilwaith a'r adnoddau sy'n ofynnol er mwyn ymwreiddio'r system mewn ffordd effeithiol:

*'Beth yw'r disgwyliadau o'r e-bortffolios a'u diben? Rydym yn pryderu am y capasiti i wneud hyn o ran adnoddau a'r seilwaith TG.'* - ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 1723***

## 12.4 Adrodd a Rhieni a Gofalwyr

Dylid rhannu gwybodaeth am gynnydd a chyflawniadau dysgwr mewn ffordd effeithiol er mwyn ymgysylltu'r dysgwr, eu rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr eraill wrth nodi a chynorthwyo eu camau nesaf. Gall hyn gynnwys adroddiadau ffurfiol, trafodaethau yn ystod nosweithiau rhieni/gofalwyr, gohebiaeth i'r cartref, a gwahoddiadau i drafodaethau. Dylai dysgwyr gyfrannu i weithgarwch adrodd trwy gasglu a dethol tystiolaeth, nodi eu cynnydd a'u cyflawniadau eu hunain, cyfleu eu huchelgais a chymryd rhan mewn deialog rhwng ymarferwyr a rhieni/gofalwyr.

Roedd ymatebwyr yn aml yn teimlo'n gadarnhaol am y cynigion i gynorthwyo mwy o gyfraniad gan rieni a gofalwyr wrth archwilio a deall cynnydd eu plant, a chyfeiriwyd yn aml at werth meithrin cysylltiadau rhwng cartrefi ac ysgolion, yn ogystal â manteision posibl rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn fwy yn addysg plant:

*'Credaf bod y syniad o gynnwys disgyblion yn eu proses adrodd eu hunain yn un cyffrous. Mae wir yn gofyn iddynt fyfyrio am eu perfformiad a darganfod tystiolaeth o hyn. Dylid hysbysu a diweddaru rhieni a chredaf y dylid rhoi cwestiynau addysg iddynt y gallent eu gofyn i athrawon, a'u plant eu hunain, am y gwaith yn yr ystafell ddosbarth.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1847***

*'Credaf ei bod mor bwysig cynnwys llais y disgybl a chynnwys amrediad o randdeiliaid eraill megis rhieni a gofalwyr. Gall rhieni/gofalwyr gynnig trosolwg cynhwysfawr o'r hyn y mae eu plentyn yn ei hoffi, yr hyn nad ydynt yn ei hoffi a'u patrymau arferol cyn iddynt ddechrau mynychu lleoliad. Yna, bydd angen i'r ysgol ddarparu diweddariadau rheolaidd am sut y mae eu plentyn yn gwneud a dylid gofyn i'r plentyn am eu barn hefyd trwy gydol y flwyddyn ysgol. Byddai modd coladu hyn mewn portffolio ar-lein i'w rannu gyda rhieni ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn.'* - ***Darlithydd, Sefydliad Addysg Uwch, Ymateb 1971***

Awgrymodd rhai ymatebwyr nad oedd y dull gweithredu arfaethedig heb ei broblemau:

*'Mae'n beth cadarnhaol i ddysgwyr nodi eu cyflawniadau ond hefyd, i wybod eu camau nesaf! Mae cynnwys y rhieni yn swnio'n beth cadarnhaol, ond mae gennyf bryderon am sut y bydd hyn yn gweithio mewn ysgolion lle y gwelir lefelau amddifadedd uchel? Byddai'r wybodaeth i'w chynnwys yn wybodaeth academaidd a chyflawniadau personol, y camau nesaf mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad.'* - ***Athro, Ymateb 2003***

*'Dylai gwybodaeth fod ar gael i rieni ond nid oes angen eu llethu gyda gwybodaeth. Mae gan nifer o rieni eu hanawsterau dysgu eu hunain felly efallai na fyddant yn deall, efallai bod rhieni eraill yn canolbwyntio mewn ffordd obsesiynol ar eu plant yn cyflawni targedau. Mae angen cymryd cryn ofal.'* - ***Pediatregydd, Ymateb 1311***

Gwelwyd rhieni yn mynegi gwahanol safbwyntiau. Roedd rhai yn gefnogol ac roedd eraill yn teimlo ei fod yn rhywbeth dianghenraid:

*'Rydw i'n gwybod yr hyn y mae fy mhlentyn yn ei feddwl a'r hyn yr wyf i yn ei feddwl. Dim ond yr hyn y mae'r athro yn ei feddwl yr hoffwn i ei glywed, er mwyn helpu fy mhlentyn i sicrhau cynnydd.'* - ***Rhiant, Ymateb 3000***

*'Mae myfyrio beirniadol yn offeryn pwysig mewn agweddau ar fywydau'r plant. Rydw i'n cytuno'n gryf y dylai plant roi eu hadborth! Nid ydw i'n siŵr beth fyddwn i yn ei gynnwys eto, ond fel rhiant, byddwn yn fodlon bod yn rhan o'r broses adrodd.'* - ***Rhiant, Ymateb 2843***


# 13 Cynnydd

Mae'r bennod hon yn archwilio tybiaethau'r ymatebwyr o gynnydd trwy'r cwricwlwm, gan gynnwys symud ymlaen i addysg bellach a thu hwnt.

Y bwriad yw y bydd dysgwyr yn symud ar hyd yr un continwwm dysgu ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad o 3 i 16 oed. Rhoddir syniad o'r cynnydd trwy gyfrwng y camau cynnydd ar bump pwnt ar y continwwm dysgu, sy'n ymwneud yn fras â'r disgwyliadau pan fydd plant yn 5 oed, yn 8 oed, yn 11 oed, yn 14 oed ac yn 16 oed. Gallai'r cyflymder y byddant yn symud ar hyd y continwwm amrywio – gan ganiatáu ar gyfer amrywiaeth o ddargyfeirio, ailadrodd a myfyrio wrth i ffordd o feddwl dysgwr ddatblygu gydag amser i lefelau soffistigedigrwydd newydd.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi i ba raddau y mae cyfarwyddyd y cwricwlwm ar gyfer y chwech MDPh yn cynorthwyo plant yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Ymatebodd y rhan fwyaf trwy nodi ei fod yn gwneud hynny yn gymharol dda neu'n dda iawn:

Ffigwr 14.1 C19.1. B7: Yn eich barn chi, pa mor dda y bydd y cyfarwyddyd ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad yn cynorthwyo plant yn ystod blynyddoedd y Cyfnod Sylfaen? Pa mor dda?




N = 800

Pan ofynnwyd iddynt am eu safbwyntiau yn fanylach, roedd ymatebwyr yn aml yn cyfeirio at y ffaith bod y tebygrwydd a'r gydlyniaeth gymharol rhwng y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm newydd yn gryfder:

> *'Y cyfnod sylfaen yw lle naturiol i gychwyn gyda'r cwricwlwm newydd hwn. Gallai ysgolion ddysgu cryn dipyn trwy edrych ar brosesau ac arfer y Cyfnod Sylfaen. Rydym wedi symud y Cyfnod Sylfaen i mewn i flwyddyn tri yn barod a chanmolwyd hyn gan arolygwyr Estyn. Mae'n cynorthwyo'r cwricwlwm newydd a'r hyn y dylem fod yn ei ddatblygu.'* - ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 2231***

*'Teimlwn bod y cyfarwyddyd MDPh yn cyd-fynd yn well gydag athroniaeth ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen nawr. Yn wir, bwriadwn gyflwyno'r rhain ar draws y cyfnod cynradd cyfan nawr.' -* ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 1882***

*'Roedd gwerthusiad WISERD o'r Cyfnod Sylfaen wedi nodi bod y pontio cwricwlaidd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn peri problemau yng ngoleuni'r diffyg cyplysiad cymharol rhwng y dull gweithredu a fabwysiadir yn y Cyfnod Sylfaen a'r un a fabwysiadir mewn cyfnodau dilynol. Mae'r problemau hyn yn debygol o gael eu lleddfu wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd, o ystyried y ffaith y ceir mwy o gysondeb yn y dulliau a gaiff eu mabwysiadu.' -* ***Sefydliad Trydydd Sector, Ymateb 1126***


*'Gan bod cynnwys penodedig yn natganiadau Beth sy'n Bwysig a'r deilliannau cyflawniad, bydd yn sicrhau cysondeb ac addysgu sy'n dwyn mwy o ffocws ar draws y cyfnod sylfaen. Bydd hyn yn caniatáu dilyniant gwell i gam cynnydd nesaf y dysgwyr.' -* ***Swyddog Gwella Ysgolion, Consortia Rhanbarthol, Ymateb 2977***

Roedd y cyfarwyddyd ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn arbennig o aneglur, ac roedd ymarferwyr yn gofyn nifer o gwestiynau ynghylch y gwaelodlinau ar gyfer plant 3 oed. Yn gyffredinol, barnwyd bod y cyfarwyddyd yn y maes hwn yn ddryslyd, a gofynnodd ymarferwyr a fyddai modd crynhoi hwn o fewn un cyfarwyddyd ar gyfer y blynyddoedd cynnar. At hynny, mynegwyd pryderon ehangach ynghylch a yw'r cyfarwyddyd yn rhoi sylw effeithiol i faterion sy'n ymwneud â chynorthwyo datblygiad plant cynnar:

*'Ni roddir digon o bwyslais ar ganeuon a rhigymau fel strategaeth allweddol er mwyn datblygu sgiliau iaith cynnar plant ar draws y camau cynnydd. Ni chyfeirir at bwysigrwydd gweithgarwch creu marciau cynnar fel rhagflaenydd ysgrifennu yng ngham cynnydd un. Mae angen mwy o wybodaeth am gyfnodau datblygiad plant cynnar ar draws y ddogfen. Mae'n anodd darganfod prif elfennau'r cwricwlwm yn gyffredinol. Mae'r egwyddorion yn gadarn, ond nid yw'n hawdd iawn i'w ddefnyddio.' -* ***Awdurdod Lleol, Ymateb 1590***

Yna, gofynnwyd i ymatebwyr nodi eu safbwyntiau ynghylch a yw'r cyfarwyddyd yn caniatáu i bob plentyn arbenigo o'r adeg pan fyddant yn 14 oed. Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr o'r farn bod y cyfarwyddyd yn sicrhau arbenigaeth mewn ffordd gymharol dda (n = 265), ac roedd cyfran debyg o'r farn nad oedd yn sicrhau arbenigaeth mewn ffordd dda o gwbl (n = 263).

Ffigwr 14.2: C15.1. B3: Yn eich barn chi, pa mor dda y mae cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn caniatáu i bob plentyn a pherson ifanc arbenigo mewn disgyblaeth neu bwnc arbennig ar ôl 14 oed? Pa mor dda?




N = 796

Roedd rhai ymatebwyr wedi amlygu llwybrau penodol i fwy o arbenigaeth sy'n ymddangos yn y cwricwlwm:

> *'Mae MDPh y Celfyddydau Mynegiannol yn paratoi dysgwyr ar gyfer y manylebion Celf a Dylunio ar lefel TGAU. Mae'r amcanion cyrhaeddiad TGAU yn adlewyrchu Archwilio Ymateb Creu. Bydd dysgwyr yn symud ymlaen yn naturiol i'r cymhwyster ffurfiol heb anhawster.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2477***

Pe byddai'r cwricwlwm newydd yn sicrhau gwelliannau o ran sgiliau a hyder pobl ifanc, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai pontio tuag at arbenigaeth yn llwyddiannus:

> *'Bydd y sgiliau yn helpu cynnydd o fewn pynciau arbenigol. Bydd ganddynt y safbwynt holistig ehangach fel sylfaen ar gyfer y pwnc, a fydd yn eu galluogi i ddysgu'r cynnwys pwnc penodol sy'n ofynnol ar gyfer cymwysterau yn y dyfodol, ym mha bynnag ffurf y byddant.'* - ***Arall, Ymateb 2217***

O blith yr ymatebwyr hynny a nododd nad oedd yn cael ei sicrhau mewn ffordd dda o gwbl, roeddent yn cynnig amrediad o bersbectifau a oedd yn sail i'w barn. Mynegwyd nifer o bryderon ynghylch y diffyg cynnwys diffiniedig, ac a fyddai hyn yn arwain at fyfyrwyr heb fod yn cael testunau allweddol, ac felly, y byddent dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion mewn sefydliadau yn Lloegr. I rai ymatebwyr, barnwyd bod pwysigrwydd cludadwyedd cymwysterau yn bwysig, ac roeddent yn teimlo na fydd pobl ifanc yn cael eu paratoi'n dda i lwyddo mewn arholiadau mwy arbenigol efallai:

*'Mae'r disgyblaethau yno i ddysgwyr arbenigo ynddynt o'r adeg pan fyddant yn 14 oed, ond bydd angen gweithredu strategaeth er mwyn trosi Meysydd Dysgu a Phrofiad yn "bynciau" fel na fydd disgyblion o Gymru dan anfantais pan fyddant yn cystadlu ar lefel genedlaethol (DU) a rhyngwladol – mae angen i'r system fod yn drosglwyddadwy yn y dyfodol.' -* ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 1584***

Roedd ymatebwyr yn aml yn cyfeirio at y ffaith bod ansicrwydd ynghylch y trefniadau ar gyfer cymwysterau yn y dyfodol yn gyrru rhai o'u pryderon:

*'Mae hwn yn faes y bydd angen rhoi sylw pellach iddo efallai. Yn enwedig mewn perthynas â pha gymwysterau fydd ar gael a'r hyn y bydd modd iddynt arbenigo ynddo. Os addysgir pob MDPh i'r disgyblion, a fydd digon o gwmpas o fewn y rhain er mwyn darparu platfform cadarn er mwyn arbenigo mewn 'pynciau' penodol.' -* ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1643***

*'Nid yw'r glir sut beth fydd cymwysterau TGAU yn y dyfodol. A fydd pynciau ar wahân fel Daearyddiaeth neu Hanes yn bodoli? Sut fydd hyn yn effeithio ar ddewisiadau ôl-16 a'r dilysrwydd a'r dilyniant i AU a mynediad i brifysgolion y tu allan i Gymru? Nid yw'r llwybr ar gyfer arholiadau yn glir.' -* ***Pennaeth, Clwstwr, Ymateb 1036***

Gan ystyried pontio i addysg bellach, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu tybiaethau ynghylch gallu y cwricwlwm i gynorthwyo pobl ifanc yn ystod y cyfnod ôl-16. Gwelwyd tuedd debyg yn dod i'r amlwg, wrth i gyfrannau sylweddol o ymatebwyr adrodd fod ei allu i wneud hynny yn gymharol dda neu heb fod yn dda o gwbl:

Ffigwr 14.3: C21.1. B9: Yn eich barn chi, pa mor dda y bydd cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cynnig sylfaen er mwyn helpu pobl ifanc i sicrhau cynnydd ar ôl 16 oed? Pa mor dda?





N = 732

> *'Dylai cadw'r pedwar diben fel rhan ganolog o'r gwaith o gynllunio a darparu'r cwricwlwm helpu i sicrhau bod disgyblion yn cael eu paratoi'n dda fel dinasyddion ac unigolion. Bydd y cyfnod ar ôl 16 oed ac ymlaen i addysg uwch a phellach yn dibynnu ar achredu a chyfwerthedd. Gallai ffocysu ac arbenigo dysgu ar ôl profiad dysgu ehangach fod yn heriol i rai disgyblion.'* - ***Arweinydd Uwch, Ysgol Arbennig, Ymateb 1027***

> *'Rydym yn ystyried bod potensial yma os byddwn yn llwyddo i greu'r dysgwyr galluog hyn – ond gan nad oes gennym unrhyw syniad beth fydd y cymwysterau pan fyddant yn 16 oed, mae'n anodd gwybod a fyddant yn addas ar gyfer cynnydd. Rydym yn pryderu am y ffaith na ddylai'r gynffon asesu siglo ci y cwricwlwm – ond er mwyn caniatáu i fyfyrwyr o Gymru fanteisio ar brifysgolion Lloegr, efallai y bydd yn rhaid iddo yn y pen draw.'* - ***Fforwm Addysg, Ymateb 2242***

Gwelwyd bod y pryderon hyn ynghylch pontio i addysg bellach yn ystyriaethau a deimlwyd yn llawer mwy dwys ymhlith ymatebwyr o ysgolion uwchradd:

<u>Ffigwr 14.4: C21.1. B9: Ymatebwyr o ysgolion uwchradd: Yn eich barn chi, pa mor dda y bydd cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cynnig sylfaen er mwyn helpu pobl ifanc i sicrhau cynnydd ar ôl 16 oed? Pa mor dda?</u>




N = 289

## 13.1 Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith

Mae Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith (CWRE) yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm ac mae'n hollbwysig wrth gynorthwyo pobl ifanc i ddod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, y maent yn barod i gyflawni rôl llawn mewn bywyd a gwaith. Mae ymgysylltu gyda Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith yn cynorthwyo pobl ifanc i herio'r stereoteipiau a'r rhagdybiaethau y gallent beri iddynt gyfyngu eu dewisiadau dysgu a gyrfa, gan ganiatáu iddynt ymgysylltu â dysgu mewn ffordd effeithiol, deall amrediad lawn y cyfleoedd sydd ar gael a gwneud penderfyniadau effeithiol a chynaliadwy yn ystod pwyntiau pontio allweddol a thrwy gydol eu bywyd.

Mae cyngor gyrfaoedd yn agwedd arall sy'n cynorthwyo cynnydd pobl ifanc y tu hwnt i'r cwricwlwm. O blith yr ychydig ymatebwyr a gynigiodd fyfyrdodau am rôl cyngor gyrfaoedd yn y cwricwlwm, roedd rhai yn gweld y cyfraniad cadarnhaol y byddai'r cwricwlwm wedi'i wneud er mwyn datblygu unigolion cyflawn sy'n barod am fyd gwaith:

> *'Mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig wrth ddatblygu'r cyfarwyddyd statudol drafft hwn, a'i bod wedi cynnwys rhai o'r prif bethau yr ydym wedi bod yn galw amdanynt. Bellach, ceir ffocws clir ar sgiliau gwaith a bod yn barod ar gyfer byd gwaith, gan gynnwys y cam o integreiddio sgiliau ehangach yn y cwricwlwm, fel meddwl beirniadol, datrys problemau, a chynllunio a threfnu. Yn ôl cyflogwyr ym maes adeiladu yng Nghymru, bu hwn yn ddiffyg ymhlith y rhai a fu'n ymuno â'r farchnad lafur. Rydym yn croesawu'r cyfeiriadau clir at ddysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bob llwybr ôl-16, gan gynnwys addysg alwedigaethol a gwaith. Rydym yn arbennig o falch i weld y pwyslais ar baratoi ar gyfer gyrfaoedd ac addysg ôl-16, gan gynnwys cyngor gyrfaoedd ar draws y grwpiau oedran, defnyddio profiad gwaith, a chael cyswllt gyda diwydiant, cyflogwyr, arbenigwyr a phobl yn y gymuned ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad ac yn ystod pob cyfnod o'r cwricwlwm.'* - ***Cyngor Sgiliau, Ymateb 2022***

Roedd ymatebydd arall, fodd bynnag, ym teimlo y byddai modd cryfhau'r cyngor gyrfaoedd trwy gael cysylltiadau agosach gyda busnesau lleol:

> *'Mae'r cwricwlwm yn cyfeirio at strategaeth addysg gyrfaoedd Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, dylai'r ddogfen fod yn fwy cyfarwyddol trwy nodi y dylai ysgolion feithrin partneriaethau gyda mentrau a busnesau lleol er mwyn cynnig profiadau mwy ymarferol i ddisgyblion ddysgu am fyd gwaith. Dylai cyfleoedd cysgodi a gwirfoddoli gyda sefydliadau creadigol, hamdden, amaethyddol neu iechyd a gofal cymdeithasol fod yn brif rhan o'r cwricwlwm newydd.'* - ***Mudiad Gwirfoddol, Ymateb 1407***

Yn fwy cyffredinol, awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r cwricwlwm ei hun fod yn gyfyngedig wrth ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd. Amlygwyd y posibilrwydd gan rai ymatebwyr y gallai blaenoriaethau a phwysau ariannol leihau'r ddarpariaeth gymharol:

*'Bydd rhai ysgolion yn manteisio ar y cyfle hwn i leihau darpariaeth pynciau creadigol ac entrepreneuraidd fel dylunio cynnyrch oherwydd y costau cymharol uwch.'* - ***Athro, Ysgol Uwchradd, Ymateb 1363***

Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo nad oedd y cwricwlwm yn mynd yn ddigon pell:

*'Gyda rhai eithriadau prin iawn, nid yw fersiwn cyfredol y cwricwlwm yn gwneud llawer iawn o gyfeiriad o gwbl at neu gyfarwyddyd er mwyn annog ymwybyddiaeth a dealltwriaeth entrepreneuraidd neu wleidyddol dysgwyr, er mwyn eu helpu i fod yn 'ddinasyddion gwybodus' ac yn 'gyfranwyr mentrus'. Dylid adlewyrchu'r elfennau hyn mewn ffordd fwy cadarn, er enghraifft, ym Meysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ac Iechyd a Lles yn ystod pob cam cynnydd, yn ogystal â thrwy'r adran ystyriaethau a'r elfennau trawsbynciol.'* - ***Estyn, Ymateb 1323***

# 14 Dysgu Proffesiynol

Mae'r bennod hon yn ystyried goblygiadau'r cwricwlwm newydd ar gyfer dysgu proffesiynol, yn ôl yr hyn a godwyd gan yr ymatebwyr.

Law yn llaw â chyfarwyddyd Cwricwlwm i Gymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Lansiwyd y Dull Cenedlaethol yn 2018 ac mae'n cyd-fynd yn agos gyda'r Safonau Proffesiynol newydd a'r model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu er mwyn sicrhau bod pob ymarferwr yn cael y cymorth y mae angen iddynt ei gael er mwyn darparu'r cwricwlwm newydd mewn ffordd effeithiol. Mae hyn yn cynnwys adnoddau ac amser ychwanegol i ymarferwyr fanteisio ar ac ymgysylltu gyda chyfleoedd datblygu o ansawdd uchel. Am ragor o wybodaeth, trowch at:

https://hwb.gov.wales/professional-development neu https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol

Yn gyffredinol, roedd nifer o ymatebwyr yn cydnabod y rôl pwysig a fyddai gan ddysgu proffesiynol yn y broses o ymwreiddio'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus. O'r persbectif hwn, byddai'r cwricwlwm newydd yn mynnu bod athrawon ac ysgolion yn addasu eu harfer, wrth gydlynu'r ddarpariaeth ac wrth addysgu:

> *'Mae creu cwricwlwm yn dasg heriol ac yn un na fu'n rhaid i ysgolion ei chyflawni o'r blaen. Er ein bod yn frwdfrydig ac yn awyddus, rydym yn pryderu nad oes gennym yr holl sgiliau a'r cymwyseddau er mwyn ymgymryd â'r dasg hon.'* - ***Pennaeth, Ysgol Gynradd, Ymateb 2511***

Yn aml, cyfeiriwyd at y newid o fod yn ddefnyddwyr cynnwys cwricwlaidd i fod yn gynllunwyr cynnwys cwricwlaidd fel ffactor allweddol sy'n gyrru tybiaethau ymatebwyr o bwysigrwydd dysgu proffesiynol.

> *'Mae angen hyfforddiant a chyfarwyddyd mwy penodol er mwyn i athrawon fod yn "llunwyr cwricwlwm". Mae angen iddynt ddeall gwahanol amlygiadau'r cwricwlwm ac ymgysylltu mewn ffordd fwy cadarn gydag athroniaethau addysg sy'n trefnu cwricwla. Nid yw addysg i athrawon yng Nghymru wedi pwysleisio athroniaeth deall y gwerthoedd a'r credoau sy'n cynnal addysgeg, mae hyn yn cyfyngu gallu athrawon i ymgysylltu â chwestiynau ystyrlon am nodau addysg a'r amcan sy'n eu cynorthwyo.'* - ***Darlithydd, Sefydliad Addysg Uwch, Ymateb 1429***

*'Mae'n ymddangos bod y cwricwlwm newydd yn gam cadarnhaol i'r cyfeiriad cywir yn gyffredinol, ond bydd gofyn buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol ar gyfer staff ysgolion a gweithwyr addysg proffesiynol eraill. Yn ogystal, bydd yn gofyn am adolygiad trylwyr o Addysg Gychwynnol Athrawon [AGA] fel eu bod yn meddu ar y gallu cywir i ddarparu cyfleoedd dysgu y tu mewn, y tu allan ac mewn amrediad o gyd-destunau a lleoliadau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae gofyn cael newid mewn ffocws hefyd, yn enwedig yn AGA ar lefel uwchradd, o arbenigaeth pwnc i ddulliau ac addysgeg sy'n canolbwyntio ar sgiliau a phrofiad.'* - ***Darparwr Hyfforddiant, Ymateb 1327***

*'Ceir goblygiadau enfawr ar gyfer Dysgu Proffesiynol, yn enwedig gyda dysgu Cymraeg a gweithredu iaith ryngwladol. Rydw i'n fwy pryderus am y ffordd y bydd ysgolion uwchradd yn gallu datblygu dysgu cysylltiedig a'u bod yn mynd i ystyried y newid addysgegol hwn o ddifrif ac mewn ffordd bwrpasol. Mae cryn dipyn o arfer da yn digwydd, felly mae angen i ysgolion ryddhau amser i ymweld a gweld arfer gorau, yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant. Mae arian ac amser yn werthfawr!'* - ***Arweinydd Uwch, Ysgol Gynradd, Ymateb 1712***

O fewn ac ar draws ymatebion, gwelwyd enghreifftiau mwy penodol hefyd o rôl pwysig dysgu proffesiynol wrth gynorthwyo'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm newydd. O ran darparu fframweithiau trawsgwricwlaidd, er enghraifft, awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai gofyn i athrawon gael hyfforddiant mwy penodol. Roedd hyn yn amlwg mewn ymatebion mewn perthynas â darparu darpariaeth RSE sensitif ac effeithiol, er enghraifft.

At hynny, roedd ystod amrywiol o sefydliadau yn cynnig cymorth i athrawon ac ysgolion wrth eu helpu i roi sylw i agweddau penodol ar y cwricwlwm, a'u darparu. Roedd hyn yn cynnwys grwpiau diddordeb arbennig a chyrff anadrannol y llywodraeth.


# 15 Gweithredu

Mae'r bennod hon yn ystyried safbwyntiau ymatebwyr ynghylch gweithredu'r cwricwlwm, gan gynnwys y ffactorau a fyddai'n sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei ymwreiddio'n llwyddiannus mewn addysgu a dysgu.

## 15.1 Cymorth

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod digon o hyblygrwydd a chymorth er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn siŵr, ond roedd y rhai a oedd yn siŵr wedi mynegi safbwyntiau cryf, yn rhai cadarnhaol a negyddol:

Ffigwr 16.1: C16.1. B4: Bwriad cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yw cynorthwyo ymarferwyr ac athrawon i gynllunio cwricwlwm sy'n benodol i blant a phobl ifanc. I ba raddau y bydd gan ymarferwyr ac athrawon yr hyblygrwydd a'r cymorth i wneud hyn? Mae gan ymarferwyr ac athrawon hyblygrwydd a chymorth.




N = 509

O blith yr ymatebwyr hynny a adroddodd eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, roeddent yn fwy tebygol o ystyried bod y dull gweithredu cyffredinol tuag at y cwricwlwm ei hun yn cynnig mwy o hyblygrwydd ar gyfer addysgu a dysgu. Yn ogystal, barnwyd bod y deunydd cyfarwyddyd yn gefnogol, gan helpu ymatebwyr i ddeall goblygiadau'r cwricwlwm ar gyfer addysgu a dysgu:


> *'Mae'r cwricwlwm hwn yn caniatáu'r hyblygrwydd i gynllunio cwricwlwm sydd wir yn addas ar gyfer eich dysgwyr chi, ac mae'r cyfarwyddyd yn cynnig cryn dipyn o gymorth er mwyn helpu ysgolion i gyflawni hyn.'* - ***Athro, Ysgol Gynradd, Ymateb 1033***

Er bod ymatebwyr eraill wedi adleisio'r teimlad hwn, roeddent yn awgrymu y bydd angen mwy o gymorth ar rai nag y bydd ei angen ar eraill:

> *'Mae'r cysyniad yn hyblyg ac wedi'i gynllunio er mwyn caniatáu i athrawon 'wneud yr hyn y mae angen iddynt ei wneud' a chael eu hysgogi gan ddiben yn hytrach nag atebolrwydd. Mae hyn yn gyffrous i nifer o ymarferwyr a fydd yn mwynhau'r her hon, ond bydd angen cymorth, cyngor ac arweiniad manylach ar athrawon nad ydynt mor hyblyg, ynghyd ag amrediad o adnoddau er mwyn cychwyn.' -* ***Pennaeth, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2049***

Roedd yr ymatebwyr hynny a adroddodd eu bod yn anghytuno bod digon o hyblygrwydd a chymorth yn fwy tebygol o gyfeirio at ffactorau sy'n allanol i'r cwricwlwm ei hun, megis y cymorth, yr amser, yr hyfforddiant a'r adnoddau a fydd ar gael i ymarferwyr ac athrawon. Gan archwilio safbwyntiau ymhellach, roedd y rhai a oedd yn adrodd eu bod yn anghytuno'n gryf yn llawer mwy tebygol o fod yn ymatebwyr o leoliadau meithrin:

Ffigwr 16.2: C16.1. B4: Ymatebwyr a oedd yn adrodd eu bod yn anghytuno'n gryf fesul canran: Bwriad cyfarwyddyd drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yw cynorthwyo ymarferwyr ac athrawon i gynllunio cwricwlwm sy'n benodol i blant a phobl ifanc. I ba raddau y bydd gan ymarferwyr ac athrawon yr hyblygrwydd a'r cymorth i wneud hyn? Mae gan ymarferwyr ac athrawon hyblygrwydd a chymorth.




N = 129

## 15.2 Amser ac Adnoddau

Yn yr ymateb i hwn ac i gwestiynau eraill am y cwricwlwm, un thema allweddol oedd pwysigrwydd amser ac adnoddau wrth weithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus. Roedd nifer o ymatebwyr wedi cynnwys rhybudd gyda'u cefnogaeth, gan awgrymu, er eu bod yn weddol gefnogol o'r cwricwlwm, bod ganddynt bryderon y tu hwnt iddo:

> *'Rydym yn cwestiynu'r dybiaeth bod gan athrawon yr amser a'r cymorth proffesiynol sy'n angenrheidiol er mwyn gweithio gyda dogfen mor hir a phenagored er mwyn creu cwricwlwm newydd ym mhob ysgol. Er bod disgwyliad efallai bod ysgolion yn rhannu ac yn cynorthwyo ei gilydd yn ystod y broses hon, y realiti yw y bydd y gweithgarwch datblygu a rhannu a gynhaliwyd gan ysgolion Arloesi yn anodd iawn i'w ehangu a'i atgynhyrchu ar draws pob ysgol.' -* ***Athrawon, Ysgol Uwchradd, Ymateb 2320***

Mynegwyd pryderon gan nifer o ymatebwyr am lefel ychwanegol yr adnoddau y byddai gofyn iddynt eu cael er mwyn darparu ehangder y cwricwlwm mewn ffordd effeithiol, ac a fyddai gan athrawon ddigon o amser i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain ar gyfer pob maes.

Ar ben hynny, mynegwyd pryderon gan nifer o ymatebwyr am y gwahanol lefelau o ran adnoddau rhwng ysgolion arloesi a lleoliadau prif ffrwd. O'r persbectif hwn, nid oedd yr enghreifftiau a'r profiadau o ysgolion arloesi yn gweithredu'r cwricwlwm yn gynrychioliadol, ac fe allai hyn danseilio gweithrediad llwyddiannus y cwricwlwm.

Roedd effaith y cwricwlwm newydd ar y llwyth gwaith yn bryder arall. Y dybiaeth o'r persbectif hwn yw y gallai rôl athrawon ac ysgolion fel cynllunwyr y cwricwlwm ychwanegu at lwythi gwaith y maent eisoes yn anodd ymdopi â nhw yn ôl rhai. Wrth roi sylw i rai o'r materion hyn, gwnaethpwyd awgrymiadau y byddai o gymorth cael cwricwlwm a rennir mewn rhai ardaloedd, yn enwedig er mwyn gwella'r cysondeb rhwng ysgolion bwydo ac atal dyblygu o ran y cynnwys yn ystod gwahanol gyfnodau.

## 15.3 Cyfle Cyfartal a Deilliannau

Pryder arall a fu'n ysgogi'r ymatebion ynghylch gweithrediad llwyddiannus Cwricwlwm i Gymru 2022 oedd y potensial i weld amrywiad o ran ansawdd a chynnwys y ddarpariaeth ar draws lleoliadau:

> *'Ceir manteision ac anfanteision i'r cam o fabwysiadu dull gweithredu hyblyg wrth ddarparu'r cwricwlwm. Er bod y gallu a'r cwmpas i addasu dysgu ar gyfer anghenion unigol penodol, byddem yn nodi bod perygl go iawn bod hyn yn caniatáu dehongliad goddrychol ar draws Cymru heb fframwaith manylach. Felly, byddem yn awgrymu y dylid amlygu'r risg hwn.' -* ***Corff Llywodraethu, Ymateb 2596***

*'Yn anffodus, mae'r iaith a ddefnyddir yn golygu eu bod yn amwys ac yn agored i gael eu dehongli. Gallai fod bwlch rhwng y cwricwlwm a fwriedir a'r cwricwlwm a geir.'* - ***Ymateb 1504***

*'Er ein bod yn deall y rhesymeg dros beidio cael cwricwlwm sy'n rhy gyfarwyddol, mae absenoldeb eglurder a chyfarwyddyd manwl yn golygu y bydd angen yr amser a'r sgiliau ar y proffesiwn addysgu er mwyn datblygu'r hyn sy'n ofynnol. Mae'n anochel bod hyn yn arwain at oblygiadau o ran hyfforddiant a datblygiad personol, yn ogystal â gwaith ychwanegol, ar gyfer staff... Os na roddir sylw i'r rhain, mae gennym bryderon ynghylch y rhagolygon y caiff y cynigion eu gweithredu'n llawn ac yn gywir, ac fel yr adroddwyd mewn man arall, gallai hyn ymestyn y bwlch cyflawniad rhwng grwpiau gwahanol o ddisgyblion, nid ei gau.'* - ***Ymateb 1583***

# 16 Casgliadau

Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr yn weddol gefnogol o strwythur a theimlad y cwricwlwm newydd. Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys athrawon, yn croesawu'r cynigion. Gwelwyd cefnogaeth fras ar gyfer agweddau megis y pwyslais ar y pedwar diben, y gallu ychwanegol a gynigir i athrawon yn y cwricwlwm, a rôl ehangach asesu ffurfiannol.

O ran gwella cyfarwyddyd y cwricwlwm, cynigiwyd dau awgrym clir gan ymatebwyr:

- Y rhai yr hoffent weld y cyfarwyddyd yn cael ei symleiddio, gan gynnwys o ran yr iaith a'r cysyniadau a ddefnyddir i gyfleu agweddau ar y cwricwlwm, ac o ran ei strwythur a'i gyflwyniad.
- Y rhai a oedd yn teimlo y byddai o fudd i'r cyfarwyddyd fod yn fwy manwl a dwfn mewn rhai mannau er mwyn helpu ymarferwyr ac athrawon i ddeall sut i weithredu'r cwricwlwm mewn gwirionedd.

Ar draws ymatebion, gwelwyd cydnabyddiaeth eang ar gyfer y gwaith a gynhaliwyd gan rwydwaith yr athrawon, yr ysgolion a'r sefydliadau wrth ddatblygu cwricwlwm Llywodraeth Cymru:

> *'Diolch i bawb am eu holl waith caled ar y cwricwlwm hwn hyd yn hyn.'* - ***Sefydliad Addysg, Ymateb 1600***

# Atodiad 1: Methodoleg

Cafwyd amrediad o wybodaeth ansoddol a meintiol yn yr ymatebion. Roedd yr holiadur ar-lein, er enghraifft, yn gofyn nifer o gwestiynau meintiol, yn ogystal â chwestiynau agored, ansoddol a oedd yn gofyn am fwy o fanylder am safbwyntiau ymatebwyr.

**Ymatebion Ansoddol**

Ar gyfer pob fformat a dull o ymgysylltu, cafodd yr ymatebion eu darllen a'u codio gan ddefnyddio dadansoddiad thematig. Cafodd y sylwadau a roddwyd i bob cwestiwn agored eu harchwilio, a lle'r oedd yr atebion hynny'n arwain at ymateb cadarnhaol neu negyddol, cawsant eu categoreiddio yn unol â hynny. Yn y rhan fwyaf o gwestiynau, roedd angen i'r ymatebwyr hefyd nodi eu rhesymau am eu barn, neu i roi eglurhad am eu hatebion. Cafodd y prif resymau a roddwyd gan yr ymatebwyr eu hadolygu, ynghyd ag enghreifftiau neu eglurhad penodol, awgrymiadau eraill, cafeatau, a sylwadau perthnasol eraill. Tynnwyd dyfyniadau gair am air o'r ymatebion mewn rhai achosion i amlygu'r prif themâu.

Oherwydd tebygolrwydd hunan-ddethol, nid ydym wedi ceisio cyfrif faint o ymatebwyr a oedd yn cytuno ar farn benodol ar gyfer y wybodaeth ansoddol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn feintiol i raddau helaeth, gyda'r nod o allu deall yr ystod o brif faterion a godwyd gan ymatebwyr, yn ogystal â'r rhesymau dros farn benodol. Mae gwybodaeth o'r fath yn cynnwys meysydd o gytundeb neu anghytundeb posibl rhwng y gwahanol grwpiau o ymatebwyr.

Wrth gyflwyno'r canlyniadau, rydym ni wedi anelu at ddarparu darlun eang o'r farn a'r safbwyntiau a fynegwyd mewn ymatebion. Mae ystod o dermau ansoddol yn cael eu defnyddio i fynegi amlder, gan gynnwys 'mwyafrif', 'nifer', 'rhai' ac 'ychydig', gyda'r drefn yn lleihau o ran amlder. Mae'n rhaid ystyried dehongliad o gydbwysedd barn yng nghyd-destun y cwestiynau sy'n cael eu holi, gan nad oedd pob ymatebwr wedi ymateb i bob cwestiwn, nac ychwaith wedi darparu digon o wybodaeth i bennu eu safbwynt yn gywir. Gan hynny, mae termau ansoddol yn awgrymu barn sy'n berthnasol i'r cwestiynau ar sail y rhai a ymatebodd yn unig. Felly, ni ellir cymryd bod y rhain yn gysylltiedig o ran niferoedd gyda chyfanswm nifer y bob a'r sefydliadau sydd wedi ymateb, nac i'r gymuned addysgiadol ehangach.

**Ymatebion Meintiol**

Cafodd yr ymatebion i gwestiynau caeedig eu meintoli a chafodd nifer yr ymatebion a oedd yn cytuno/anghytuno gyda phob cwestiwn ei adrodd drwy gyfrwng tablau gyda naratif i ddisgrifio tueddiadau yn y data.

# Atodiad 2: Holiadur

**Canllawiau drafft ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022: adborth**

**Cyflwyniad**

Rydym yn croesawu eich adborth ar y canllawiau drafft ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022.

Bydd y cyfnod adborth yn dechrau ar 30 Ebrill ac yn gorffen ar 19 Gorffennaf 2019. Byddwn yn edrych ar yr adborth a ddaeth i law ac yn ymateb i themâu'r adborth ar ôl y cyfnod hwnnw.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i wneud gwaith mireinio pellach ar y canllawiau drafft ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022, cyn eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2020.

Yma, mae cwestiynau cyffredinol a chwestiynau manylach i chi roi adborth arnynt.

Os ydych yn gweithio ym myd addysg neu yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno addysg, efallai yr hoffech ymateb i'r cwestiynau manylach sy'n ymdrin â'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu, a dysgu proffesiynol. Mae'r cwestiynau hyn yn dechrau'n gyffredinol ac yn mynd yn fwy penodol wrth fynd ymlaen.

**Rydym yn argymell eich bod yn darllen y canlynol cyn ymateb:**

- **Canllaw i Gwricwlwm i Gymru 2022**
- **Y maes/meysydd dysgu a phrofiad yr ydych eisiau rhoi adborth arnynt**
- **Cynigion ar gyfer asesu fel sail i ddatblygu canllawiau statudol.**

Bydd pob adborth a gyhoeddir yn ddienw. Mae cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn bwysig i ni. Mae ein **polisi preifatrwydd** ar y wefan yn esbonio sut yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth.

Os oes angen cymorth, e-bostiwch CwricwlwmiGymru2022@llyw.cymru

**Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol**

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu’r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- I wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- I’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (O dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data
- (O dan rai amgylchiadau) i’ch data gael eu ‘dileu’
- (O dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

| | |
|---|---|
| Y Swyddog Diogelu Data:<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd, CF10 3NQ<br><br>e-bost:<br>Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru | Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:<br>Wycliffe House<br>Water Lane<br>Wilmslow<br>Cheshire<br>SK9 5AF<br>Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113<br>Gwefan: https://ico.org.uk/ |

**Cynulleidfa**

Mae'r cwestiynau canlynol yn ein helpu i ddeall eich perthynas chi â’r canllawiau drafft ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022.

Ydych chi'n gweithio ym myd addysg neu'n cefnogi cyflwyno addysg?

| **Ydy** | | **Nac ydy** | |
|---|---|---|---|

**Os ‘ydy’, pa sefydliad yr ydych yn gweithio ynddo? (Os ‘nac ydy’, parhewch isod)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (Cynradd) | | Sefydliad addysg uwch | |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (Uwchradd) | | DAwdurdodau esgobaethol | |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (Arbennig) | | Consortia rhanbarthol | |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (Cynradd) | | Awdurdod lleol | |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (Uwchradd) | | Darparwr hyfforddiant preifat | |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (Arbennig) | | Trydydd sector | |
| Ysgol ddwyieithog (Cynradd) | | Llywodraeth | |
| Ysgol ddwyieithog (Uwchradd) | | Dysgu oedolion yn y gymuned | |
| gol ganol cyfrwng Cymraeg | | Sefydliad dyfarnu | |
| ol ganol cyfrwng Saesneg | | Undeb addysgu | |
| Uned cyfeirio disgyblion | | Corff rheoleiddio (gan gynnwys Arolygiaeth) | |
| Ysgol arbennig | | Corff llywodraethu | |
| Lleoliad a ariennir nas cynhelir | | Arall (nodwch): | |
| Coleg addysg bellach | | | |

**Beth yw eich prif rôl?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pennaeth (cynradd ac uwchradd) | | Canghellor/Is-ganghellor | |
| Athro | | Darlithydd | |
| Ymarferydd | | Arloeswr | |
| Athro newydd gymhwyso | | Llywodraethwr | |
| Cynorthwyydd addysgu | | Cynghorydd Herio | |
| Uwch arweinydd | | Swyddog gwella ysgol | |
| Athro cyflenwi | | Arolygydd | |
| Pennaeth/Dirprwy bennaeth | | Arall (nodwch): | |

**Os nad ydych yn gweithio ym myd addysg neu'n cefnogi cyflwyno addysg, ym mha rinwedd hoffech chi ddarparu adborth?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant neu ofalwr | | Cyflogwr | |
| Oedolyn 18+ (nid rhiant na gofalwr) | | Prentis | |
| Plentyn neu berson ifanc (dan 18) | | Arall (rhowch fanylion): | |
| Myfyrwyr/academaidd | | | |

**Ydych chi'n rhoi adborth ar ran grŵp neu sefydliad?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydy** | | **Nac ydy** | |

Os 'ydy, nodwch hynny.

| |
|---|
| |

## Adran A - Cwestiynau cyffredinol

**A1. Yn eich barn chi, i ba raddau y bydd *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn helpu plant a phobl ifanc i ddod yn:**

- Ddysgwyr galluog, uchelgeisiol
- Unigolion iach, hyderus
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus
- Cyfranwyr mentrus, creadigol?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**A2. Gan edrych ar y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, i ba raddau y maent yn crynhoi'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu plant a phobl ifanc, yn eich barn chi?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**A3. Yn eich barn chi, a fyddai modd gwella *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022*?**

| **Oes** | | **Nac oes** | |
|---|---|---|---|

**Os felly, sut y gellid eu gwella?**

| |
|---|
| |

**A4. I ba raddau y mae'r cynigion asesu yn helpu lleoliadau ac ysgolion i nodi cryfderau a chyflawniadau dysgwyr a'r meysydd i'w gwella er mwyn iddynt allu helpu dysgwyr i wneud cynnydd drwy nodi'r camau nesaf?**

| Arbennig o gefnogol | Cefnogol iawn | Cefnogol | Gweddol gefnogol | Ddim yn gefnogol o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**A5. Mewn perthynas ag adrodd i rieni a gofalwr, rhannwch eich barn gyda ni ar:**

- Rôl dysgwyr wrth gyfrannu at y broses adrodd
- Rôl rhieni/gofalwyr yn y broses adrodd
- Yr wybodaeth y byddech am ei chynnwys.

| |
|---|
| |

## Adran B – Cwestiynau manylach

**B1. Pa mor ddefnyddiol fyddai *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* i chi wrth ddatblygu cwricwlwm ar gyfer eich dysgwyr?**

| Arbennig o ddefnyddiol | Defnyddiol iawn | Defnyddiol | Gweddol ddefnyddiol | Ddim yn ddefnyddiol o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B2. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn galluogi pob plentyn a pherson ifanc i gael amrywiaeth eang o brofiadau dysgu?**

Efallai y byddwch am ystyried y dysgu ar draws y disgyblaethau a'r pynciau gwahanol sy'n rhan o faes dysgu a phrofiad.

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B3. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn galluogi pob plentyn a pherson ifanc i arbenigo mewn disgyblaeth neu bwnc penodol o 14 oed?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B4. Nod *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yw helpu ymarferwyr ac athrawon i ddylunio cwricwlwm sy'n benodol i blant a phobl ifanc. I ba raddau y bydd hyblygrwydd a chefnogaeth ar gael i ymarferwyr ac athrawon wneud hyn?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B5. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn helpu dysgwyr i feithrin sgiliau yn y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol) a themâu trawsbynciol eraill (e.e. y dimensiwn Cymreig a phersbectif rhyngwladol, sgiliau ehangach, gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, addysg cydberthynas a rhywioldeb)?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B6. Sut y gellid mireinio'r fframweithiau trawsgwricwlaidd *(Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol)* er mwyn helpu i feithrin llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ym mhob rhan o'r cwricwlwm newydd?**

| |
|---|
| |

**B7. Yn eich barn chi, i ba raddau y bydd canllawiau'r *meysydd dysgu a phrofiad* yn helpu plant yn ystod blynyddoedd y Cyfnod Sylfaen?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B8. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn helpu ac yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ar gyflymder priodol i'w datblygiad o fewn y maes dysgu a phrofiad rhwng 3 ac 16 oed?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B9. Yn eich barn chi, i ba raddau y bydd *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn darparu sail er mwyn helpu pobl ifanc i wneud cynnydd ar ôl 16 oed?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B10. Dylid rhoi blaenoriaeth i asesiadau ffurfiannol yn y cwricwlwm newydd. I ba raddau y mae'r cynigion asesu yn hyrwyddo'r egwyddor hon?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B11. Mae'r cynigion asesu yn cynnig dull cymedroli ehangach – gan gefnogi deialog proffesiynol o ran natur cynnydd, dewis gweithgareddau dysgu ac asesu priodol, yn ogystal â sicrhau dealltwriaeth gyffredin o enghreifftiau o gyflawniad yng nghyd-destun y deilliannau cyflawniad**

**Sut y byddech yn rhagweld y byddai eich lleoliad / ysgol yn rhoi'r dull hwn ar waith? Yn eich barn chi, pa gymorth pellach y byddai ei angen?**

| |
|---|
| |

**B12. Pa faterion ymarferol sy'n effeithio ar leoliadau ac ysgolion y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt os caiff y cynigion asesu eu rhoi ar waith?**

| |
|---|
| |

**B13. Yn eich barn chi, pa oblygiadau sy'n deillio o *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* o ran eich anghenion *datblygiad proffesiynol* chi a'ch cydweithwyr mewn perthynas â'r canlynol:**

- Yr effaith ar arfer addysgegol
- Goblygiadau cynllunio ar gyfer cwricwlwm wedi'i lywio gan ddibenion
- Gofynion dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig ag addysgeg
- Datblygu trefniadau cydweithredu yn yr ysgol a rhwng ysgolion
- Meysydd dysgu proffesiynol penodol sy'n gysylltiedig â'r meysydd dysgu a phrofiad
- Cyfleoedd i ddulliau ymholi proffesiynol ategu'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd?

| |
|---|
| |

**B14. Pa heriau a chyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â rhoi egwyddorion y cynigion asesu drafft ar waith?**

| |
|---|
| |

## Adran C – Penodol: Meysydd dysgu a phrofiad

**C1. Os hoffech ddarparu adborth penodol yn ymwneud ag un neu fwy o feysydd dysgu a phrofiad penodol, gwnewch ddetholiad ac ychwanegwch eich sylwadau isod.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Celfyddydau Mynegiannol | | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | |
| Dyniaethau | | Mathemateg a Rhifedd | |
| Iechyd a Lles | | Gwyddoniaeth a Technoleg | |

**Sylwadau (os dewiswch mwy nag un maes dysgu a phrofiad nodwch bod sylwad):**

| |
|---|
| |

**C2. I ba raddau y mae'r camau cynnydd ym *Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd* yn cyfleu'r galluoedd a nodir yn yr egwyddorion cynnydd?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**C3. I ba raddau y mae'r adrannau dysgu ym *Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu* yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr feithrin sgiliau trawsieithu?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**C4. I ba raddau y mae'r canllawiau ym *Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu* yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu'r broses o gaffael a dysgu ieithoedd?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**C5. I ba raddau y mae'r canllawiau_*Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles* yn cefnogi dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas â sicrhau iechyd a lles?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**A hoffech wneud unrhyw sylwadau pellach neu roi adborth ar unrhyw beth arall?**

| |
|---|
| |

**Dychwelyd erbyn 19 Gorffennaf 2019**

**Ebost:** CwricwlwmiGymru2022@llyw.cymru

**Anfonwch at: Adborth Cwricwlwm i Gymru 2022**
**Is-adran Cwricwlwm ac Asesu**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3NQ**

ISBN Digidol 978 1 83933 382 8
Cwricwlwm i Gymru 2022 Dadansoddiad Adborth
© Hawlfraint y Goron 2019
WG39110